Wylfa Newydd

# Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 17: Ardal Datblygu Wylfa Newydd

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag o fwriad

## 1.0 Datblygu Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN)

1.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r effeithiau tebygol o ddatblygu Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN) ar y canlynol:

a) Tirwedd
b) Gweledol
c) Yr Amgylchedd Hanesyddol
d) Ecoleg y Tir
e) Dŵr Wyneb a Dŵr Daear
f) Materion Presennol sy'n ymwneud â Thir Halogedig
g) Priddoedd a Daeareg

1.2 Mae ADWN yn cynnwys yr orsaf bŵer arfaethedig, gwaith yn y môr, campws y safle a gwaith datblygu arall ar y safle. Mae'r holl effeithiau'n cael eu hystyried yn y bennod hon heblaw'r campws safle arfaethedig sy'n cael ei drafod ar wahân.

1.3 Mae ADWN yn rhan o leoliad gwledig o ansawdd da o ran ei dirwedd a'i amgylchedd sy'n cynnwys tref fach, pentrefi a phentrefannau. Mae Gogledd Ynys Môn yn cynnwys wardiau cynghorau cymuned Llanbadrig, Amlwch, Mechell, Llaneilian, Moelfre, Llannerch-y-medd a Llanfaethlu. **Profir mwyafrif yr effeithiau uniongyrchol o'r datblygiadau arfaethedig gan y cymunedau hyn, a chan dderbynyddion cysylltiedig.**

1.4 Mae'r amgylchedd arfordirol yn yr ardal o gwmpas prif safle Wylfa Newydd yn gyfoethog a sensitif iawn ac mae hyn, ynghyd â phresenoldeb asedau hanesyddol pwysig a natur wledig y cymunedau yn ei gyffiniau, yn codi nifer o ystyriaethau allweddol y mae CSYM yn disgwyl i HNP eu hystyried yn llawn ac i unrhyw effeithiau gael eu lliniaru i'r graddau mwyaf posibl neu eu cydbwyso mewn ffyrdd eraill.

1.5 **Fel y cadarnhawyd ym Mhennod yr Asesiad o Effeithiau Cronnol, ychydig yw'r capasiti a'r cydnerthedd sydd gan y cymunedau hyn i ymaddasu i effeithiau o'r fath oherwydd natur gronnol a dwys yr effeithiau. Mae disgwyliad y bydd preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr â'r ardal yn gallu byw eu bywyd pob dydd heb ymyrraeth yn ystod y cyfnod adeiladu (a chyfnodau dilynol). Mae CSYM wedi cadarnhau ar bob cam yn ei ymgysylltu â HNP fod angen i effeithiau'r prosiect gael eu lliniaru'n llawn neu eu cydbwyso ar bob cam.**

1.6 Mae Polisi EA 28a o Ganllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yn cadarnhau'r egwyddorion allweddol y mae angen i HNP roi sylw neilltuol iddynt wrth ddatblygu ei gynigion. Mae CSYM wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn wrth asesu cynigion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ac wrth ystyried gofynion am liniaru/cydbwyso effeithiau.

Ymhlith yr Egwyddorion y mae'r angen i:

a) Lleihau effeithiau ar gydlyniant cymunedau lleol, iechyd a'r Gymraeg a'i diwylliant. Hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o adnoddau;
b) Osgoi effeithiau niweidiol ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr yn ystod gwaith adeiladu a gweithredu;
c) Sicrhau bod datblygiadau'n gallu gwrthsefyll perygl o lifogydd yn cynnwys ymchwyddiadau storm a tswnami;
d) Osgoi, lliniaru neu, lle y bo'n briodol, cydbwyso effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig (gan sicrhau na fydd colled net o fioamrywiaeth);
e) Lleihau effeithiau ar dirwedd ac effeithiau gweledol yn cynnwys mewn perthynas ag AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn, asedau hanesyddol a derbynyddion preswyl a hamdden o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau adeiladu a gweithredu. Lle mae hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd wedi dangos na ellir osgoi effeithiau, dylid darparu lefelau priodol o liniaru a chydbwyso;
f) Cynnal a gwella mynediad i'r arfordir ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ac i Fynydd Parys ar hyd y Trywydd Copr. Sicrhau gwelliant cyffredinol yn y ddau rwydwaith llwybrau troed;
g) Pennu ffyrdd o drin tirweddau, creu cynefinoedd, rheoli perygl o lifogydd a chysylltu a gwella Hawliau Tramwy sy'n integreiddio'n briodol â'r ardal o gwmpas. Byddai gwaith a gwelliannau i'r dirwedd a seilwaith gwyrdd sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin prif safle'r orsaf bŵer yn gallu cynnig o posibilrwydd o liniaru a chydbwyso effeithiau'r prosiect a darparu gwelliannau lle y bo'n briodol;
h) Lle mae datblygiad yn un dros dro, mabwysiadu dull adfer fesul cam a/neu greu tirweddau newydd (a all gynnwys gwrychoedd, tir amaethyddol, glaswelltir, coetir, nodweddion dŵr a phrysgdir) cyn gynted ag y gellir yn rhesymol er mwyn lleihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol a chydbwyso effeithiau ar y nodweddion naturiol hyn. Ar ôl adfer y dirwedd neu greu tirwedd newydd, dylid ei chynnal wedyn;
i) Lleihau effeithiau ar hamdden, yn cynnwys y defnydd o lwybrau troed a llwybrau beicio, a diogelu cyfleoedd hamdden awyr agored drwy ddarparu mannau agored newydd, llwybrau troed a llwybrau beicio newydd neu well, creu llwybrau cylchol ar gyfer cerdded a beicio. Rhaid gwneud iawn am unrhyw golled a/neu dylid cynyddu mynediad i'r cyhoedd o gwmpas y safle i liniaru unrhyw effaith sy'n arwain at golli cysylltedd drwy'r safle yn ystod y gwaith adeiladu.

## 2.0 Tirwedd

### 2.1 Cyd-destun

2.1.1 Mae'r bennod hon yn nodi effeithiau tebygol yr agweddau hynny ar ddatblygiad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu sydd wedi'u cynnig o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN), heb gynnwys Campws y Safle a gaiff ei ystyried mewn pennod ar wahân, ar adnoddau tirwedd Gogledd Ynys Môn, yn benodol:

a) Adeiledd y dirwedd – yr effeithiau ffisegol uniongyrchol ar elfennau a nodweddion y dirwedd.
b) Cymeriad y dirwedd a'r forwedd – yr effeithiau ffisegol uniongyrchol a'r effeithiau gweledol anuniongyrchol ar gymeriad y dirwedd o fewn ADWN a'r dirwedd a morwedd yn yr ardal o gwmpas.
c) Dynodiadau tirwedd – yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar briodweddau a dibenion arbennig tirweddau dynodedig sydd o fewn neu'n agos i ADWN, yn benodol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn ac Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Mynydd Mechell a'r Cyffiniau.

2.1.2 Mae hefyd yn nodi'r mesurau lliniaru sydd eu hangen i osgoi neu leihau'r effeithiau hyn, y mesurau cydbwyso sydd eu hangen i wrthbwyso'r effeithiau hynny na ellir eu lliniaru'n llwyr, y cyd-destun polisi a bylchau yn y wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon. Yn olaf, amlinellir y cynlluniau ychwanegol y dylid eu sicrhau drwy rwymedigaethau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) a'r mesurau hynny y dylid eu sicrhau drwy rwymedigaethau adran 106.

2.1.3 Mae trafodaeth ar dirweddau hanesyddol, yn cynnwys Gerddi Cestyll a Drymlin y Fonesig Sylvia Crowe (tirwedd a gynlluniwyd ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Magnox) yn y bennod ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn yr Adroddiad Effaith Leol.

2.1.4 Fel y nodwyd yn yr adroddiad Sense of Place (CSYM Hydref 2018)[1], mae amrywiaeth fawr o dirweddau a morweddau o ansawdd da ac eithriadol yn Ynys Môn sy'n rhan annatod o hunaniaeth Ynys Môn. Mae'r rhain yn bwysig i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Ynys Môn a hefyd i ymwelwyr, y mae nifer mawr ohonynt yn cael eu denu i Ynys Môn gan amrywiaeth ac ansawdd y golygfeydd. Felly, mae effeithiau ar y dirwedd a'r forwedd a'r mesurau lliniaru a chydbwyso sydd eu hangen i osgoi, lleihau neu wrthbwyso'r effeithiau hyn, yn sail i nifer o'r materion eraill a ystyrir yn yr Adroddiad Effaith Leol hwn.

### 2.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

2.2.1 Mae CSYM wedi adolygu'r cynigion ar gyfer ADWN, rhagfynegiadau o effeithiau'r datblygiad ar adnoddau tirwedd a morwedd a'r mesurau lliniaru a chydbwyso a awgrymwyd gan Horizon ar gyfer ADWN yn nogfennau'r GCD. Mae CSYM wedi cynnal ei asesiadau ei hun wedyn o effeithiau

[1] Cyngor Sir Ynys Môn. 2018. Anglesey: A Sense of Place (Atodiad 17A)

tebygol, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma, ac wedi nodi'r mesurau lliniaru a chydbwyso ychwanegol y mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu cynnwys yn y cynigion datblygu er mwyn lleihau effeithiau'r datblygiad ar adnoddau tirwedd a morwedd a, lle y bo modd, sicrhau rhai buddion hirdymor.

**Adeiledd y Dirwedd**

2.2.2 Yn groes i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1) (gweler paragraff 2.2.17 isod), nid yw Pennod D10[2] y Datganiad Amgylcheddol (a'i hatodiadau cysylltiedig) yn cynnwys asesiad o effeithiau ar adeiledd y dirwedd a datgenir yn lle hynny:

2.2.3 *10.3.3. Landscape receptors comprise areas of landscape and seascape character, and their constituent elements. The effect on these constituent elements, such as trees, woods or hedgerows, has been considered as part of the effects on landscape and seascape character and not as individual receptors.*

2.2.4 Fodd bynnag, fe gollir llawer o elfennau tirwedd o ganlyniad i'r datblygiad hwn, felly mae'n bwysig asesu gwerth yr elfennau tirwedd o fewn ADWN ac o'i chwmpas yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y datblygiad ar yr elfennau hyn, er mwyn deall beth a gollir a'r camau lliniaru sydd eu hangen i osgoi, cyfyngu neu gydbwyso'r colledion hyn.

2.2.5 O fewn safle'r orsaf bŵer (sydd wedi'i ddiffinio gan linell doredig goch ar Ffigur 6-6 yn y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (SRhTCh) (8.16)[3], collir holl nodweddion ac elfennau'r dirwedd, yn cynnwys nodweddion arfordirol, yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect ac ni fyddant yn cael eu hadfer yn ystod y cyfnod gweithredu. O ganlyniad i hyn, mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau uniongyrchol ar adeiledd y dirwedd o fewn safle'r orsaf bŵer yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) yn y tymor byr, canolig a hir.

2.2.6 Yng ngweddill ADWN (o fewn y terfynau yn y GCD ond y tu allan i safle'r orsaf bŵer), collir bron pob un o nodweddion ac elfennau'r dirwedd yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect ond fe fyddant yn cael eu hadfer ar ddiwedd y cyfnod adeiladu neu ar ddechrau'r cyfnod gweithredu. O ganlyniad i hyn, mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau uniongyrchol ar adeiledd y dirwedd yng ngweddill ADWN yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) yn y tymor byr a chanolig, h.y. tan ddiwedd y cyfnod adeiladu o leiaf. Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu gwrthdroi'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu gan y SRhTCh a fydd yn adfer llawer o adeiledd presennol y dirwedd. Bydd yr elfennau tirwedd caled (fel waliau cerrig a chloddiau) yn cael eu hailosod a bydd modd sylwi'n syth ar eu hadferiad. Bydd yn cymryd amser i elfennau tirwedd meddal (fel glaswelltiroedd, prysgwydd, gwrychoedd a choetiroedd)

[2] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad App-129
[3] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad App-424

ymsefydlu (fel arfer, 2 – 5 mlynedd ar gyfer glaswelltiroedd, 5 - 10 mlynedd ar gyfer prysgwydd a gwrychoedd a 10 – 20 mlynedd ar gyfer coetiroedd os bydd y pridd wedi'i baratoi'n briodol, os bydd planhigion wedi'u trin a'u cynnal yn dda ac os bydd amodau'r hinsawdd yn ffafriol). O ganlyniad i hyn, bydd yr effeithiau ar adeiledd y dirwedd yng ngweddill ADWN yn cael eu lliniaru'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu, gan leihau o fod yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) ar ddiwedd y cyfnod adeiladu i fod yn Niwtral (Effeithiau uniongyrchol niweidiol dibwys) tua 20 mlynedd ar ôl dechrau'r cyfnod gweithredu.

2.2.7 Y tu allan i ADWN, gellid cael effeithiau anuniongyrchol hefyd ar adeiledd y dirwedd (yn enwedig ar lystyfiant presennol) o ganlyniad i gyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r datblygiad, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau yn ansawdd aer ac ansawdd a maint y dŵr wyneb a'r dŵr pridd. Bydd tebygolrwydd, graddau a dwyster effeithiau o'r fath yn dibynnu ar y newidiadau a ragwelir yn yr amgylcheddau aer a dŵr ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd i gael eu rhoi ar waith. O ganlyniad i hyn, bydd hefyd yn bwysig cynnal gwaith monitro priodol i wirio iechyd llystyfiant o gwmpas ADWN cyn ac yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect, yn enwedig mewn perthynas â'r elfennau tirwedd mwyaf sensitif a gwerthfawr, fel Gwrychoedd Pwysig (o dan Reoliadau Gwrychoedd 1997[4]) a thirweddau hanesyddol (e.e. Gerddi Cestyll a'r dirwedd a gynlluniwyd gan y Fonesig Sylvia Crowe, gweler y bennod ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn yr Adroddiad Effaith Leol).

2.2.8 Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma, mae'n annhebygol y bydd effeithiau anuniongyrchol ar adeiledd y dirwedd (llystyfiant presennol) y tu allan i ADWN o ganlyniad i gyfnod gweithredu'r datblygiad.

**Cymeriad y Dirwedd a'r Forwedd**

2.2.9 Mae cymeriad y dirwedd a'r forwedd yng Ngogledd Ynys Môn wedi'i ddisgrifio ar sail unedau ar wahân mewn gwahanol ffyrdd ac mae'r rhain wedi'u dangos yn y ffigurau canlynol yn y Datganiad Amgylcheddol Cyfrol D (6.4.101)[5]:

a) Ardaloedd cymeriad tirwedd (LCAs) sydd wedi'u dangos yn y Diweddariad o Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011 – gweler Ffigur D10-9.
b) Ardaloedd gweledol a synhwyraidd LANDMAP – gweler Ffigur D10-10.
c) Ardaloedd cymeriad tirwedd a morwedd lleol (LLCAs ac LSCAs) sydd wedi'u pennu gan Horizon yn y Datganiad Amgylcheddol Pennod D10 – gweler Ffigur D10-11.
d) Ardaloedd Cymeriad Morol Cenedlaethol (MCAs) ac Ardaloedd Cymeriad Morwedd Rhanbarthol Cymru (SCAs) – gweler Ffigur D10-12.

2.2.10 Mae'r asesiad o effeithiau ar gymeriad y dirwedd a/neu'r forwedd ym mhob LCA, LLCA ac LSCA wedi'i ddarparu yn y Datganiad Amgylcheddol, Atodiad

[4] Rheoliadau Gwrychoedd 1997 (Link)
[5] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-237

D10-6 (6.4.63)[6]. Mae'r asesiad hwn yn disgrifio'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yng nghyfnodau paratoi'r safle, adeiladu a gweithredu ar gymeriad pob uned ac, yn nhermau maint ac arwyddocâd, mae'n asesu effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfunol pob cyfnod ar bob uned "yn gyffredinol". Felly, nid yw'r dull hwn yn asesu'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar wahân ac mae hefyd yn rhoi'r effeithiau "cyfartalog" ar gyfer yr uned gyfan, gan fethu â nodi rhai o'r effeithiau mwy arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd. Mae'r asesiad yn aneglur hefyd mewn perthynas â graddau'r effeithiau arwyddocaol y mae'n eu nodi ac felly nid yw'n nodi'n glir yr ardaloedd daearyddol lle byddai'r effeithiau ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd yn arwyddocaol a'r rheini lle na fyddai'r effeithiau'n arwyddocaol neu, yn wir, lle na fyddai effeithiau o gwbl.

2.2.11 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.2.5 uchod, o fewn safle'r orsaf bŵer collir holl nodweddion ac elfennau'r dirwedd yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect ac ni fyddant yn cael eu hadfer yn ystod y cyfnod gweithredu. Felly, mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau uniongyrchol ar gymeriad y dirwedd o fewn safle'r orsaf bŵer yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn gymwys i'r rhannau hynny o LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting) ac LSCA 2 (Porth y Pistyll) sy'n ymestyn i safle'r orsaf bŵer (gweler y Datganiad Amgylcheddol, Ffigur D10-11, 6.4.101).

2.2.12 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.2.6 uchod, yng ngweddill ADWN collir bron pob un o nodweddion ac elfennau'r dirwedd yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect ond byddant yn cael eu hadfer ar ddiwedd y cyfnod adeiladu neu ar ddechrau'r cyfnod gweithredu. Felly, mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau uniongyrchol ar gymeriad y dirwedd yng ngweddill ADWN, ynghyd ag effeithiau'r gweithgareddau adeiladu eraill, yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) yn y tymor byr a chanolig, h.y. tan ddiwedd y cyfnod adeiladu o leiaf. Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lliniaru'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu gan y SRhTCh a fydd yn adfer llawer o adeiledd a chymeriad presennol y dirwedd. Fodd bynnag, bydd presenoldeb Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredu yn achosi effeithiau anuniongyrchol ar gymeriad y dirwedd yng ngweddill ADWN. O ganlyniad i hyn, bydd yr effeithiau ar gymeriad y dirwedd yn ADWN (y tu allan i safle'r orsaf bŵer) yn cael eu lliniaru'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu ond dim ond o ychydig, gan leihau o fod yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) ar ddiwedd y cyfnod adeiladu i fod yn Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol cymedrol) tua 20 mlynedd ar ôl dechrau'r cyfnod gweithredu. Mae hyn yn gymwys i'r rhannau hynny o LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting), LLCA 3 (Cemaes Bay Hinterland), LSCA 1 (Cemlyn Bay), LSCA 2 (Porth y Pistyll), LSCA 4 (Wylfa Head) ac LSCA 5 (Outer Cemaes Bay) sy'n ymestyn i ADWN (y tu allan i safle'r orsaf bŵer) (gweler y Datganiad Amgylcheddol, Ffigur D10-11, 6.4.101).

2.2.13 Y tu allan i ADWN, byddai effeithiau anuniongyrchol hefyd ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd o ganlyniad i gyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r

[6] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-197

datblygiad, er enghraifft, o ganlyniad i olygfeydd o'r tirffurfiau a addaswyd, gweithgareddau adeiladu, craeniau ac adeiladweithiau uchel yn y lleoliadau hynny lle mae golygfeydd yn un o nodweddion allweddol y dirwedd a/neu'r forwedd. Mae hyn yn gymwys yn benodol i'r tirweddau ac ardaloedd arfordirol uwch a mwy agored o gwmpas y safle ac mae'n debygol o ddigwydd gan mwyaf yn ardal yr astudiaeth fanwl, fel y mae'r parthau gweledEdd damcaniaethol yn y Datganiad Amgylcheddol, Ffigurau 10-18 – 10-27 (6.4.101) yn dangos.

2.2.14 Mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau anuniongyrchol ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd y tu allan i ADWN yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect yn Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol Mawr i Gymedrol) yn y tymor byr a chanolig, h.y. tan ddiwedd y cyfnod adeiladu o leiaf, hyd at 5km o'r safle. Mae hyn yn gymwys i'r rhannau hynny o LCA 4 (North West Coast) ac LCA 5 (North West Anglesey), sydd wedi'u diffinio yn y Diweddariad o Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011[7] sy'n nes na thua 5km i'r safle (gweler y Datganiad Amgylcheddol, Ffigurau D10-9 a D10-18 – 10.27, 6.4.101). Yn fwy penodol, mae'n gymwys i LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting), LLCA 3 (Cemaes Bay Hinterland), LLCA 4 (Cemaes), LLCA 5 (Llanfechell Farmland), LLCA 6 (Tregele), LLCA 7 (A5025 Farmlands), LLCA 8 (Llanfairynghornwy), LLCA 9 (Mynydd y Garn), LLCA 11 (Llanfechell), LLCA 13 (North Coast), LSCA 1 (Cemlyn Bay), LSCA 2 (Porth y Pistyll), LSCA 4 (Wylfa Head), LSCA 5 (Outer Cemaes Bay), LSCA 6 (Inner Cemaes Bay), LSCA 7 (Porth Padrig), LSCA 8 (North Coast Cliffs), LSCA 11 (Hen Borth) sy'n nes na thua 5km i ADWN (gweler y Datganiad Amgylcheddol, Ffigurau D10-11 a D10-18 – 10.27, 6.4.101).

2.2.15 Y tu allan i ADWN, byddai effeithiau anuniongyrchol hefyd ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd o ganlyniad i gyfnod gweithredu'r datblygiad oherwydd golygfeydd o'r orsaf bŵer yn y lleoliadau hynny lle mae golygfeydd yn un o nodweddion allweddol y dirwedd a/neu'r forwedd. Unwaith eto, mae hyn yn gymwys yn benodol i'r tirweddau ac ardaloedd arfordirol uwch a mwy agored o gwmpas y safle ac mae'n debygol o ddigwydd gan mwyaf yn ardal yr astudiaeth fanwl.

2.2.16 Er y bydd cymeriad y dirwedd mewn rhan helaeth o ADWN yn cael ei adfer yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd yr orsaf bŵer yn brif elfen o hyd mewn golygfeydd a bydd yn achosi effeithiau anuniongyrchol ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd yn y dirwedd a'r ardaloedd arfordirol o'i chwmpas. Mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau anuniongyrchol ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd y tu allan i ADWN yn ystod y cyfnod gweithredu yn Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol cymedrol) yn y tymor hir, h.y. tan ddiwedd y cyfnod gweithredu o leiaf, hyd at 5km o'r safle. Mae hyn yn gymwys i'r rhannau hynny o LCA 4 (North West Coast) ac LCA 5 (North West Anglesey), fel y maent wedi'u diffinio yn y Diweddariad o Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011 sy'n nes na thua 5km i'r safle (gweler y Datganiad Amgylcheddol, Ffigurau D10-9[8] a D10-18 – 10.27, 6.4.101[9]). Yn fwy penodol,

---

[7]Diweddariad o Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011 (Link)
[8] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-200
[9] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-237

mae'n gymwys i LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting), LLCA 3 (Cemaes Bay Hinterland), LLCA 5 (Llanfechell Farmland), LLCA 7 (A5025 Farmlands), LLCA 8 (Llanfairynghornwy), LLCA 9 (Mynydd y Garn), LLCA 11 (Llanfechell), LLCA 13 (North Coast), LSCA 1 (Cemlyn Bay), LSCA 2 (Porth y Pistyll), LSCA 3 (Wylfa Power Station), LSCA 4 (Wylfa Head), LSCA 5 (Outer Cemaes Bay), LSCA 6 (Inner Cemaes Bay), LSCA 7 (Porth Padrig), LSCA 10 (Outer Cemlyn Bay), LSCA 11 (Hen Borth) sy'n nes na thua 5km i ADWN (gweler y Datganiad Amgylcheddol, Ffigurau D10-11 a D10-18 – 10.27, 6.4.101[10]).

**Dynodiadau Tirwedd**

2.2.17 Mae'r dynodiadau tirwedd yng Ngogledd Ynys Môn wedi'u dangos yn Ffigur D10-8 (6.4.101)[11].

**AHNE Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn**

2.2.18 Mae'r asesiad o effeithiau ar AHNE Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn wedi'i ddarparu yn y Datganiad Amgylcheddol, Atodiad D10-6 (6.4.63[12]). Mae'r asesiad hwn yn disgrifio'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yng nghyfnodau paratoi'r safle, adeiladu a gweithredu ar nodweddion a phriodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth ac, yn nhermau maint ac arwyddocâd, mae'n asesu'r effeithiau uniongyrchol ar y rhannau o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth sydd o fewn ADWN a hefyd yn dod i gasgliadau ynghylch yr effeithiau ym mhob cyfnod ar y dynodiadau hyn "yn gyffredinol". Nid yw'n glir a yw'r olaf yn cynnwys effeithiau uniongyrchol ac effeithiau anuniongyrchol a thrwy nodi effeithiau "cyfartalog" dros y cyfan o'r ardaloedd dynodedig (sy'n eang iawn), mae'r asesiad yn methu â nodi rhai o'r effeithiau anuniongyrchol mwy arwyddocaol ar y dynodiadau hyn.

2.2.19 Mae CSYM yn credu ei bod yn hanfodol asesu'r effeithiau <u>anuniongyrchol</u>, a hefyd yr effeithiau anuniongyrchol cyfunol ar sail pynciau, o'r datblygiad arfaethedig ar yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth. Y rheswm am hyn yw, er ei bod yn bosibl mai'r effeithiau uniongyrchol ar yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth (h.y. ar y rhannau hynny o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth sydd o fewn ADWN) fydd yr "achos gwaethaf" yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect, yr effeithiau anuniongyrchol ar yr AHNE a'r cyfuniad o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr Arfordir Treftadaeth fydd yr "achos gwaethaf" yn ystod y cyfnod gweithredu gan fod yr effeithiau hyn yn ymestyn dros ardal fwy o lawer a byddant hefyd yn cael effaith arwyddocaol ar rai o briodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth a all gael effaith arwyddocaol ar eu gallu i gyflawni eu dibenion yn y rhan hon o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth. Felly, bydd angen cytuno ar gynigion addas ar gyfer lliniaru a chydbwyso effeithiau a'u sicrhau; gallai hyn gynnwys derbyn cynigion ar gyfer lliniaru a/neu gydbwyso effeithiau mewn

[10] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-237
[11] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-237
[12] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-237

rhannau eraill o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth er mwyn diogelu a chryfhau'r dynodiadau hyn (gweler Adrannau 2.5 a 2.6 isod).

2.2.20 Mae rhan o ADWN yn cynnwys rhan fach o'r AHNE (yn gyfagos i safle'r orsaf bŵer) a rhan fach o'r Arfordir Treftadaeth (Porth y Pistyll). O fewn y rhannau hyn o ADWN, collir bron pob un o nodweddion ac elfennau'r dirwedd a'r forwedd yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect. Bydd y dirwedd o fewn yr AHNE yn cael ei hadfer ar ddiwedd y cyfnod adeiladu neu ar ddechrau'r cyfnod gweithredu. Er hynny, bydd arfordir a morwedd Porth y Pistyll yn cael eu haddasu'n helaeth drwy adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r morgloddiau.

2.2.21 O ganlyniad i hyn, mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau uniongyrchol ar nodweddion a phriodweddau arbennig y rhannau hynny o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth sydd o fewn ADWN, ynghyd ag effeithiau'r gweithgareddau adeiladu eraill, yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) yn y tymor byr a chanolig, h.y. tan ddiwedd y cyfnod adeiladu o leiaf.

2.2.22 Yn achos yr AHNE, bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lliniaru'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu gan y SRhTCh a fydd yn adfer llawer o adeiledd a chymeriad presennol y dirwedd yn y rhan hon o'r AHNE. Er hynny, bydd presenoldeb Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredu yn parhau i achosi effeithiau anuniongyrchol ar briodweddau arbennig y rhan o'r AHNE sydd yn ADWN. O ganlyniad i hyn, bydd yr effeithiau ar y rhan hon o'r AHNE yn cael eu lliniaru'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu ond dim ond o ychydig, gan leihau o fod yn Negyddol (Effeithiau uniongyrchol niweidiol mawr) ar ddiwedd y cyfnod adeiladu i fod yn Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol cymedrol) tua 20 mlynedd ar ôl dechrau'r cyfnod gweithredu.

2.2.23 Yn achos yr Arfordir Treftadaeth, bydd presenoldeb y Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r morgloddiau a Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredu yn parhau i achosi effeithiau uniongyrchol ac effeithiau anuniongyrchol ar y rhan o'r Arfordir Treftadaeth sydd o fewn ADWN. O ganlyniad i hyn, bydd yr effeithiau ar y rhan hon o'r Arfordir Treftadaeth yn parhau'n Negyddol (Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol niweidiol mawr) drwy gydol y cyfnod gweithredu.

2.2.24 Y tu allan i ADWN, mae'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth yn ymestyn i'r dwyrain a'r gorllewin o ADWN a byddai effeithiau anuniongyrchol ar rai o briodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth o ganlyniad i gyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r datblygiad, er enghraifft, o ganlyniad i olygfeydd o'r tirffurfiau a addaswyd, gweithgareddau adeiladu, craeniau ac adeiladweithiau uchel yn y lleoliadau hynny lle mae golygfeydd yn briodwedd arbennig i'r dirwedd a/neu'r forwedd. Mae hyn yn gymwys yn benodol i'r tirweddau ac ardaloedd arfordirol uwch a mwy agored tua'r dwyrain a'r gorllewin o ADWN ac mae'n debygol o ddigwydd gan mwyaf yn

ardal yr astudiaeth fanwl, fel y mae'r parthau gweledfedd damcaniaethol yn y Datganiad Amgylcheddol, Ffigurau 10-18 – 10-27 (6.4.101[13]) yn dangos.

2.2.25 Mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau anuniongyrchol ar briodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect yn Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol Mawr i Gymedrol) yn y tymor byr a chanolig, h.y. tan ddiwedd y cyfnod adeiladu o leiaf, hyd at 5km o'r safle.

2.2.26 Y tu allan i ADWN, byddai effeithiau anuniongyrchol hefyd ar rai o briodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth o ganlyniad i gyfnod gweithredu'r datblygiad oherwydd golygfeydd o'r orsaf bŵer yn y lleoliadau hynny lle mae golygfeydd yn briodwedd arbennig i'r dirwedd a/neu'r forwedd. Unwaith eto, mae hyn yn gymwys yn benodol i'r tirweddau ac ardaloedd arfordirol uwch a mwy agored o gwmpas ADWN ac mae'n debygol o ddigwydd gan mwyaf yn ardal yr astudiaeth fanwl.

2.2.27 Er y bydd cymeriad y dirwedd mewn rhan helaeth o ADWN yn cael ei adfer yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd yr orsaf bŵer yn parhau'n brif elfen mewn golygfeydd. Mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau anuniongyrchol ar yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth y tu allan i ADWN yn ystod y cyfnod gweithredu yn Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol cymedrol) yn y tymor hir, h.y. tan ddiwedd y cyfnod gweithredu o leiaf, hyd at 5km o'r safle.

### ATA Mynydd Mechell a'r Cyffiniau

2.2.28 Mae ATA Mynydd Mechell a'r Cyffiniau yn llai na 2km o ADWN ac mae CSYM yn credu ei bod yn debygol y bydd effeithiau Negyddol (Effeithiau anuniongyrchol niweidiol cymedrol) yn y tymor byr, canolig a hir o ganlyniad i'r cyfnodau paratoi safle, adeiladu a gweithredu hyd at 5km o'r safle, yn cynnwys y rhan honno o LCA 5 (North West Anglesey) sydd wedi'i dynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ATA Mynydd Mechell a'r Cyffiniau. Fodd bynnag, credir ei bod yn annhebygol y byddai'r effeithiau Negyddol hyn yn tanseilio diben y dynodiad hwn yn sylweddol gan mai ei bwrpas yw diogelu'r dirwedd rhag datblygu amhriodol o fewn yr ardal ddynodedig.

## 2.3 Safbwynt Polisi

2.3.1 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1) yn nodi y dylai Ymgeiswyr gynnal asesiad o'r effeithiau tirweddol a gweledol sy'n cynnwys effeithiau yn ystod gwaith adeiladu a gweithredu ar gydrannau'r dirwedd (h.y. adeiledd y dirwedd) a chymeriad y dirwedd (paragraffau 5.9.5 – 5.9.6). Mae hefyd yn dweud y bydd bron pob prosiect seilwaith ynni o arwyddocâd cenedlaethol yn cael effeithiau ar y dirwedd a bod angen eu cynllunio'n ofalus ac y dylent leihau niwed i'r dirwedd, gan ddarparu mesurau lliniaru rhesymol lle byddant yn bosibl a phriodol (paragraff 5.9.8). Mae hefyd yn nodi y gellir lleihau effeithiau gweledol a thirweddol sy'n

[13] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-237

niweidiol drwy leoli seilwaith yn briodol, drwy ddylunio yn cynnwys lliwiau a deunyddiau, a thrwy gynlluniau tirweddu (paragraff 5.9.22).

2.3.2 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Pŵer Niwclear (EN-6) yn datgan y dylid cynnal asesiadau'n unol ag EN-1 ac y dylai mesurau lliniaru gael eu cynllunio i leihau ymyrraeth weledol y prosiect hyd y gellir yn rhesymol (paragraff 3.10.8).

2.3.3 Mae PCC9 (paragraffau 5.5.1 – 5.5.2) yn datgan bod rhaid rhoi sylw i ystyriaethau o ran tirwedd yn y broses penderfynu, y dylid cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella ansawdd amgylcheddol tir, y dylid osgoi effeithiau ar dirwedd, lle y bo modd, neu eu lleihau a, lle y bo'n ymarferol, y dylid gwella nodweddion sy'n bwysig o ran cadwraeth. Mae hefyd (paragraff 5.2.9) yn rhoi pwys mawr ar goed, coetiroedd a gwrychoedd fel cynefinoedd bywyd gwyllt ac am eu cyfraniad at gymeriad y dirwedd a delio â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r PCC10 drafft (paragraffau 5.61 – 5.62) hefyd yn nodi'r cyfraniad gwerthfawr gan goed, coetiroedd, coedlannau a gwrychoedd at gymeriad y dirwedd, ansawdd aer, hamdden a chymedroli hinsawdd leol.

2.3.4 Mae'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2016) sy'n berthnasol yn cynnwys:

a) Polisi Strategol PS 5 – Datblygu Cynaliadwy, sy'n nodi y dylai pob datblygiad, ymysg pethau eraill, ddiogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirweddau a'i asedau bioamrywiaeth, yn cynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd yn unol â Pholisi Strategol PS 19;
b) Polisi PCYFF 4 – Dylunio a Thirweddu, sy'n nodi y dylai pob cynnig integreiddio â'i amgylchoedd, ystyried tirweddu o'r dechrau a lle y bo'n berthnasol:
    i. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r Asesiad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd neu'r Asesiad o'r Ardal Cymeriad Morwedd;
    ii. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu amlinellau naturiol y dirwedd;
    iii. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn diogelu golygfeydd lleol a strategol;
    iv. Parchu, cadw ac ategu unrhyw nodweddion naturiol cadarnhaol presennol, tirweddau, neu nodweddion eraill ar y safle;
    v. Nodi coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffig sydd i'w cadw;
    vi. Cyfiawnhau amgylchiadau lle na ellir osgoi'r angen am symud/colli coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffig presennol a darparu manylion am yr hyn sydd i gymryd eu lle;
    vii. Darparu manylion unrhyw dirweddu newydd arfaethedig ynghyd â rhaglen plannu fesul cam;
    viii. Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys planhigion a choed o rywogaethau brodorol yn bennaf a gafwyd yn lleol ac nad yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau goresgynnol estron;

ix. Sicrhau bod y dewis o rywogaethau a lleoliadau plannu unrhyw goed yn caniatáu iddynt dyfu i'w huchder llawn heb niweidio adeiladau, gwasanaethau a phlanhigion eraill cyfagos;
x. Darparu tirweddu wyneb caled sy'n hydraidd.

c) Polisi Strategol PS 8 – Cynigion am Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol, lle bydd CSYM yn mynnu cydymffurfiaeth, lle y bo'n briodol, â'r meini prawf a nodwyd yn y polisi hwn, yn cynnwys, ymysg eraill, (3) asesiad cynhwysfawr o effeithiau (cadarnhaol, negyddol a chronnol) y cynnig ar yr amgylchedd (tirwedd, amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol) yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ac adfer (os yw'n berthnasol), yn ogystal â mesurau i'w cyflawni lle y bo'n briodol i osgoi, lleihau, lliniaru a/neu wrthbwyso'r niwed a wneir; (4) darparu cyfraniadau i CSYM neu i sefydliad priodol arall y cytunwyd arno i wrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol a niwed a achosir gan y prosiect er mwyn gwella llesiant a chynaliadwyedd hirdymor y cymunedau y maent yn effeithio arnynt;
d) Polisi Strategol PS 9 – Wylfa Newydd a Datblygiadau Perthynol sy'n nodi y bydd CSYM yn mynnu cydymffurfiaeth, lle y bo'n briodol, â'r meini prawf a nodwyd yn y Polisi hwn a Pholisïau PS 10 – 12, lle y bônt yn gymwysadwy. Mae'r meini prawf yn cynnwys: (4) rhaid dangos bod gwaith cynnar neu baratoadol ar gyfer datblygu'r orsaf bŵer niwclear yn angenrheidiol i sicrhau bod Prosiect Wylfa Newydd yn cael ei gyflawni'n amserol neu ei fod wedi'i fwriadu i liniaru'r effeithiau o adeiladu neu weithredu Prosiect Wylfa Newydd. Rhaid darparu strategaeth gydag unrhyw waith cynnar neu baratoadol fel y gellir adfer y safle at safon dderbyniol os na chaiff y Prosiect ei ganiatáu neu ei adeiladu a rhaid dangos sut y bydd y costau am ymgymryd â gwaith adfer o'r fath yn cael eu sicrhau, yn cynnwys drwy fondiau; (6) lle y mae cynigion am gyfnod dros dro, rhaid i'r dewis o safle a manylion y cynnig gael eu seilio ar ystyriaeth i'r mathau o ddefnydd etifeddol, fel y bydd y buddsoddi mewn elfennau fel seilwaith, adeiladau, gwaith ecolegol a thirwedd yn dod â buddion tymor hir. Lle y cynigir defnydd etifeddol, bydd yn ofynnol cyflwyno cynlluniau cyflawni ar gyfer mathau o ddefnydd etifeddol gyda cheisiadau cynllunio i ddangos sut mae'r defnydd etifeddol wedi cyfrannu at y dull o ddylunio a phatrymu'r safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â cyfrannu at lunio cytundeb A106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os ydynt yn gymwysadwy); (8) wrth gynnig patrwm a dyluniad y cynllun a graddfa'r mannau agored, tirweddu, plannu (yn cynnwys plannu gwrychoedd a choed), dyfrffyrdd a nodweddion tebyg, dylid osgoi, lleihau, lliniaru neu gydbwyso effeithiau gweledol, tirweddol ac ecolegol ar yr ardal leol a'r ardal ehangach, a hefyd ar agweddau diwylliannol a hanesyddol ar y dirwedd, yn y tymor byr a hwy. Disgwylir i gynigion fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad, a graddau ei effaith; (13) dylid cydnabod y baich a'r aflonyddu ar y gymuned sy'n lleoliad ar gyfer prosiect seilwaith cenedlaethol neu ranbarthol mawr sy'n gysylltiedig ag ynni niwclear; a cheisir pecynnau priodol o fuddion cymunedol i'w darparu gan y datblygwr i wrthbwyso a gwneud iawn i'r gymuned am y baich a'r aflonyddu y mae'n eu profi drwy fod yn lleoliad i'r prosiect; ac (16) mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau annisgwyl i adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd CSYM yn mynnu cael gwybodaeth ychwanegol gan y datblygwr, neu gyflawni gwaith ganddo, er mwyn gwrthbwyso unrhyw effeithiau neu feichiau

ychwanegol a brofir gan y gymuned. Dylai'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro effeithiau o bob math, adolygu digonolrwydd y mesurau lliniaru neu gydbwyso, a gwneud addasiadau yn ôl yr angen;

e) Polisi Strategol PS 19 – Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, lle y bydd angen ystyried y canlynol, ymysg materion eraill, wrth benderfynu cais cynllunio: (2) gwarchod neu lle y bo'n briodol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a, lle y bo'n briodol, eu hamgylchoedd yn unol â Pholisi Cenedlaethol; (3) rhoi sylw priodol i arwyddocâd cymharol y dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol neu leol wrth ystyried pa bwys i'w roi ar fuddiannau cydnabyddedig, gan sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol neu genedlaethol wedi'u cyflawni yn unol â Pholisi Cenedlaethol; (7) gwarchod, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol y gwahanol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG 2) ac Ardaloedd Cymeriad Morwedd (yn unol â Pholisi AMG 4); ac (8) gwarchod, cadw neu wella coed, gwrychoedd neu goetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol;

f) Polisi AMG 1 – Cynlluniau Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – lle y mae'n rhaid rhoi sylw mewn cynigion sydd o fewn y lleoliad neu sydd yn effeithio arno a/neu ar olygfeydd arwyddocaol i mewn ac allan o'r AHNE, lle y bo'n briodol, i'r Cynllun Rheoli AHNE perthnasol;

g) Polisi AMG 3 – Gwarchod a Gwella Nodweddion a Phriodweddau sy'n Neilltuol i Gymeriad y Dirwedd Leol – lle mae'n rhaid dangos drwy asesiad o'r dirwedd ar gyfer cynigion a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd fel y mae wedi'i ddiffinio yn yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd sydd yn y Strategaeth Tirwedd bresennol sut y mae cymeriad y dirwedd wedi dylanwadu ar ddyluniad, graddfa a natur y datblygiad a'r dewis o safle ar ei gyfer. Dylid cymryd mesurau i sicrhau nad yw'r datblygiad: (1) yn achosi effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd adeiledig neu naturiol; (2) yn methu â chydweddu â'r dirffurf a'r dirwedd neu eu gwella; (3) yn arwain at golli neu fethu â chynnwys nodweddion traddodiadol, patrymau, strwythurau a ffurf aneddiadau a thirwedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol; rhoddir pwyslais neilltuol ar y tirweddau y nodwyd yn yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd eu bod o ansawdd da neu eithriadol oherwydd priodwedd benodol yn y dirwedd neu gyfuniad o briodweddau. Rhoddir ystyriaeth ychwanegol hefyd i ddatblygu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymeriad ac amgylchoedd tirwedd yr AHNEau neu'r Parc Cenedlaethol;

h) Polisi AMG 4 – Amddiffyn yr Arfordir – lle y bydd angen sicrhau, ymysg pethau eraill, ar gyfer cynnig ar yr arfordir, yn cynnwys yr Arfordir Treftadaeth, na fydd yn achosi niwed annerbyniol i'r amgylchedd adeiledig, neu i'r dirwedd, neu i gymeriad y forwedd;

i) Polisi AMG 5 – Gwarchod Bioamrywiaeth Leol, yn cynnwys cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol, yn cynnwys coridorau bywyd gwyllt, ... coed, gwrychoedd, coetiroedd a chyrsiau dŵr;

j) Polisi PS 20 – Gwarchod a lle y bo'n briodol Gwella Asedau Treftadaeth, yn cynnwys Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig;

k) Polisi AT 3 – Asedau Treftadaeth Na Ddynodwyd sydd o Arwyddocâd Lleol neu Ranbarthol – lle y bydd yn ofynnol i gynigion warchod a cheisio cyfleoedd i wella, ymysg pethau eraill, strwythurau asedau treftadaeth na ddynodwyd

sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol sy'n creu ymdeimlad o gymeriad lleol, hunaniaeth ac amrywiaeth ar draws ardal y Cynllun.

2.3.5 Yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018), mae Amcan 5 (gwarchod a gwella tirwedd Ynys Môn) ac Amcan 7 (gwella tirwedd unigryw Ynys Môn a sicrhau cydbwyso am effeithiau gweddilliol na ellir eu lliniaru) yn neilltuol o berthnasol. Yr Egwyddorion Arweiniol perthnasol yw EA21 (gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, a mesurau lliniaru a fydd yn cynnwys: lleihau aflonyddu wrth adeiladu a gweithredu ... datblygiadau cysylltiedig, gan ystyried yr arferion gorau, cynyddu'r defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen, mabwysiadu egwyddorion dylunio a chynlluniau tirweddu o ansawdd da) ac EA23 (gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol).

2.3.6 Gyda golwg ar leoliad, y polisi lleoli perthnasol yn y Canllawiau Cynllunio Atodol yw EA28a (Prif Safle Wylfa Newydd) lle y mae'r egwyddorion datblygu allweddol yn cynnwys: *"(f) Lleihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn, asedau hanesyddol ... o ganlyniad uniongyrchol i'r gweithgareddau adeiladu a gweithredu. Lle mae hyrwyddwr Prosiect Wylfa Newydd wedi dangos na ellir atal effeithiau o'r fath, rhaid cymryd mesurau priodol i'w lliniaru a'u cydbwyso". "(h) Nodi triniaethau i dirwedd, ... sy'n integreiddio'n briodol â'r ardal gyfagos. Mae'n bosibl y bydd gwaith a gwelliannau mewn tirweddau a seilwaith gwyrdd sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin prif safle'r orsaf bŵer yn gallu lliniaru a gwneud iawn am effeithiau'r prosiect a sicrhau gwelliannau lle bo'n briodol". (i) Pan fydd y datblygiad yn un dros dro, dylid mabwysiadu dull o'i adfer fesul cam a/neu greu tirweddau newydd (a fyddai o bosibl yn cynnwys gwrychoedd, tir amaethyddol, glaswelltir, coetir, nodweddion dŵr a phrysgdir) cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol er mwyn lleihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol a chydbwyso effeithiau ar y nodweddion naturiol hyn. Dylid cynnal cyflwr tirweddau newydd neu rai sydd wedi'u hadfer ar ôl hynny".* Mae hefyd yn datgan y dylai hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â CSYM ac eraill i ddatblygu'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd ac mewn partneriaeth â Magnox ac ymgeiswyr eraill fel y bo'n briodol (e.e. National Grid) i ystyried cyfleoedd i liniaru effeithiau cronnol a chynyddu buddion.

2.3.7 Y polisïau perthnasol yn Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2015-2020[14]) yw Polisi CCC3.1 (bydd yr holl gynigion ar gyfer datblygu o fewn yr AHNE ac o fewn 2km i'r AHNE yn cael eu hasesu'n drwyadl i leihau datblygu amhriodol a allai niweidio priodweddau a nodweddion arbennig yr AHNE) a Pholisi CCC3.2 (bydd disgwyl i'r holl ddatblygiadau newydd ac ailddatblygiadau o fewn yr AHNE ac o fewn 2km i'r AHNE fabwysiadu'r safonau gorau o ran dylunio, deunyddiau a thirweddu er mwyn hyrwyddo priodweddau a nodweddion arbennig yr AHNE).

---

[14] Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2015-2020)
http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/e/s/d/Adolygiad-Cynllun-Rheoli-AHNE-Yns-Mon-2015_20.pdf

2.3.8 Gyda golwg ar yr ardal cymeriad tirwedd sy'n cynnwys lleoliad y safle hwn *(LCA 5: North West Anglesey)*, mae Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (Diweddariad 2011) yn nodi y dylid rhoi sylw wrth ddatblygu i Gynllun Rheoli'r AHNE, adlewyrchu patrwm datblygu'r ardal, ceisio defnyddio tirffurfiau a phatrymau llystyfiant i liniaru effeithiau, sicrhau bod graddfa, ffurf a deunyddiau'n parchu'r bensaernïaeth leol a defnyddio a chadw patrymau terfynau caeau lleol, yn cynnwys cloddiau a gwrychoedd.

## 2.4 Bylchau mewn Gwybodaeth

2.4.1 Y prif fylchau yng ngwybodaeth y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) a ddarparwyd hyd yn hyn yw'r canlynol:

2.4.2 **Asesiadau o Effeithiau:**

a) Asesiad o'r effeithiau ar adeiledd y dirwedd.
b) Asesiad o effeithiau anuniongyrchol, yn cynnwys effeithiau cyfunol anuniongyrchol ar sail pynciau, o'r datblygiad arfaethedig ar briodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth.
c) Mesurau lliniaru addas i osgoi, lleihau, gwrthbwyso neu gydbwyso'r effeithiau ar yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth.

2.4.3 **Dylunio tirffurfiau:**

a) Paramedrau lleiaf a mwyaf (uchderau a graddiannau llethrau) ar gyfer tirffurfiau yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.
b) Rhagor o fanylion i ddangos sut y ceir graddiannau llethrau dros dro a pharhaol sy'n fwy serth na 1:3 fel y byddant yn sefydlog ac yn ddiogel, yn cynnwys, ymysg pethau eraill: y dewis o ddeunyddiau, adeiladu, cywasgu, draenio, gosod pridd, plannu, etc.

## 2.5 Gofynion y GCD

2.5.1 Dylid sicrhau'r canlynol drwy ofynion y GCD:

a) Arolwg ffotograffig o'r awyr o ADWN a'r ardal o gwmpas, yn cynnwys rhannau o'r AHNE, cyn dechrau gweithio ar y safle, i gofnodi patrwm y caeau a lleoliadau coetiroedd a gwrychoedd, ar gyfer y cynllun manwl i reoli tirwedd a chynefinoedd.
b) Creu cofnod/cofrestr ar ffurf map o enwau caeau ar gyfer ADWN. Mae enwau ar nifer mawr o gaeau yn Ynys Môn a roddwyd fel arfer gan y perchennog/ffermwr ac maent yn arwyddocaol o safbwynt hanesyddol, diwylliannol, y dirwedd a'r Gymraeg.
c) Cynllun monitro sy'n gwirio iechyd llystyfiant o gwmpas ADWN cyn ac yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r prosiect, yn enwedig mewn perthynas â'r elfennau tirwedd mwyaf sensitif a gwerthfawr, fel Gwrychoedd Pwysig (o dan Reoliadau Gwrychoedd 1997[15]) a thirweddau hanesyddol (e.e. Gerddi Cestyll a'r dirwedd a gynlluniwyd gan y Fonesig Sylvia Crowe).

[15] Rheoliadau Gwrychoedd 1997 (Link)

d) Arolwg o'r elfennau tirwedd caled presennol ar y safle (ffensys, waliau cerrig, cloddiau, etc) sy'n dangos eu lleoliadau, deunyddiau, cyflwr a chyfraniad at gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol. I'w gynnal yn ystod y gaeaf a'i gyflwyno i CSYM i'w gymeradwyo cyn dechrau gweithio ar y safle.

e) Darparu cynllun manwl ar gyfer y dirwedd galed, wedi'i seilio ar yr arolwg o'r dirwedd galed, i'w gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle a fydd yn cynnwys, ymysg pethau eraill:
   i. Cynllun manwl yn dangos lleoliadau a dimensiynau'r holl elfennau tirwedd galed presennol ac arfaethedig.
   ii. Manylion y gwelliannau i nodweddion presennol sydd i'w cadw ar y safle, yn cynnwys waliau cerrig a chloddiau.
   iii. Manylebau a lluniadau adeiladu ar gyfer y cloddiau, waliau cerrig, a ffens ddiogelwch newydd a'r holl elfennau a wynebau caled eraill o fewn y safle.
   iv. Rhaglen weithrediadau ar gyfer adeiladu a chynnal y cynllun tirwedd galed drwy gydol cyfnod y prosiect.

f) Darparu cynllun manwl ar gyfer y dirwedd feddal i'w gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle, ac sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill:
   i. Cadw a gwella llystyfiant aeddfed presennol y terfynau.
   ii. Yr holl rywogaethau brodorol newydd ar gyfer plannu coetiroedd, gwrychoedd, coed, llwyni a phrysgwydd a glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau a glaswelltiroedd eraill a gynigiwyd yn y SRhTCh (8.16).
   iii. Rhestr fanwl o blanhigion ar gyfer plannu coetiroedd, gwrychoedd, coed, llwyni a phrysgwydd a fydd yn cynnwys rhywogaethau, meintiau, niferoedd a dwyseddau plannu.
   iv. Rhestr fanwl o'r cymysgeddau o rywogaethau ar gyfer y glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau a glaswelltiroedd eraill arfaethedig a fydd yn cynnwys rhywogaethau a chyfraddau hau hadau.
   v. Tarddiad a ffynonellau'r holl blanhigion a chymysgeddau hadau (y tarddiad i fod yn lleol neu yng Ngogledd Cymru a'r planhigion i'w tyfu mewn meithrinfa leol yn Ynys Môn am flwyddyn o leiaf cyn eu plannu er mwyn iddynt gynefino â'r amodau lleol).
   vi. Cynlluniau plannu manwl yn dangos lleoliadau'r holl blanhigion a blennir a'r glaswelltiroedd a sefydlir.
   vii. Manylebau ar gyfer y gweithrediadau gosod pridd, hadu, plannu a chynnal.
   viii. Rhaglen weithrediadau ar gyfer sefydlu a chynnal y cynlluniau tirwedd caled a meddal drwy gydol cyfnod y prosiect.

g) Darparu cynllun i reoli rhywogaethau goresgynnol sy'n nodi'r rhywogaethau goresgynnol a'r mesurau rheoli a ddefnyddir, i'w gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle.

h) Darparu cynllun sy'n dangos y coetiroedd, coed, prysgwydd, gwrychoedd a chyrsiau dŵr presennol a nodweddion tirwedd eraill (e.e. waliau cerrig, cloddiau) sydd i'w cadw a'r mesurau a ddefnyddir i warchod y rhain yn ystod y cyfnod adeiladu, i'w gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle.

i) Darparu rhagor o fanylion am batrwm a dyluniad yr adeiladau a strwythurau allanol eraill, a fydd yn cynnwys y lleoliadau terfynol, dimensiynau a deunyddiau allanol, lliwiau a gorffeniadau, i'w cyflwyno i CSYM a'u cymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle.

j) Darparu cynllun goleuadau manwl sy’n lleihau nifer y colofnau goleuadau, yn osgoi colli golau i adeiladau, cyrsiau dŵr a nodweddion terfyn o gwmpas y safle (i leihau gwawl nos ac effeithiau ar gymeriad y dirwedd, priodweddau arbennig yr AHNE a’r uchelgais i sicrhau statws Awyr Dywyll i Ynys Môn), i’w gyflwyno i CSYM a’i gymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle.

## 2.6 Rhwymedigaethau A106

2.6.1 Os bydd holl ofynion y GCD a nodwyd uchod wedi’u cynnwys yn y GCD, yna y mesurau ychwanegol a fyddai’n ofynnol drwy rwymedigaeth A106 yw:

a) Darparu Cronfa Amgylcheddol Gymunedol drwy gydol y Cyfnod Adeiladu a 5 mlynedd ar ôl hynny i ariannu gwaith plannu ar gyfer sgrinio y tu allan i’r safle yng nghymuned leol y safle, e.e. yng ngerddi preswylwyr.

b) Darparu Cronfa Amgylcheddol drwy gydol y Cyfnod Adeiladu a 10 mlynedd ar ôl hynny i ariannu gwelliannau i’r dirwedd a gwelliannau eraill mewn rhannau o’r AHNE a’r Arfordir Treftadaeth sy’n agos i’r safle. Er enghraifft:
   i. Arolwg o wrychoedd, waliau cerrig a chloddiau i nodi maint a chyflwr terfynau cae traddodiadol.
   ii. Cynllun ar gyfer adfer terfynau cae traddodiadol.
   iii. Cynlluniau ar gyfer adfer a gwella cynefinoedd pwysig, fel coetiroedd, gwrychoedd, lleiniau ymyl y ffordd a chynefinoedd y wiwer goch ac ar gyfer gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd.
   iv. Cynllun ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol estron.
   v. Cynlluniau rheoli draenio ar gyfer ffosydd a chyrsiau dŵr wyneb, i wella ansawdd dŵr ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, i wella tir amaethyddol a lleihau llifogydd.
   vi. Cynlluniau gwella llwybrau troed ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a hawliau tramwy presennol eraill, yn cynnwys wynebau, gatiau, camfeydd, arwyddion, etc.
   vii. Rhaglenni sgiliau gwledig gyda chymunedau lleol ac ysgolion.
   viii. Cymorth i ddigwyddiadau, gweithgareddau hamdden a chynlluniau gwella amgylcheddol sy’n hyrwyddo ac yn elwa o briodweddau unigryw Ynys Môn a’r AHNE, ynghyd â Geoparc Ynys Môn (GeoMôn) a’r fenter Awyr Dywyll.

## 2.7 Crynodeb

2.7.1 Mae’r bennod hon wedi ymdrin ag effeithiau tebygol yr orsaf bŵer arfaethedig a datblygiadau eraill yn ADWN (yn cynnwys y Gwaith Morol ond nid Campws y Safle) ar adnoddau tirwedd Gogledd Ynys Môn, y cyd-destun polisi, unrhyw fylchau yn y wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon, y mesurau lliniaru a chynlluniau ychwanegol y dylid eu sicrhau drwy rwymedigaethau yn y GCD a’r mesurau cydbwyso hynny y dylid eu sicrhau drwy rwymedigaethau A106.

2.7.2 Bydd effeithiau uniongyrchol Negyddol ar adeiledd tirwedd ADWN. Bydd y rhain yn para dros y tymor hir (drwy gydol y cyfnodau paratoi safle, adeiladu a gweithredu a’r rhan fwyaf o’r cyfnod datgomisiynu) o fewn safle’r orsaf bŵer. Yng ngweddill ADWN, bydd yr effeithiau uniongyrchol Negyddol hyn

yn para dros y tymor canolig (drwy gydol y cyfnodau paratoi safle ac adeiladu) ond byddant yn cael eu gwrthdroi'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu gan y SRhTCh a fydd yn adfer llawer o adeiledd presennol y dirwedd, fel y ceir effeithiau Niwtral tua 20 mlynedd ar ôl dechrau'r cyfnod gweithredu.

2.7.3 Bydd effeithiau uniongyrchol Negyddol ar gymeriad y dirwedd o fewn safle'r orsaf bŵer yn y tymor hir (drwy gydol y cyfnodau paratoi safle, adeiladu a gweithredu a'r rhan fwyaf o'r cyfnod datgomisiynu). Mae hyn yn gymwys i'r rhannau hynny o LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting) ac LSCA 2 (Porth y Pistyll) sy'n ymestyn i safle'r orsaf bŵer.

2.7.4 Yng ngweddill ADWN, bydd yr effeithiau uniongyrchol Negyddol yn para dros y tymor canolig (drwy gydol y cyfnodau paratoi safle ac adeiladu). Bydd y rhain yn cael eu lliniaru'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu gan y SRhTCh ond bydd presenoldeb gorsaf Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredu yn achosi effeithiau anuniongyrchol Negyddol ar gymeriad y dirwedd yng ngweddill ADWN yn y tymor hir (drwy gydol y cyfnod gweithredu a'r rhan fwyaf o'r cyfnod datgomisiynu). Mae hyn yn gymwys i'r rhannau hynny o LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting), LLCA 3 (Cemaes Bay Hinterland), LSCA 1 (Cemlyn Bay), LSCA 2 (Porth y Pistyll), LSCA 4 (Wylfa Head) ac LSCA 5 (Outer Cemaes Bay) sy'n ymestyn i ADWN (y tu allan i safle'r orsaf bŵer).

2.7.5 Bydd effeithiau anuniongyrchol Negyddol hefyd ar gymeriad y dirwedd a'r forwedd y tu allan i ADWN yn y tymor hir (drwy gydol y cyfnodau paratoi safle, adeiladu a gweithredu a'r rhan fwyaf o'r cyfnod datgomisiynu) hyd at 5km o'r safle. Mae hyn yn gymwys i rannau o LCA 4 (North West Coast) ac LCA 5 (North West Anglesey), sydd wedi'u diffinio yn y Diweddariad o Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011, a hefyd i LLCA 1 (North Drumlins), LLCA 2 (Wylfa Landscape Setting), LLCA 3 (Cemaes Bay Hinterland), LLCA 5 (Llanfechell Farmland), LLCA 7 (A5025 Farmlands), LLCA 8 (Llanfairynghornwy), LLCA 9 (Mynydd y Garn), LLCA 11 (Llanfechell), LLCA 13 (North Coast), LSCA 1 (Cemlyn Bay), LSCA 2 (Porth y Pistyll), LSCA 4 (Wylfa Head), LSCA 5 (Outer Cemaes Bay), LSCA 6 (Inner Cemaes Bay), LSCA 7 (Porth Padrig) ac LSCA 11 (Hen Borth).

2.7.6 Bydd effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol Negyddol ar nodweddion a phriodweddau arbennig y rhannau hynny o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth sydd o fewn ADWN yn y tymor hir (yn ystod y cyfnodau paratoi safle, adeiladu a gweithredu a'r rhan fwyaf o'r cyfnod datgomisiynu). Bydd effeithiau anuniongyrchol Negyddol hefyd ar nodweddion a phriodweddau arbennig yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth hyd at 5km o ADWN yn y tymor hir (drwy gydol y cyfnodau paratoi safle, adeiladu a gweithredu a'r rhan fwyaf o'r cyfnod datgomisiynu).

2.7.7 Byddai'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol Negyddol hirdymor hyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar allu'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth i gyflawni eu dibenion yn y rhan hon o Ogledd Ynys Môn. Felly bydd angen cytuno ar gynigion addas ar gyfer lliniaru a chydbwyso effeithiau, a'u

sicrhau. Gallai hyn gynnwys mesurau lliniaru a/neu gydbwyso mewn rhannau eraill o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth, i warchod a chryfhau'r dynodiadau hyn.

2.7.8 Er bod dyluniadau amlinellol wedi'u darparu ar gyfer patrwm y safle, adeiladau a thirwedd yn ADWN (yng Nghyfrol 2, 2.6.1[16]) ac y bydd y cynlluniau hyn yn ddogfennau a reolir, dylid pennu gofynion yn y GCD ar gyfer cyflwyno arolygon manwl a chynlluniau tirwedd a chynlluniau eraill i CSYM i'w cymeradwyo ganddo cyn dechrau gweithio ar y safle, er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion dylunio a'r mesurau lliniaru wedi'u sefydlu.

2.7.9 Yn ogystal â hyn, dylid gosod rhwymedigaethau A106 ar gyfer darparu Cronfa Amgylcheddol Gymunedol i hwyluso plannu y tu allan i'r safle a Chronfa Amgylcheddol i ariannu gwelliannau i'r dirwedd mewn rhannau o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth.

[16] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-014

## 3.0 Effeithiau Gweledol

### 3.1 Cyd-destun

3.1.1 Mae cyd-destun gweledol Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN) yn cael ei bennu gan ei leoliad arfordirol ac agosrwydd aneddiadau Cemaes a Thregele, ynghyd â gwaddol yr Orsaf Bŵer Wylfa Magnox bresennol. Gellir mesur sensitifrwydd gweledol yr ardal leol ar sail y nifer mawr o wylfannau enghreifftiol a chynrychiadol a nodwyd yn yr ymarferiadau ymgynghori.

3.1.2 Mae Gorsaf Bŵer Wylfa Magnox yn ddatblygiad adeiledig gweledol amlwg y gellir ystyried ei fod yn cyfrannu at natur unigryw Ynys Môn, fel y nodwyd yn y ddogfen Sense of Place[17]. Roedd y mesurau tirweddu a lliniaru gweledol a gynlluniwyd gan y Fonesig Sylvia Crowe a oedd yn cynnwys creu twmpathau a phlannu coetiroedd yn arloesol ar y pryd. Y rheswm am hyn oedd eu bod ymysg yr enghreifftiau cyntaf o'r defnydd o dirffurfiau a choetiroedd yn unswydd i sgrinio datblygiadau adeiledig a gweithrediadau mewn datblygiad mawr ar lefel y ddaear gan leihau graddfa ymddangosiadol ffurf syml y rhannau o'r orsaf bŵer na ellid eu sgrinio. Mae'r coetir wedi aeddfedu i ddarparu adnodd gweledol sy'n chwarae rhan bwysig mewn nifer o olygfeydd. Mae'n bwysig bod y cyd-destun hwn a'r angen i warchod a pharchu elfennau hanesyddol y gwaith tirweddu hwn yn llywio'r broses o ddatblygu rôl weledol gydnaws ac uchelgeisiol yn y tymor hir i'r gwaith plannu a chloddio sy'n gysylltiedig ag ADWN.

3.1.3 Gellir deall pwysigrwydd y cyd-destun arfordirol ar sail y ffaith bod y dynodiadau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac Arfordir Treftadaeth wedi'u cymhwyso at y rhan fwyaf o arfordir gogleddol Ynys Môn. Mae pwysigrwydd yr arfordir, ei draethau a'i olygfeydd, a'r hyn y maent yn ei olygu i breswylwyr ac ymwelwyr, wedi'i nodi droeon mewn arolygon[18]. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn atyniad pwysig i ymwelwyr sy'n cynnig golygfeydd sy'n newid yn aml i gerddwyr o'r dirwedd, morlin a morwedd amrywiol ac mae nodweddion fel Bae Cemlyn a Thrwyn yr Wylfa yn rhan allweddol o nifer o'r golygfeydd hyn. Rhaid ymgorffori'r ffordd y mae topograffi'r arfordir a'r drymliniau yn arwain at amrywiadau yn argaeledd a chyfansoddiad golygfeydd o Lwybr Arfordir Cymru, y Trywydd Copr/Llwybr Beicio Cenedlaethol (NCR) 566 a'r nifer mawr o Hawliau Tramwy eraill yn y cynigion ar gyfer lliniaru effeithiau gweledol a thirweddol. Mae rhwydwaith cymharol ddwys o Hawliau Tramwy yn yr ardal leol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cau dros dro neu eu dargyfeirio'n barhaol. Yn ogystal â hyn, mae rhai Ardaloedd Mynediad Agored fel Mynydd y Garn, Trwyn Llanbadrig, Trwyn Pencarreg a Thrwyn Cemlyn sy'n cynnig rhai golygfeydd eithriadol.

3.1.4 Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw'n agos i ADWN yn breswylwyr yng Nghemaes neu Dregele. Fodd bynnag, wrth ddylunio'r datblygiad adeiledig, y tirffurfio a'r plannu, bydd yn bwysig rhoi pob ystyriaeth i olygfeydd ac amwynder gweledol y bobl sy'n byw mewn eiddo sydd y tu allan i'r ddau brif anheddiad,

[17] Cyngor Sir Ynys Môn. 2018. Anglesey: A Sense of Place (Atodiad 17A)
[18] Anglesey Visitor Survey. 2012. Beaufort Research a'r Tourism Company (Atodiad 17B)

a'r rhain yn cynnwys Llanfair-yng-Nghornwy a Llanfechell. Ar hyn o bryd, mae preswylwyr Cemaes yn mwynhau amrywiaeth o olygfeydd ar draws Prif Safle'r Orsaf Bŵer. Er bod cyfran o'r preswylwyr na allant weld y safle oherwydd topograffi a datblygu adeiledig a llystyfiant cyfagos, mae eraill yn mwynhau golygfeydd rhannol neu helaeth ohono. Mae'r olaf yn breswylwyr mewn eiddo yn rhai o'r rhannau uwch o Gemaes, yn enwedig mewn eiddo ar gwr gorllewinol yr anheddiad ac ar hyd yr A5025. Gall y golygfeydd ymestyn ar draws caeau tonnog agored o ddrymliniau at y môr yn y pellter. Yn Nhregele mae preswylwyr yn llai tebygol o fwynhau golygfeydd tua'r môr ac yn fwy tebygol o weld peilonau a'r Orsaf Bŵer Wylfa Magnox bresennol. Fodd bynnag, mae Prif Safle'r Orsaf Bŵer yn union i'r gorllewin o Dregele a'r A5025 lle mae'n cymryd mwy na 180 gradd o olygfeydd rhai preswylwyr. Mae hyn yn ategu'r pwysigrwydd o sicrhau bod y dylunio a'r rheoli hirdymor ar y cydrannau adeiledig, y tirffurfiau a'r plannu yn y golygfeydd hyn yn lleihau'r effeithiau gweledol negyddol ac yn cynnig modd i wella golygfeydd ac amwynder gweledol i breswylwyr Tregele yn y tymor hir.

## 3.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

### 3.2.1 Y Sylfaen Dystiolaeth

3.2.2 Mae CSYM wedi cynnal adolygiad llawn o'r asesiadau manwl o wylfannau sydd yn Atodiad D10-7 – Visual Effects Schedule[19] yn nogfennau'r GCD a gyflwynwyd ac o'r crynodebau sydd wedi'u cyflwyno yn nogfen D10 – Landscape and Visual. Mae'r adolygiadau hefyd wedi cynnwys ffotograffau llinell sylfaen o wylfannau cynrychiadol ac enghreifftiol (Atodiadau D10-4[20] a D10-5[21]); delweddau ffotogyfosod o ADWN ar waith o wylfannau cynrychiadol (Atodiad D10-8[22]); yr asesiad o effaith goleuadau ar yr amgylchedd (Atodiad D10-10[23]); gwybodaeth am ddylunio sydd yn y Datganiad Mynediad a Dylunio (DMD) – Cyfrol 2[24] a'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (SRhTCh) – Cyfrolau 1 a 2[25]; ffigurau yn llyfrynnau Ffigurau Datblygiad ADWN[26] a gwybodaeth am y cyfnod adeiladu yng Nghod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd[27] a'r Datganiad Dull Adeiladu[28].

3.2.3 Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Horizon yn seilio'r asesiad o effeithiau gweledol ar asesiadau o 39 o wylfannau yn ystod y dydd a 12 o asesiadau yn ystod y nos. O ganlyniad i hyn, mae CSYM wedi defnyddio dull tebyg yn ei asesiadau o effaith. Adolygwyd yr asesiadau manwl o wylfannau ar gyfer y cyfnod adeiladu a Blynyddoedd 1 a 15 o'r cyfnod gweithredu sydd yn Atodiad D10-7[19] i gael gwybod a yw CSYM yn cyd-weld ag asesiadau Horizon o'r effeithiau gweledol ac aseswyd effeithiolrwydd arferion gorau Horizon, a

[19] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-198
[20] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-195
[21] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-196
[22] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-199
[23] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-201
[24] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-408
[25] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-424/425
[26] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP 236/237
[27] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-414
[28] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-136

mesurau lliniaru corfforedig ac ychwanegol i bennu mesurau dichonol ar gyfer lliniaru a chydbwyso effeithiau.

3.2.4 Is-rannwyd yr asesiadau o effeithiau gweledol i adlewyrchu prif grwpiau'r derbynyddion gweledol a nodwyd yn yr astudiaeth llinell sylfaen ac i ddarparu'r manylder yr oedd ei angen. Mae'r asesiadau wedi'u his-rannu fel a ganlyn:

a) Pobl mewn Cymunedau (Cemaes, Tregele, Llanfair-yng-Nghornwy a Llanfechell);
b) Pobl sy'n defnyddio Llwybr Arfordir Cymru;
c) Pobl sy'n defnyddio'r Trywydd Copr;
d) Pobl sy'n defnyddio Hawliau Tramwy lleol;
e) Pobl sy'n defnyddio'r A5025;
f) Pobl sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

3.2.5 Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o adolygiad annibynnol CSYM o amodau llinell sylfaen ar gyfer golygfeydd a welir o unedau eiddo preswyl y tu allan i bedair cymuned. Gwnaethpwyd hyn am nad yw effeithiau gweledol ar breswylwyr mewn eiddo o'r fath wedi'u cynnwys yn asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol.

3.2.6 Mae rhestr Horizon o effeithiau gweledol ar gyfer effeithiau gweledol yn ystod y dydd (Tabl 1.1 yn Atodiad D10-7[19]) ac effeithiau yn ystod y nos (Tabl 1.2 yn Atodiad D10-7[19]) yn dod i'r casgliad na fydd effeithiau gweledol cadarnhaol o ganlyniad i adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu'r ADWN arfaethedig. Mae CSYM yn cyd-fynd â'r casgliad hwn ac felly'n dod i'r casgliad **nad oes effeithiau cadarnhaol** o ran yr effaith weledol ar y prif safle.

3.2.7 Mae rhestr Horizon o effeithiau gweledol (Atodiad D10-7[19]) a'r tabl crynhoi effeithiau gweledol gweddilliol (Tabl 10-44 yn D10[29]) yn dod i'r casgliad y bydd yr effeithiau gweledol, ar ôl cynnwys yr amrywiaeth o fesurau lliniaru ychwanegol a restrwyd yn Nhablau 10-40; 10-41; a 10-42 yn yr Asesiad o'r Effeithiau Tirweddol a Gweledol (D10)[29] yn yr asesiad o'r effeithiau gweledol, yn parhau'n negyddol drwy gydol y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Ym Mlynyddoedd Gweithredu 1 a 15, mae Horizon wedi nodi rhai gwylfannau lle mae wedi asesu y bydd yr effeithiau gweledol negyddol yn fach neu'n ddibwys: byddai'r rhain yn anarwyddocaol yn unol â'r fethodoleg asesu gyffredinol a nodwyd yn B1 – Introduction to the assessment process[30] a byddent yn effeithiau niwtral. Am fod methodoleg yr asesiad o effeithiau gweledol yn dibynnu ar asesu gwylfannau, heblaw yn achos cymunedau Llanfechell ym Mlwyddyn 1 a Llanfechell a Chemaes ym Mlwyddyn 15, mae'r crynodeb o effeithiau'r cyfnod gweithredu yn dod i'r casgliad bod yr effeithiau ar y chwe phrif grŵp o dderbynyddion gweledol a restrwyd uchod yn gymysgedd o effeithiau arwyddocaol ac effeithiau anarwyddocaol.

3.2.8 Mae CSYM yn cytuno y byddai effeithiau gweledol negyddol bach neu ddibwys yn cael eu profi gan dderbynyddion gweledol yng Ngwylfannau 3; 4; 5; 12; 32; a

[29] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-129
[30] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-075

34 ym Mlwyddyn Gweithredu 1 a/neu Flwyddyn Gweithredu 15. Lleoliadau'r gwylfannau hyn yw:

a) Llanfechell (Gwylfan 3);
b) Carreg-Iefn (Gwylfan 4);
c) I'r gogledd o Lyn Alaw (cronfa ddŵr ger Llanol) (Gwylfan 5);
d) Ochr ddwyreiniol Cemaes (Bridge Street) (Gwylfan 12);
e) Ochr ogleddol Mynydd Mechell (Gwylfan 32);
f) I'r de o Ryd-y-groes (Gwylfan 34).

3.2.9 Mae CSYM yn cytuno na fydd yr effeithiau gweledol a brofir gan bobl sy'n byw yn Llanfechell yn ystod y cyfnod gweithredu yn rhai o raddau arwyddocaol ac felly mai **effaith niwtral** yw hon. **Nid yw** CSYM yn cytuno na fydd yr effeithiau gweledol a brofir gan bobl sy'n byw yng Nghemaes, o'u hasesu fel un grŵp o dderbynyddion effeithiau gweledol, yn rhai o raddau arwyddocaol.

## Y Cyfnod Adeiladu

3.2.10 Yn ôl asesiad Horizon, bydd pobl sydd wrth neu'n agos i 33 o'r 39 o wylfannau sy'n sail i'w asesiad o effeithiau gweledol yn profi effeithiau negyddol arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu. Yr eithriadau yw gwylfannau sydd oddi wrth ADWN tua chyrion deheuol a de-ddwyreiniol ardal astudio'r asesiad o effeithiau gweledol a thirweddol. Mae Horizon yn dod i'r casgliad y bydd effeithiau negyddol arwyddocaol yn cael eu profi gan bobl ym mhob un o'r chwe phrif grŵp o dderbynyddion gweledol. Mae Horizon hefyd yn barnu na fydd amrywiant o fewn y chwe grŵp hyn rhwng gwylfannau lle byddai'r effeithiau gweledol yn arwyddocaol a gwylfannau lle na fyddai'r effeithiau gweledol yn arwyddocaol. Mae CSYM yn cytuno â'r casgliadau hyn ynghylch graddau'r effeithiau negyddol, er ei fod yn nodi na chynhyrchwyd delweddau o wylfannau sy'n dangos yr effeithiau gweledol yn ystod y cyfnod adeiladu a fyddai o gymorth i ddatblygu mesurau lliniaru a chydbwyso ychwanegol ar y safle a'r tu allan iddo.

3.2.11 Mae CSYM yn cytuno y bydd derbynyddion gweledol sy'n agos i ffin ADWN yn profi effeithiau gweledol negyddol arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r rhain yn cynnwys derbynyddion gweledol (y boblogaeth leol ac ymwelwyr) sy'n defnyddio rhai o'r hawliau tramwy a rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd lleol, yn cynnwys y rhan agosaf o'r A5025. Yn ogystal â hyn, mae CSYM yn cytuno y bydd yr effeithiau gweledol negyddol arwyddocaol mwyaf yn cael eu profi gan rai pobl sy'n byw yng nghymunedau Cemaes a Thregele yn ogystal â phobl sy'n defnyddio rhannau o Lwybr Arfordir Cymru a'r Trywydd Copr sy'n mynd drwy'r ardal astudio effeithiau tirweddol a gweledol. Byddai'r effeithiau gweledol negyddol arwyddocaol ar ddefnyddwyr llwybrau troed hefyd yn cynnwys y rhannau o'r llwybrau hyn a fydd yn cael eu dargyfeirio dros dro ac yn barhaol. Mae CSYM yn nodi nad yw'r un o'r gwylfannau sy'n sail i'r asesiadau o effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru neu'r Trywydd Copr wedi'i lleoli yn y rhannau sydd i'w dargyfeirio dros dro neu'n barhaol fel bod graddau gofodol yr effeithiau negyddol arwyddocaol ar y bobl a fydd yn defnyddio'r llwybrau hyn yn y cyfnod adeiladu a gweithredu wedi'i danasesu.

3.2.12 Mae CSYM yn cydnabod bod Horizon wedi asesu y bydd effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol ar breswylwyr yng Nghemaes a Thregele. Mae CSYM yn bryderus iawn o hyd nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn yr asesiad o effeithiau gweledol a dogfennau eraill y GCD sydd wedi'u rhestru yn adran y Sylfaen Dystiolaeth yn caniatáu i CSYM (ac ymgyngoreion eraill):

a) cael dealltwriaeth lawn o natur ac amrywiant yr effeithiau gweledol a geir drwy gydol y cyfnod adeiladu o naw mlynedd;
b) yn caniatáu datblygu mesurau lliniaru a chydbwyso a fydd yn cynyddu'r gallu i leihau a chydbwyso effeithiau gweledol; ac
c) yn caniatáu i CSYM feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffordd y bydd effeithiau gweledol yn rhyngweithio ag effeithiau amgylcheddol eraill i gael dealltwriaeth lawn o'r effeithiau dichonol ar amwynder preswylwyr.

3.2.13 Mae CSYM yn nodi nad oes asesiad yn yr asesiad o effeithiau gweledol o'r effeithiau gweledol ar bobl sy'n byw mewn eiddo preswyl y tu allan i ffiniau'r pedair cymuned. Mae rhai o'r unedau eiddo hyn yn agos i ffin ADWN ac felly byddant yn agos i'r gwaith cloddio ar raddfa fawr, y gwaith ffurfio twmpathau a gweithgareddau craeniau arfaethedig. Yn ôl asesiad CSYM, mae'n debygol iawn y bydd y preswylwyr hyn yn profi effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol (sydd felly'n effaith negyddol) yn ystod y cyfnod adeiladu.

3.2.14 Yn gyffredinol, mae'r effeithiau gweledol yn ystod y cyfnod adeiladu yn effaith negyddol. Gellid lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol hyn i raddau drwy blannu ymlaen llaw, creu mathau eraill o sgrinio parhaol neu dros dro a/neu newidiadau yn y rhaglen adeiladu fanwl ar gyfer ffurfio rhai o'r twmpathau fel na fydd yn rhaid newid proffil rhannau o rai twmpathau ar ddiwedd y cyfnod adeiladu. Mae CSYM yn cydnabod y byddai'r mesurau hyn yn lleihau rhai effeithiau gweledol negyddol ond na fyddent yn dileu'r effaith weledol negyddol.

**Y Cyfnod Gweithredu**

3.2.15 Yn ôl asesiad Horizon, bydd effeithiau gweledol arwyddocaol niweidiol mewn gwylfannau yn ystod y cyfnod gweithredu yn cael eu lleihau fel na fyddant yn arwyddocaol fel a ganlyn:

a) Blwyddyn Gweithredu 1 – lleihau o effeithiau arwyddocaol niweidiol mewn 33 o wylfannau (y cyfnod adeiladu) i effeithiau arwyddocaol niweidiol mewn 26 o wylfannau;
b) Blwyddyn Gweithredu 15 – lleihad pellach o effeithiau arwyddocaol niweidiol mewn 26 o wylfannau (Blwyddyn Gweithredu 1) i effeithiau arwyddocaol niweidiol mewn 25 o wylfannau.

3.2.16 Priodolir y lleihad mewn effeithiau gweledol arwyddocaol niweidiol i'r sgrinio y bydd rhai derbynyddion gweledol yn ei gael o'r gwaith cloddio a gwblheir (Twmpathau A – E); adfer terfynau caeau; a graddol sefydlu'r cynigion plannu a hadu sydd wedi'u nodi yn y Datganiad Dylunio a Mynediad[24] a'r Cynllun Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd[25].

3.2.17 Yn y rhan fwyaf o'r gwylfannau, bydd y cynigion dylunio hyn wedi'u hategu gan fesurau lliniaru ychwanegol sydd wedi'u disgrifio yn Nhabl 10-41 yn nogfen D10 – Landscape and Visual[29]. Mae CSYM yn cydnabod bod mabwysiadu cynllun lliwiau addas yn cynnig y gallu i leihau effeithiau gweledol ar rai derbynyddion gweledol, yn enwedig rhai derbynyddion gweledol sy'n bellach i ffwrdd. Mae CSYM wedi gofyn am ragor o fanylion am fabwysiadu cynllun seiliedig ar liwiau naturiol ar gyfer adeiladau'r Orsaf Bŵer. Bydd hyn yn helpu CSYM i gael gwybod am y graddau y bydd cynllun o'r fath yn gallu helpu i integreiddio'r adeiladau â'r dirwedd ac i gadarnhau y bydd cynllun lliwiau o'r fath yn lleihau'r effeithiau gweddilliol a aseswyd yn rhai o'r gwylfannau yn y rhestr o effeithiau gweledol (Atodiad D10-7[19]). Os na chaiff ragor o fanylion, bydd CSYM yn gorfod cymryd na fydd y cynllun lliwiau a fabwysiedir yn lleihau effeithiau gweledol ar unrhyw wylfannau ac felly ar unrhyw grwpiau o dderbynyddion gweledol.

3.2.18 Mae CSYM yn cytuno'n gyffredinol â'r casgliadau a gyflwynwyd am arwyddocâd ar gyfer y gwylfannau yn asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol yn y cyfnod gweithredu gan nodi'r eithriadau canlynol ar gyfer pob un o'r chwe phrif grŵp o dderbynyddion gweledol:

***Pobl mewn Cymunedau (Cemaes, Tregele, Llanfair-yng-Nghornwy a Llanfechell***).

3.2.19 Gwylfan 13 – cwr gogledd-orllewinol Cemaes – yn ôl asesiad CSYM, bydd yr effeithiau gweledol yn niweidiol arwyddocaol ym Mlynyddoedd Gweithredu 1 a 15 ac nid yw Horizon wedi dangos y bydd dyluniad manwl y pwll gwaddodi cyfagos a mabwysiadu cynllun rheoli tirwedd hirdymor fel camau lliniaru ychwanegol yn ddigon i leihau effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

3.2.20 Gwylfan 16 – cwr gorllewinol Cemaes – yn ôl asesiad CSYM, erbyn Blwyddyn Gweithredu 15 mae'r effeithiau gweledol yn debygol o barhau'n arwyddocaol ac mae'n dod i'r casgliad nad yw Horizon wedi dangos y bydd dyluniad manwl y pwll gwaddodi cyfagos fel cam lliniaru ychwanegol yn ddigon i leihau effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

***Pobl sy'n defnyddio Llwybr Arfordir Cymru***

3.2.21 Gwylfan 9 – Trwyn y Gader – yn ôl asesiad CSYM, bydd yr effeithiau gweledol yn arwyddocaol a niweidiol ym Mlynyddoedd Gweithredu 1 a 15 ac mae'n dod i'r casgliad nad yw Horizon wedi dangos y bydd mabwysiadu cynllun lliwiau ar gyfer adeiladau'r Orsaf Bŵer seiliedig ar ddefnyddio lliwiau naturiol fel cam lliniaru ychwanegol yn ddigon i leihau effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

3.2.22 Gwylfan 10 – Trwyn yr Wylfa – yn ôl asesiad CSYM, erbyn Blwyddyn Gweithredu 15 mae'r effeithiau gweledol yn debygol o barhau'n niweidiol ac arwyddocaol. Mae CSYM wedi dod i'r casgliad na fydd y mesurau lliniaru ychwanegol na'r rhai sefydledig a seiliedig ar arferion da a restrwyd yn Atodiad D10-7[19] yn ddigon i leihau'r effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

3.2.23 Gwylfan 13 – cwr gogledd-orllewinol Cemaes – yn ôl asesiad CSYM, bydd yr effeithiau gweledol yn arwyddocaol ym Mlynyddoedd Gweithredu 1 a 15 ac mae wedi dod i'r casgliad nad yw Horizon wedi dangos y bydd dyluniad manwl y pwll gwaddodi cyfagos a mabwysiadu cynllun rheoli tirwedd hirdymor fel camau lliniaru ychwanegol yn ddigon i leihau effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

3.2.24 Gwylfan 31 – Ffordd Cemlyn ym Mae Cemlyn – yn ôl asesiad CSYM, bydd yr effeithiau gweledol yn debygol o fod yn arwyddocaol ym Mlynyddoedd Gweithredu 1 a 15 ac mae wedi dod i'r casgliad nad yw Horizon wedi dangos, am nad yw wedi darparu delweddau ffotogyfosod, y bydd mabwysiadu cynllun lliwiau ar gyfer adeiladau'r Orsaf Bŵer yn seiliedig ar y defnydd o liwiau naturiol a dewis deunydd priodol ar gyfer y Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r morgloddiau fel camau lliniaru ychwanegol yn ddigon i leihau effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

***Pobl sy'n defnyddio'r Trywydd Copr***

3.2.25 Gwylfan 31 – Ffordd Cemlyn ym Mae Cemlyn – fel yr uchod ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.

***Pobl sy'n defnyddio Hawliau Tramwy lleol ac Ardaloedd Mynediad Agored***

3.2.26 Gwylfan 2 – cyffordd llwybr cyhoeddus a'r A5025 i'r dwyrain o Gemaes – yn ôl asesiad CSYM, bydd yr effeithiau gweledol yn niweidiol ac arwyddocaol ym Mlynyddoedd Gweithredu 1 a 15. Mae CSYM wedi dod i'r casgliad nad yw Horizon wedi dangos y bydd mabwysiadu cynllun lliwiau ar gyfer adeiladau'r Orsaf Bŵer yn seiliedig ar y defnydd o liwiau naturiol ac, erbyn Blwyddyn Gweithredu 15, gyflawni cynllun rheoli hirdymor fel camau lliniaru ychwanegol yn ddigon i leihau effeithiau gweddilliol fel eu bod yn niweidiol ond nid yn arwyddocaol.

3.2.27 Gwylfan 16 – cwr gorllewinol Cemaes – fel yr uchod ar gyfer Cymunedau.

***Pobl sy'n defnyddio'r A5025***

3.2.28 Gwylfan 2 – cyffordd llwybr cyhoeddus a'r A5025 i'r dwyrain o Gemaes – gweler yr uchod ar gyfer Hawliau Tramwy lleol.

***Pobl sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol***

3.2.29 Gwylfan 31 – Ffordd Cemlyn ym Mae Cemlyn – fel yr uchod ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.

3.2.30 Yn gyffredinol, mae'r newidiadau gweledol yn ystod y cyfnod gweithredu yn effaith negyddol ar amrywiaeth o bobl yn y chwe chategori sydd wedi'u nodi a'u defnyddio yn asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol. Nid yw Horizon wedi darparu asesiad meintiol o nifer y bobl sy'n preswylio yn y cymunedau a fydd, yn ôl ei asesiad, yn profi effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol. Nid yw

asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol yn dangos yn glir y rhannau o'r gwahanol ffyrdd, llwybrau beicio, Llwybr Arfordir Cymru a'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol lle y bydd defnyddwyr yn profi effeithiau niweidiol arwyddocaol. Mae CSYM wedi nodi derbynyddion gweledol eraill mewn unedau eiddo y tu allan i'r pedair prif gymuned lle y bydd preswylwyr yn debygol iawn o brofi effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol. Gellir lliniaru rhai o'r effeithiau gweledol niweidiol hyn i raddau drwy blannu coed, llwyni a gwrychoedd gan eu lleoli'n ofalus ar sail cynllun rheoli effeithiol a gyflawnir drwy gydol y cyfnod gweithredu neu, ar gyfer rhai preswylwyr mewn rhai unedau eiddo, drwy fathau eraill o sgrinio. Byddai'r mesurau hyn yn lleihau ond nid yn dileu'r effaith negyddol ar gyfran fach o'r bobl yr aseswyd y byddant yn profi effeithiau gweledol negyddol.

## 3.3 Safbwynt Polisi

3.3.1 Ym marn CSYM, mae'r effeithiau gweledol lleol a grëir drwy adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn galw am gamau lliniaru ychwanegol a hefyd am gamau cydbwyso. Mae'r safbwynt hwn wedi'i ategu gan bolisi lleol.

### Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC)

3.3.2 Mae Polisi PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiad Perthynol yn darparu'r fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer y cynnig. Mae meini prawf 1 ac 8 yn berthnasol iawn. Mae'r cyntaf yn cysylltu'r Polisi hwn â Pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. Mae'r olaf yn pennu gofyniad bod patrwm a dyluniad unrhyw gynllun yn osgoi, yn lleihau, yn lliniaru neu'n cydbwyso effeithiau gweledol a thirweddol yn yr ardal leol a'r ardal ehangach yn y tymor byr a'r tymor hwy.

3.3.3 Mae Maen Prawf 13 yn datgan y *"dylai'r baich a'r tarfu ar y gymuned ... gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned …".* Mae'r meini prawf hyn yn cadarnhau'r angen am ddarparu plannu y tu allan i'r safle lle y gall hynny leihau'r effeithiau gweledol niweidiol a brofir gan breswylwyr mewn unedau eiddo sy'n agos i ADWN neu'n gallu gweld golygfeydd ohoni.

3.3.4 Perthnasol iawn hefyd yw gofynion Polisi PCYFF 4 Dylunio a Thirweddu. Bydd angen i unrhyw blannu lleol ar gyfer sgrinio o fewn neu'n agos i'r cymunedau neu wrth ochr rhannau o Lwybr Arfordir Cymru, y Trywydd Copr/NCR 566, hawliau tramwy lleol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol, yn cynnwys yr A5025, fod yn unol â nifer o'r meini prawf ym Mholisi PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu y CDLlC. Mae'r esboniad o'r polisi yn nodi bod cynllun tirweddu sydd wedi'i gynllunio a'i gyflawni'n dda yn gallu bod yn "*ased parhaus i'r gymuned*" ac mai'r nod cyffredinol yw "*cael amgylchedd sy'n rhoi gymaint ag y bo modd o ansawdd bywyd da i'r bobl sy'n byw a gweithio yn ardal y Cynllun*" h.y. yn cynnwys pobl sy'n preswylio yng Nghemaes a Thregele yn ogystal â Llanfair-yng-Nghornwy ac mewn eiddo y tu allan i'r cymunedau hyn.

3.3.5 Byddai darparu cyfleusterau gwybodaeth a dehongli ar hyd y rhwydwaith hawliau tramwy lleol ac yn enwedig ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn gyson hefyd â Pholisi PCYFF 4 y CDLlC, yn enwedig gan y byddai eu darparu'n

hwyluso is-bwynt 3: dangos sut mae ADWN yn parchu ac yn diogelu golygfeydd lleol a strategol. Byddai lleoli cyfleusterau dehongli o fewn yr AHNE yn ategu polisi AMG 1 y CDLlC mewn perthynas â chynyddu'r buddion a geir o olygfeydd pwysig yn yr AHNE.

3.3.6 Mae Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd y CDLlC yn hwyluso'r posibilrwydd o gyflwyno nifer o fesurau gwella ar y Trywydd Copr/NCR 566 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Yn benodol, mae maen prawf 3 yn datgan "*lle'n bosib gwarchod, gwneud ychwanegiadau, gwelliannau a hyrwyddo llwybrau a hawliau tramwy ... er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd ... ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i'r gymuned leol ac ymwelwyr*."

3.3.7 Mae CSYM yn credu hefyd fod maen prawf 16 yn berthnasol iawn. Mae hwn yn datgan y gall amgylchiadau annisgwyl godi wrth i'r prosiect ddatblygu o ganlyniad i'r cyfnodau adeiladu a gweithredu a fydd yn galw am gyflawni gwaith ychwanegol gan Horizon i wrthbwyso unrhyw effeithiau ychwanegol ar y gymuned sy'n eu profi. Mae hyn yn berthnasol gan ei bod yn bosibl na fydd effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol dichonol ar rai derbynyddion gweledol preswyl, yn enwedig yng Nghemaes a Thregele, yn dod yn glir nes bydd gwaith y cyfnod adeiladu wedi dechrau, neu nes bydd ADWN yn weithredol. Mae angen i Horizon fonitro effeithiau ac adolygu digonolrwydd y mesurau lliniaru a gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen. Gall addasiadau o'r fath gynnwys darparu rhagor o blannu ar y safle neu y tu allan iddo neu addasu cydrannau yn y cynlluniau manwl ar gyfer adeiladu a gweithredu sydd wedi'u disgrifio yn y SRhTCh a'r Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer ADWN a Champws y Safle.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Wylfa Newydd**

3.3.8 Mae'r CCA yn darparu cyngor manwl ar gyfer cymhwyso Polisïau'r CDLlC sydd wedi'u crybwyll uchod.

3.3.9 Bydd cynigion ar gyfer mesurau gwella a chydbwyso ar y safle a'r tu allan iddo yn gyson ag **Amcanion 4 a 7 y CCA**. Yn benodol, y bydd mesurau'n cael eu gweithredu i leihau effeithiau ar amwynder gweledol drwy gamau lliniaru priodol a darparu camau cydbwyso ar gyfer effeithiau gweledol niweidiol gweddilliol na ellir eu lliniaru h.y. y rheini sydd wedi'u nodi yn asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol. Bydd angen i gynigion ar gyfer gwella a chydbwyso fod yn gyson ag Amcan 7, yn enwedig drwy wella tirwedd unigryw Ynys Môn.

3.3.10 Mae'r CCA yn gosod egwyddorion arweiniol sy'n cynnwys y rhai canlynol sy'n gefnogol iawn i'r angen i Horizon ddarparu cynigion ar gyfer gwella a chydbwyso ar y safle a'r tu allan iddo mewn perthynas ag effeithiau gweledol niweidiol sy'n codi o'r gwaith adeiladu a gweithrediadau yn ADWN:

a) Mae **EA 5: Twristiaeth** yn datgan y dylai CSYM a Horizon gymryd camau lle mae posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol i bennu a gweithredu mesurau cydbwyso i ddiogelu a gwella economi ymwelwyr Ynys Môn. Yn is-egwyddor (iv) rhoddir pwyslais mewn perthynas â hawliau tramwy ar "*sut gall datblygu gyfrannu*

*at gyflawni'r camau gweithredu sydd yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-2018 y Cyngor neu yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ar gyfer y cyfnod nesaf o 10 mlynedd pan fydd wedi'i gymeradwyo*." Mae EA5 hefyd yn datgan y dylai CSYM a Horizon gymryd camau lle mae posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol (fel y cadarnhawyd yn asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol ac y cadarnhawyd gan CSYM) i bennu a gweithredu mesurau cydbwyso i ddiogelu a gwella economi ymwelwyr Ynys Môn. Mae'r rhain i gynnwys, yn unol â'r diffiniad yn is-egwyddor (xii), gwaith cynnal a gwelliannau strategol ar y rhwydwaith hawliau tramwy, llwybrau beicio a llwybrau cerdded.

b) Yn **EA 7: Gwarchod Iechyd**, Adran 4.3.11 nodir ei bod yn bwysig gwneud darpariaeth briodol i gwrdd yn ddigonol â'r cynnydd yn y galw am gyfleusterau ac adnoddau hamdden fel mannau agored (yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored), llwybrau cerdded h.y. y rhwydwaith hawliau tramwy a llwybrau beicio. Yn Adran 4.3.12 nodir bod ADWN yn cynnig cyfleoedd i wella llesiant preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden a all gynnwys y rhwydwaith hawliau tramwy presennol y tu allan i ADWN.

c) Mae **EA 8: Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw** yn rhoi rhagor o gefnogaeth i waith gwella a chydbwyso ar Lwybr Arfordir Cymru, y Trywydd Copr/NCR 566, Ardaloedd Mynediad Agored a hawliau tramwy lleol drwy is-egwyddorion (ii) pennu unrhyw gyfleoedd i fuddsoddi mewn cyfleusterau presennol h.y. y rhwydwaith hawliau tramwy; a (iii) gwella mynediad drwy foddau cynaliadwy at gyfleusterau presennol yn cynnwys gwella neu ddarparu hawliau tramwy a llwybrau beicio i gynyddu capasiti.

d) **EA 15: Trafnidiaeth** sy'n ymwneud â'r angen i Horizon gynyddu mynediad drwy drafnidiaeth gynaliadwy i ADWN drwy fesurau fel hyrwyddo cyfleoedd i feicio, yn cynnwys darparu llwybrau beicio newydd a gwella rhai presennol fel y Trywydd Copr yn unol â strategaethau presennol h.y. Strategaeth Beicio CSYM.

e) **EA 21: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**, yn bennaf y disgwyliad gan CSYM y bydd Horizon yn edrych ar gyfleoedd i wella amgylchedd naturiol a gwasanaethau ecosystem Ynys Môn, yn cynnwys drwy fabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd da (is-egwyddor xv) a chynlluniau tirweddu (is-egwyddor xix).

f) Mae **EA 24: Rhwymedigaethau Cynllunio** yn datgan y dylai camau cydbwyso a lliniaru fod yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag effeithiau gwirioneddol neu ganfyddedig Prosiect Wylfa Newydd, yn cynnwys effeithiau niweidiol ar iechyd a llesiant cymunedau. Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag effeithiau ar amwynder gweledol. Mae EA 24 hefyd yn datgan bod angen i Horizon ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol i bennu mesurau cydbwyso a lliniaru priodol.

g) Mae **EA 26: Gweithredu a Monitro** yn datgan bod angen i CSYM a Horizon ddatblygu trefniadau i fonitro effeithiau a chanlyniadau mesurau lliniaru a chydbwyso cysylltiedig. Mae EA 26 hefyd yn ailddatgan bod angen sefydlu protocol i ymdrin ag effeithiau annisgwyl a gwneud addasiadau priodol i fesurau lliniaru a chydbwyso a all fod yn berthnasol iawn i rai derbynyddion gweledol preswyl yng Nghemaes, Tregele ac mewn unedau eiddo y tu allan i'r cymunedau hyn.

h) **EA 27: Gogledd Ynys Môn – Egwyddorion Datblygu** – is-egwyddor (v) sy'n cyfeirio at yr angen am Gronfa Cydnerthedd Cymunedol i ddelio ag effeithiau na ellir eu mesur na'u rhag-weld ac a fydd yn pennu mesurau i wneud gogledd Ynys Môn yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld; swyddogaethau lle y mae rhan allweddol i'w chwarae gan yr A5025, ffyrdd lleol, llwybrau beicio a hawliau

tramwy, yn enwedig fel y prif foddau mynediad i ymwelwyr ac aelodau o gymunedau lleol, fel y bydd effeithiau gweledol ar y llwybrau hyn yn ystyriaeth allweddol fel y nodwyd o dan yr egwyddor agosrwydd a amlinellwyd yn is-adran (vi).

i) **EA 28a: Prif Safle Wylfa Newydd ac EA 28b Campws Prif Safle Wylfa Newydd – Egwyddorion Datblygu Allweddol** – is-egwyddor (f) EA 28a lle mae Horizon wedi dangos na ellir osgoi effeithiau h.y. lle nad yw mabwysiadu'r holl fesurau lliniaru corfforedig, dylunio da ac ychwanegol sydd ar gael yn gallu atal effaith weledol niweidiol arwyddocaol, dylid darparu lefelau priodol o gamau lliniaru a chydbwyso; (g) gwelliannau i rwydweithiau llwybrau troed sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru a Mynydd Parys drwy'r Trywydd Copr; (h) pennu triniaethau tirwedd a chysylltiadau a gwelliannau i hawliau tramwy sy'n integreiddio'n briodol â'r ardal o gwmpas. Byddai gwaith a gwelliannau i'r dirwedd a'r seilwaith gwyrdd sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin ADWN yn gallu lliniaru a chydbwyso effeithiau'r prosiect a darparu gwelliannau lle y bo'n briodol; (j) lleihau effeithiau ar hamdden gan gynnwys y defnydd o lwybrau troed a llwybrau beicio, manteisio ar gyfleoedd i ddarparu llwybrau troed a llwybrau beicio newydd neu well, yn cynnwys llwybrau cylchol. Mae is-egwyddor (x) EA 28b yn cefnogi camau i ddarparu cyfleusterau gwybodaeth a dehongli ar Lwybr Arfordir Cymru.

j) **EA 30: Cemaes** – mae is-egwyddor twristiaeth (i) yn nodi y dylai camau i gynyddu cyfleoedd drwy fuddsoddi yn yr ardal o gwmpas Cemaes gynnwys gwaith cynnal a, lle y bo modd, gwaith i wella mynediad i'r arfordir sydd, yn ôl y dehongliad, yn cynnwys y rhwydwaith ffyrdd lleol o gwmpas Bae Cemaes a Phorth Padrig.

k) **EA 31: Coridor yr A5025** – nodir o dan Fater Allweddol yr Amgylchedd Naturiol y dylid ceisio cyfleoedd i sicrhau bioamrywiaeth a gwella'r dirwedd.

## 3.4 Bylchau mewn Gwybodaeth

3.4.1 Ym marn CSYM, nid yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau gweledol yn darparu asesiad manwl a meintioledig o ddosbarthiad y derbynyddion gweledol yr aseswyd eu bod yn profi effeithiau gweledol arwyddocaol niweidiol. Darperir enghreifftiau isod:

### Llwybr Arfordir Cymru

3.4.2 Nid yw'r asesiad o effeithiau gweledol yn caniatáu i CSYM gael dealltwriaeth gynhwysfawr o hyd unigol a chyfan y rhannau o Lwybr Arfordir Cymru lle y bydd ei ddefnyddwyr yn profi effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol. Nid yw'r asesiad o effeithiau gweledol ond yn caniatáu i CSYM ddod i'r casgliad y byddant yn cael eu profi mewn naw o'r 11 o wylfannau a ddewiswyd. Mae CSYM wedi dod i'r casgliad y bydd effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol yn cael eu profi ar hyd y rhan 15.5km o Lwybr Arfordir Cymru rhwng Gwylfan 9 (Trwyn y Gader) yn y gorllewin a Gwylfan 29 (Ogof Gynfor) tua'r dwyrain. Mae'n bosibl na fydd yr effeithiau gweledol yn arwyddocaol ar is-rannau byr i'r de o Fae Cemaes a Bae Cemlyn oherwydd lefelau uchel y sgrinio gan y topograffi cyfagos.

### Y Trywydd Copr/Llwybr Beicio Cenedlaethol 566

3.4.3 Nid yw'r asesiad o effeithiau gweledol yn caniatáu i CSYM gael dealltwriaeth gynhwysfawr o hyd unigol a chyfan y rhannau o'r Trywydd Copr lle y bydd ei ddefnyddwyr yn profi effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol. Nid yw'r asesiad o effeithiau gweledol ond yn caniatáu i CSYM ddod i'r casgliad y bydd effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol yn cael eu profi mewn pedwar o'r chwe gwylfan a ddewiswyd. Nid yw'r un o'r gwylfannau hyn ar y rhwydwaith ffyrdd lleol lle y bydd y rhan o'r llwybr a gaiff ei ddargyfeirio'n barhaol yn rhedeg. Mae CSYM wedi dod i'r casgliad y bydd effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol yn cael eu profi gan bobl sy'n defnyddio'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r rhan o'r Trywydd Copr/NCR 566 a gaiff ei dargyfeirio'n barhaol; y rhan sydd yn union i'r gorllewin o ADWN a rhai rhannau byrrach, uwch o gwmpas Mynydd y Garn.

**Hawliau Tramwy Lleol, Ardaloedd Mynediad Agored a rhwydweithiau ffyrdd lleol**

3.4.4 Nid yw'r asesiad o effeithiau gweledol yn caniatáu i CSYM gael dealltwriaeth gynhwysfawr o hyd unigol a chyfan y rhannau o'r Hawliau Tramwy lleol a'r rhwydweithiau ffyrdd lleol lle y bydd eu defnyddwyr yn profi effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol h.y. nid yw'r asesiad yn feintioledig. Nid yw CSYM yn gallu cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gyfran o Ardaloedd Mynediad Agored fel Trwyn Llanbadrig, Trwyn Pencarreg, a Thrwyn Cwlyn a fydd yn profi effeithiau arwyddocaol negyddol. Nid yw'r asesiad o effeithiau gweledol ond yn caniatáu i CSYM ddod i'r casgliad y bydd effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol yn cael eu profi ym mhob un o'r 11 o wylfannau a ddewiswyd ar gyfer y rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol a'r Ardaloedd Mynediad Agored yn ogystal â chwech o'r 12 o wylfannau a ddewiswyd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Gan fod y rhwydweithiau Hawliau Tramwy a ffyrdd lleol yn ymestyn dros ardal eang, dim ond ychydig o werth sydd i'r wybodaeth rannol hon wrth geisio cael gwybod ble y gellid cael buddion o gyflwyno mesurau lliniaru y tu allan i'r safle i ddarparu sgrinio ar gyfer pobl sy'n defnyddio rhannau o'r Hawliau Tramwy neu ffyrdd lleol a/neu drwy ddatblygu mesurau cydbwyso.

3.4.5 Yn fyr, mae CSYM yn pryderu bod yr asesiadau o effeithiau gweledol yn dod i'r casgliad y bydd effeithiau arwyddocaol negyddol helaeth ar bobl sy'n defnyddio rhannau hir ond anfesuradwy o lwybr cenedlaethol, o lwybr beicio cenedlaethol sy'n cael ei hyrwyddo'n lleol ac o rwydweithiau eang o Hawliau Tramwy a ffyrdd lleol. Bydd cyfran fawr o'r bobl sy'n cerdded, yn beicio, yn marchogaeth neu'n gyrru ar hyd y llwybrau hyn yn ymwelwyr a fydd yn cyfrannu at yr incwm blynyddol o £300 miliwn y mae twristiaeth yn ei roi i economi Ynys Môn[31]. Mae Llwybr Arfordir Cymru a glannau'r môr a'r traethau yn atyniadau allweddol i nifer mawr o ymwelwyr. Mewn arolwg diweddar o ymwelwyr, mwynhad o'r dirwedd naturiol a golygfeydd ac ymweld â thraethau oedd y cyntaf a'r trydydd o'r rhesymau mwyaf poblogaidd dros ymweld ag Ynys Môn[32]. Mae atyniadau i ymwelwyr sydd o gwmpas Trwyn y Gader, Bae Cemlyn, Bae Cemaes a Thrwyn Llanbadrig yn cael eu cyrraedd a'u profi o'r llwybrau, llwybrau beicio a ffyrdd lleol hyn. Mae angen sicrhau drwy'r mesurau lliniaru a chydbwyso fod yr

[31] STEAM (Local Economic Tourism Impact) Summary. 2017. Cyngor Sir Ynys Môn.
[32] Arolwg Ymwelwyr Cymru. Holyhead Ferry Terminal and Railway Station Report. 2016.

effeithiau arwyddocaol negyddol yn cael eu lleihau a bod y mesurau cydbwyso a gyflwynir yn effeithiol.

**Preswylwyr yng Nghemaes, Tregele ac eiddo preswyl arall sy'n agos i ADWN**

3.4.6 Bydd llai o breswylwyr yng nghymunedau Cemaes a Thregele yn profi effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol yn ystod cyfnod gweithredu ADWN nag yn ystod y cyfnod adeiladu. Nid yw asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol yn mesur y gostyngiad yn nifer y preswylwyr a fydd yn profi effeithiau arwyddocaol niweidiol. Nid yw asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol yn caniatáu i CSYM ddod i gasgliadau tebyg ar gyfer y nifer bach o breswylwyr yn yr unedau eiddo eraill sy'n agos i ffin ADWN gan fod y derbynyddion gweledol preswyl hyn wedi'u hepgor yn amhriodol o gwmpas yr asesiad o effeithiau gweledol.

3.4.7 Yn achos preswylwyr yng Nghemaes a Thregele, mae CSYM yn cydnabod mai dim ond ychydig o wahaniaethau sydd rhwng CSYM a Horizon yn y casgliadau am arwyddocâd yr effeithiau gweledol. Mae hyn yn ganlyniad i'r ffaith bod yr asesiad o effeithiau gweledol wedi'i seilio ar raddfa ofodol sy'n cynnwys y gymuned gyfan ar gyfer preswylwyr Cemaes a Thregele. Pe byddai wedi rhannu'r ddau anheddiad mewn ffordd briodol (yn ogystal â Llanfair-yng-Nghornwy), byddai'r asesiad yn fwy manwl ac yn rhoi gwell dealltwriaeth o ddosbarthiad yr effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol o fewn yr aneddiadau hyn. Mae CSYM yn dal er hynny fod y broses o ddatblygu mesurau lliniaru manwl ar y safle a mesurau lliniaru a chydbwyso y tu allan i'r safle a fydd yn effeithiol ar gyfer y cyfnodau adeiladu a gweithredu yn galw am asesiad manylach o'r effeithiau gweledol ar gyfer cymunedau Cemaes, Tregele a Llanfair-yng-Nghornwy. Mae hyn yn ei dro yn galw am:

a) Mwy o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig ar y safle nag sydd wedi'i ddarparu yn y SRhTCh, y Datganiad Dylunio a Mynediad a'r lluniadau sy'n ymwneud â thirweddau a thirffurfiau yn y cyfrolau o gynlluniau, trawsluniau a lluniadau a ddarparwyd yn y Cynlluniau Safle ar gyfer y GCD (Rhannau 1[33] a 2[34]). Mae bylchau yn y wybodaeth am y dulliau o drin llystyfiant, gorchudd tir a therfynau caeau mewn ardaloedd ar y ffiniau agosaf i Gemaes a Thregele yn ogystal â'r rheini sy'n agos i unedau eiddo, yn cynnwys Tre'r-gof-isaf, Pen Carreg, Mynydd Ithel ac unedau eiddo ar hyd yr A5025. Er enghraifft, mae Ffigur 5-12a yng Nghyfrol 1 o'r SRhTCh[25] yn dangos trawslun dangosol rhwng Tregele a'r man gosod i lawr yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r trawslun hwn yn dangos y bydd man sydd tua 100m o led rhwng ffin ADWN a'r bwnd sgrinio 7m o uchder a fydd yn ffurfio llethr allanol Tomen B yn ddiweddarach. Bydd y dargyfeiriadau dros dro a pharhaol ar Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu cyfeirio drwy'r man hwn sy'n 100m o led a bydd yn amlwg yn y tir blaen a/neu ganol i gyfran o'r derbynyddion gweledol yn Nhregele. Nid yw Horizon wedi dangos sut y bydd y man hwn yn cael ei drin yn ystod y cyfnod adeiladu ac nid yw ond wedi rhoi ychydig o wybodaeth ar gyfer y cyfnod gweithredu (y trawslun yn Ffigur 6- 11a o'r SRhTCh[25]). Heb ddarparu rhagor o fanylion am fesurau lliniaru'r cyfnodau adeiladu a gweithredu ar derfyn allanol ADWN, rhaid i CSYM gymryd mai'r

[33] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-014
[34] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-015

senario gwaethaf a geir lle na fydd unrhyw fesurau lliniaru wedi'u cymryd yn ystod y cyfnod adeiladu heblaw'r mesurau generig sydd wedi'u dangos yn Lluniadau Pwynt Cyfeirio 2 a 3 yn y Cynlluniau Safle[33] a'r SRhTCh[25]. Dylai Horizon ddarparu lluniadau, cynlluniau a delweddau sy'n dangos cymysgeddau plannu a hadu manwl; dosbarthiad y mathau o ddulliau o drin terfynau caeau sydd wedi'u dangos yn y Datganiad Dylunio a Mynediad[27] a dyluniad ac aliniad manwl y dargyfeiriad dros dro ar Lwybr Arfordir Cymru, yn cynnwys y dulliau trin ar yr holl derfynau caeau. Rhaid ceisio cyflawni'r amcan cyffredinol o leihau effeithiau gweledol negyddol ar ddefnyddwyr y dargyfeiriad dros dro ar Lwybr Arfordir Cymru ac ar breswylwyr yn yr unedau eiddo sy'n agos i ffin ADWN e.e. ar ochr ogleddol yr A5025 ac ym Maes Cynfor a Cae Derwedd ar gwr gorllewinol Cemaes.

b) Mwy o wybodaeth linell sylfaen fanwl am yr amrywiadau cydnabyddedig rhwng golygfeydd y preswylwyr o safle ADWN a phresenoldeb neu absenoldeb gwahanol elfennau sgrinio yn y golygfeydd hyn. Byddai hyn yn hwyluso gwell dealltwriaeth o leoliadau a mannau o fewn y ddwy gymuned lle byddai'r effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol yn cael eu profi gan rai preswylwyr, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu gan nad yw delweddau o wylfannau wedi'u darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd. Byddai hyn yn caniatáu ystyried gwaith gwella a chydbwyso ychwanegol ar y safle a'r posibilrwydd o gyflawni gwaith o'r fath y tu allan i'r safle ar ddechrau'r cyfnod adeiladu. Drwy gwblhau'r gwaith yn gynnar, byddai'n fwy effeithiol wrth ymdrin ag effeithiau gweledol (ar y dirwedd ac ecoleg) ac yn lleihau maint y gwaith lliniaru 'adweithiol' gohiriedig a ddatblygir mewn ymateb i effeithiau na fyddant yn dod yn gwbl amlwg nes bydd rhai gweithgareddau adeiladu neu weithredu wedi dechrau neu nes bydd rhai cydrannau wedi'u cyflwyno.

**Bylchau mewn gwybodaeth gyffredinol**

3.4.8 Mae'r bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd yn cynnwys:

a) Y manylion lleiaf am adfer ardal Campws y Safle at yr amodau llinell sylfaen ar ddiwedd y cyfnod adeiladu. Mae hyn yn berthnasol iawn i Lwybr Arfordir Cymru a rhai o'r llwybrau troed a adferir a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol yn ystod y cyfnod gweithredu.
b) Cadarnhau prif elfennau'r strategaeth rheoli tirwedd hirdymor a chadarnhau y bydd yn cael ei chyflawni drwy gydol y cyfnod gweithredu.
c) Cadarnhau'r dewis o gynllun lliwiau a'i fanylion ar gyfer prif gydrannau'r Brif Orsaf Bŵer sydd i'w seilio ar "*natural colours*" ac sydd â'r amcan o dorri ar "*scale and massing of the power station buildings and integrate them into the landscape*" fel un o'r mesurau lliniaru ychwanegol y mae Horizon wedi asesu y byddant yn lleihau'r newid gweledol mewn cyfran o'r gwylfannau sy'n sail i'w asesiad o effeithiau gweledol. Mae CSYM wedi gofyn am gynhyrchu delweddau ffotogyfosod ychwanegol i'r delweddau ffotogyfosod o wylfannau cynrychiadol sydd yn Atodiad D10-8[22] sy'n dangos cymhwyso cynllun lliwiau o'r fath.
d) Mwy o wybodaeth am ffurfio Tomenni A a B yn ystod dwy flynedd cyntaf y cyfnod adeiladu a'r ailbroffilio ar Domen A a fydd yn ofynnol ar ddiwedd y cyfnod adeiladu. Mae angen y wybodaeth hon am mai'r rhain fydd y tomenni agosaf i Gemaes a Thregele ac am y byddant yn cyfrannu o ganlyniad at yr effeithiau gweledol a brofir gan y cymunedau hyn.

## 3.5 Gofynion y GCD

3.5.1 Adolygwyd y mesurau lliniaru sy'n berthnasol i'r effeithiau gweledol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Leol hwn sydd wedi'u dangos yn Nhablau D10-40, D10-41 a D10-42 yn Natganiad Amgylcheddol D10[29] ar sail y sylfaen dystiolaeth, yr effeithiau negyddol a'r bylchau mewn gwybodaeth a restrwyd yn yr Asesiad Effaith Leol hwn. Er na nodwyd unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol cwbl newydd, mae CSYM wedi nodi rhai gofynion am ddarparu gwybodaeth fwy manwl gan Horizon heblaw'r wybodaeth y bydd Horizon yn ei darparu o dan Ofynion WN8, WN9 a WN11 yn y GCD.

### Gofynion yn y GCD i liniaru effeithiau adeiladu

3.5.2 Mae CSYM yn gofyn am ofyniad yn y GCD am gyflwyno manylion y triniaethau lliw ar wynebau allanol y prif gyfleusterau yn amgaefeydd y contractwr a mannau gosod i lawr ar gyfer adeiladu sy'n debygol o fod yn elfennau pwysig yng ngolygfeydd rhai grwpiau o dderbynyddion preswyl a gweledol. Dylid cyflwyno'r manylion i CSYM i'w cymeradwyo cyn dechrau'r gweithgareddau adeiladu ar safle'r orsaf bŵer.

3.5.3 Mae CSYM hefyd yn gofyn am gyflwyno cynlluniau a thrawsluniau sy'n dangos y dull o drin y rhannau ymylol o safle ADWN y tu allan i'r ffens terfyn allanol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae CSYM wedi nodi'r datganiadau a'r cynlluniau sy'n dangos bod terfynau caeau i'w cadw ar hyd nifer o rannau o ymyl safle ADWN a'r dyhead am wella'r nodweddion hyn yn y modd sydd wedi'i ddangos yn Nhabl D10-40, a grynhowyd yn Adran 5.4, yn enwedig paragraffau 5.4.11 a 12, o'r SRhTCh[25] a'i ddarlunio yn rhai o'r trawsluniau a ddarparwyd yn Ffigurau 5.8 -5.12b yn y SRhTCh[10]. Mae CSYM o'r farn bod y gwaith lliniaru ychwanegol hwn yn cynnig un o'r prif ffyrdd i rannol liniaru rhai o'r effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol a aseswyd gan Horizon ar gyfer cyfran o'r derbynyddion preswyl yn Nhregele a Chemaes ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chyflwyno cyn ymgymryd â'r gwaith hwn fel y gall sicrhau bod lefel dybiedig y lliniaru yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

3.5.4 Bydd y gwaith lliniaru ychwanegol hwn sydd wedi'i grybwyll yn y paragraff blaenorol yn bwysig yn yr un modd i dderbynyddion hamdden sy'n defnyddio'r rhan o Lwybr Arfordir Cymru a gaiff ei dargyfeirio dros dro i redeg drwy'r mannau ymylol hyn sydd wedi'u dangos yn lluniad LFM-DWG-00003: Reference Point 3: Construction in the Site Plans[33] ac Atodiad B i'r SRhTCh[25]. Felly mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i Ofyniad PR8 gael ei ddiwygio fel y bydd y cynlluniau a thrawsluniau sydd wedi'u cyflwyno yn cael eu diwygio i ddangos y nodweddion terfyn cae a gedwir; pennu lleoliad a math y terfynau cae newydd a'r gwaith i wella'r llystyfiant a gedwir; a lleoliad a math y cynigion plannu newydd yn yr un modd ag sydd wedi'i bennu o dan WN9 ar gyfer y cynllun tirwedd terfynol. Lle y bo angen, dylai'r cynlluniau ymestyn i safle ADWN, y tu mewn i'r ffens adeiladu ar y terfyn allanol, i gynnwys manylion y plannu parhaol a dros dro, y plannu a'r terfynau caeau ar lethrau parhaol neu dros dro Tomenni A ac E a thomen sgrinio'r cyfnod adeiladu a fydd yn cael ei chynnwys yn ddiweddarach yn Nhomen B. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn

sicrhau bod effeithiau gweledol negyddol ar dderbynyddion gweledol yn cael eu lleihau drwy gydol y cyfnod adeiladu.

3.5.5 Mae CSYM yn gofyn am gynnwys gofyniad yn y GCD am gyflwyno gwybodaeth fanwl am y gyfres o gamau i ffurfio’r tomenni tirwedd (yn bennaf Tomenni A, E a’r domen sgrinio a ffurfir ar y dechrau a fydd yn rhan o Domen B) ar ddechrau’r cyfnod adeiladu. Dylai hyn gynnwys llinellau gwifrau o wylfannau cynrychiadol a dangosol perthnasol yng Nghemaes a Thregele sy’n dangos cyfres y camau i ffurfio’r tomenni ar ddechrau’r cyfnod adeiladu. Ochr yn ochr â’r gofyniad blaenorol, rhaid darparu gwybodaeth fanwl am yr hadu dros dro, y plannu a’r terfynau caeau sydd i’w sefydlu ar y tomenni tirwedd mor gynnar ag y gellir yn y cyfnod adeiladu.

3.5.6 Yn ogystal â’r manylion sydd wedi’u cyflwyno eisoes, mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i WN19 gael ei ddiwygio fel y bydd manylion am driniaethau lliw yr adeiladau ar Gampws y Safle a’r ffensys terfyn yn cael eu cyflwyno i CSYM a’u cymeradwyo ganddo cyn dechrau eu datblygu/gosod. Bydd yr elfennau dylunio hyn yn bwysig o ran y posibilrwydd o leihau effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol ar dderbynyddion hamdden sy’n defnyddio’r Hawliau Tramwy a gedwir i gael mynediad at Drwyn y Wylfa yn ystod y cyfnod adeiladu.

**Gofynion yn y GCD i liniaru effeithiau adeiladu**

3.5.7 Bydd CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i WN3 gael ei ddiwygio fel y bydd gofyniad, yn ogystal â chyflwyno manylion am y wedd allanol a’r deunyddiau (a gwybodaeth arall), i ddarparu delweddau ffotogyfosod diwygiedig hefyd o’r golygfeydd o nifer o’r gwylfannau cynrychiadol a ddefnyddiwyd yn Atodiad D10-822. Dylid cynnwys gwylfannau cynrychiadol yn bennaf lle yr aseswyd bod mabwysiadu cynllun lliwiau naturiol yn cyfrannu at leihau’r effaith weledol ar lefel breswyl (D1029 ac Atodiad D10-7[19]). Bydd angen cael y wybodaeth hon er mwyn i CSYM allu deall llwyddiant neu aflwyddiant y manylion a gyflwynwyd o ran lliniaru gwedd yr orsaf bŵer a’i alluogi felly i gyflawni’r gofyniad.

3.5.8 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i ofyniad penodol gael ei gynnwys fel y bydd Horizon yn darparu manylion ychwanegol am y rhan o Lwybr Arfordir Cymru a gaiff ei dargyfeirio’n barhaol yn ogystal â’r llwybr sydd wedi’i ddangos yn Ffigur 6.26 yn y SRhTCh a’r hyn sydd wedi’i ddarparu yn Adran 6.6 o’r SRhTCh[10]. Dylai’r gofyniad newydd gynnwys gofyniad i gyflwyno cynllun i CSYM i’w gymeradwyo ganddo a fydd yn darparu ar gyfer dyluniad manwl y llwybr troed ac yn cynnwys cynlluniau a thrawsluniau i ddangos manylion terfynau caeau, y modd i groesi terfynau caeau a’r plannu arfaethedig ar ochrau Llwybr Arfordir Cymru yn ogystal â lleoliad y cyfleusterau sydd wedi’u dangos yn Ffigur 6.25 yn y SRhTCh25. Mae angen y wybodaeth hon, mewn cyd-destun gweledol, i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i sgrinio’r orsaf bŵer rhag Llwybr Arfordir Cymru ac felly lliniaru ei heffeithiau.

## 3.6 Rhwymedigaethau A106

3.6.1 Mae CSYM wedi pennu mesurau ychwanegol sy'n ymwneud yn bennaf â gwelliannau a mesurau cydbwyso y tu allan i'r safle y byddai'n galw am rwymedigaeth ar eu cyfer.

3.6.2 Mae CSYM yn credu y bydd yr effeithiau gweledol niweidiol yn cael eu profi yn ystod y cyfnod gweithredu, ac yn enwedig yn y cyfnod adeiladu, gan breswylwyr mewn cymunedau ac mewn eiddo sydd y tu allan i gymunedau. Bydd yr angen i liniaru'r effeithiau gweledol niweidiol hyn yn galw am fecanwaith lle bydd preswylwyr a pherchnogion tir yn gallu nodi'r angen am gamau lliniaru ychwanegol i sgrinio golygfeydd tua ADWN, a'r gwaith penodol sydd i gael ei ariannu a'i gyflawni.

3.6.3 Mae CSYM o'r farn bod yr effeithiau gweledol niweidiol yr aseswyd y byddant yn cael eu profi gan dderbynyddion ar y rhannau o Lwybr Arfordir Cymru, y rhwydwaith Hawliau Tramwy sy'n rhedeg y tu allan i safle ADWN, y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r rhan agosaf o'r A5025 yn galw am gamau lliniaru ychwanegol.

3.6.4 Mae angen i'r camau lliniaru fod ar ffurf ymrwymiad i ddarparu adnoddau i CSYM fel y gall gydgysylltu â chynghorau cymuned a pherchnogion tir i bennu a chyflawni gwaith penodol ar hyd rhannau penodol o'r Hawliau Tramwy a ffyrdd y tu allan i'r safle sy'n addas ar gyfer:

a) Newidiadau mewn dulliau rheoli llystyfiant i hwyluso mwy o sgrinio ar gyfer elfennau adeiladu a gweithredu y mae eu presenoldeb yn cyfrannu at effeithiau gweledol negyddol;
b) Cyflwyno triniaethau addas i derfynau caeau a phlannu gerllaw i sgrinio yn ystod y cyfnod gweithredu.

3.6.5 Dylai cyllid fod ar gael hefyd ar gyfer rheoli parhaus drwy gydol oes weithredol yr orsaf bŵer.

3.6.6 Byddai'r gwaith yn cael ei bennu ar sail yr astudiaethau canlynol y bydd yn rhaid iddynt gael eu hariannu gan Horizon:

a) Arolwg o derfynau caeau wrth ochr yr holl ffyrdd a Hawliau Tramwy mewn ardal astudio sydd i'w diffinio gan CSYM a hefyd o fewn Ardaloedd Mynediad Agored er mwyn pennu eu math a'u cyflwr;
b) Datblygu cynllun i adfer terfynau caeau traddodiadol (waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd) a chynefinoedd pwysig sydd wrth ochr Hawliau Tramwy a ffyrdd lleol er mwyn gwella cysylltedd cynefinoedd a mewnbynnau i unrhyw strategaeth seilwaith Gwyrdd yn y dyfodol;
c) Arolwg o gyflwr a hygyrchedd y rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol ochr yn ochr â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy presennol fel man cychwyn ar gyfer datblygu rhaglen gynhwysfawr hirdymor (10 mlynedd o ddechrau'r cyfnod adeiladu).

3.6.7 Er gwaethaf yr uchod, mae CSYM yn credu bod y cyfleoedd i liniaru effeithiau gweledol negyddol arwyddocaol ar bobl sy'n defnyddio Hawliau Tramwy lleol, Ardaloedd Mynediad Agored a'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn gyfyngedig. Yn ogystal â hyn, felly, dylai Horizon ddarparu adnoddau i gydbwyso'r effeithiau arwyddocaol negyddol drwy wella'r Hawliau Tramwy lleol presennol yn ogystal â

rhannau o'r Ardaloedd Mynediad Agored a rhannau o Lwybr Arfordir Cymru ledled Ynys Môn. Mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy CSYM[35] wedi dangos bod digon o le i welliannau ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol. Dylid datblygu'r mesurau cydbwyso hyn ar y cyd â swyddogion twristiaeth a llwybrau troed CSYM i sicrhau eu bod yn gyson â strategaethau ehangach i wella cyflwr a hygyrchedd y rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol i breswylwyr ac ymwelwyr. Dylai hyn gynyddu cysylltedd a mynediad at Lwybr Arfordir Cymru ac Ardaloedd Mynediad Agored a hwyluso rheoli parhaus ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol drwy gydol y cyfnod gweithredu.

## 3.7 Crynodeb

3.7.1 Mae'r Adroddiad Effaith Leol hwn yn adolygu'r effeithiau gweledol tebygol a geir wrth adeiladu a gweithredu'r datblygiad o fewn ADWN ar amrywiaeth o dderbynyddion gweledol sy'n byw, yn gweithio, yn ymweld ac yn teithio drwy ardal astudio manwl yr Asesiad o'r Effeithiau Tirweddol a Gweledol.

3.7.2 Bydd nifer mawr o breswylwyr yng Nghemaes, Tregele a Llanfair-yng-Nghornwy yn profi newidiadau yn eu golygfeydd o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r datblygiad o fewn ADWN. Aseswyd y bydd cyfran o'r preswylwyr hyn yn profi effeithiau arwyddocaol niweidiol, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu, hyd yn oed ar ôl cymryd nifer o wahanol fesurau lliniaru ychwanegol. Nid yw graddau'r effeithiau gweledol arwyddocaol niweidiol o fewn y cymunedau hyn wedi cael ei ddiffinio'n llawn yn asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol. Mae CSYM wedi asesu y bydd rhai preswylwyr mewn eiddo y tu allan i ffiniau'r cymunedau hyn yn profi effeithiau gweledol arwyddocaol niweidiol.

3.7.3 Mae'n glir bod cyfran o breswylwyr a fydd yn profi newid sylweddol a pharhaol yn rhai o'r golygfeydd y maent yn debygol o weld gwerth mawr ynddynt, er na fyddant yn profi effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol. Ceir newidiadau yn eu golygfeydd o ganlyniad i bresenoldeb rhai o'r elfennau adeiledig yn ADWN a/neu ragfyrhau golygfeydd gan un neu ragor o Domenni A-E yn ogystal â nodweddion parhaol eraill fel pyllau gwaddodi a/neu nodweddion dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd yn bwysig bod y Cod Ymarfer Adeiladu27 a dyluniad manwl y gweithgareddau adeiladu perthnasol, yn enwedig ffurfio Tomenni A-E a gweithgareddau ar derfynau gorllewinol, deheuol a dwyreiniol ADWN, yn lleihau effeithiau gweledol niweidiol. Bydd yn bwysig yn y cyfnod gweithredu fod dyluniad manwl y rhannau o safle ADWN sy'n agos i breswylwyr yn cyflwyno'r nifer mwyaf posibl o elfennau gweledol cadarnhaol yn eu golygfeydd. Yn ogystal â sicrhau bod yr elfennau adeiledig ledled ADWN ac adeiladau'r Orsaf Bŵer Newydd yn cael eu sgrinio mor effeithiol â phosibl, rhaid rhoi sylw wrth ddylunio tirweddau a chynefinoedd yn fanwl i wella amwynder gweledol y preswylwyr hyn. Ar hyn o bryd, mae CSYM yn pryderu nad yw'r posibilrwydd o sicrhau gwelliannau o'r fath ar y safle yn glir bob amser yn y wybodaeth am ddylunio sydd wedi'i darparu yn y Datganiad Dylunio a Mynediad24, SRhTCh25, y lluniad perthnasol yn y cais am GCD33,34 nac yn

[35] Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ynys Môn 2008-2018 a Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ynys Môn 2: Drafft Ymgynghorol, Mai 2018 (Link)

y delweddau ffotogyfosod perthnasol22 a ddarparwyd i ategu'r Asesiad o'r Effeithiau Tirweddol a Gweledol.

3.7.4 Dylid cydbwyso effeithiau arwyddocaol negyddol gweddilliol drwy ddefnyddio Cronfa Cydnerthedd Cymunedol a ariannwyd yn dda i weithredu a rheoli nifer o wahanol brosiectau amgylcheddol. Dylai'r rhain gael eu pennu gan breswylwyr ar y cyd â swyddogion CSYM drwy ddull sydd i'w ddiffinio gyda Horizon sy'n seiliedig ar y defnydd o gronfeydd tebyg ar gyfer datblygiadau mawr. Dylid trefnu i'r Gronfa Cydnerthedd Cymunedol fod ar gael drwy gydol y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Dylid defnyddio'r gronfa i hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn i le penodol ymysg preswylwyr y cymunedau a sicrhau bod y rhan hon o ogledd Ynys Môn yn parhau'n ddeniadol i ymwelwyr ag Ynys Môn.

3.7.5 Mae asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol yn dod i'r casgliad y bydd derbynyddion gweledol sy'n defnyddio rhan 15.5km o Lwybr Arfordir Cymru, rhannau o'r Trywydd Copr/NCR566, rhai Ardaloedd Mynediad Agored a chyfrannau mawr o'r rhwydweithiau Hawliau Tramwy a ffyrdd lleol yn profi effeithiau gweledol arwyddocaol niweidiol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu hyd yn oed ar ôl gweithredu nifer o wahanol fesurau lliniaru ychwanegol. Mae'r llwybrau hyn yn adnoddau pwysig ar gyfer llesiant preswylwyr ac yn cyfrannu'n helaeth at atyniad Ynys Môn i'w nifer mawr o ymwelwyr. Mae CSYM yn credu ei bod yn hanfodol lleihau effeithiau gweledol arwyddocaol negyddol a chyflwyno amrywiaeth gynhwysfawr o fesurau cydbwyso mor gynnar â phosibl. Ystyriaeth allweddol i CSYM yw'r angen i sicrhau na fydd dyluniad y dargyfeiriadau parhaol a dros dro ar Lwybr Arfordir Cymru o fewn ADWN yn peri i'r rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru fod yn weledol anatyniadol fel y bydd cerddwyr yn cael eu cymell i beidio â'i ddefnyddio. Y tu allan i ADWN, rhaid defnyddio'r Gronfa Cydnerthedd Cymunedol i leihau cyfrannau'r Trywydd Copr/NCR566, yr Ardaloedd Mynediad Agored, yr Hawliau Tramwy a'r ffyrdd lleol lle bydd eu defnyddwyr yn profi effeithiau arwyddocaol negyddol. Fodd bynnag, prif rôl y Gronfa Cydnerthedd Cymunedol yng nghyswllt y grwpiau hyn o dderbynyddion gweledol fydd gwireddu'r potensial i ddarparu mesurau cydbwyso sy'n gwella cyflwr, cyfleusterau a rheolaeth yr Ardaloedd Mynediad Agored, Hawliau Tramwy Lleol a ffyrdd lleol, yn cynnwys y terfynau caeau a'r cynefinoedd sydd ar eu hyd. Drwy wneud hyn, bydd eu hygyrchedd yn gwella a'u gwerth i breswylwyr ac ymwelwyr yn cynyddu.

## 4.0 Yr Amgylchedd Hanesyddol

## 4.1 Cyd-destun

4.1.1 Mae amgylchedd hanesyddol Ynys Môn yn gyfoethog ac amrywiol. Mae'n rhannu nodweddion cyffredin â'r amgylchedd hanesyddol ehangach yng Nghymru, Prydain ac Ewrop, ond mae'n unigryw o ganlyniad i amgylchiadau penodol y cyfaneddu yn y gorffennol a gweithgarwch sy'n deillio o leoliad a daearyddiaeth Ynys Môn.

4.1.2 Yn adroddiad 'Sense of Place' Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM 2018, 23[36]), nodir bod yn Ynys Môn 'one of the richest prehistoric landscapes anywhere in the United Kingdom and is an archaeological treasure'. Mae tystiolaeth archeolegol helaeth o weithgarwch mewn cyfnodau diweddarach. Mae llawer o'r dystiolaeth hon yn gyson â ffynonellau mewn dogfennau hanesyddol ac yn gyfraniad pwysig i hunaniaeth leol, sydd hefyd yn arwyddocaol yn natblygiad hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol Cymru (CSYM 2018, 25).

4.1.3 Yn Ynys Môn yn gyffredinol, mae olion cynhanesyddol mewn cyflwr da ac yn weladwy iawn yn aml, gyda nodweddion fel bedd cyntedd a chylch cerrig Bryn Celli Ddu, maen hir Tŷ Mawr, siambr gladdu Trefignath a meini hir Mein Hirion. Mae amlygrwydd yr asedau treftadaeth hyn mewn tirwedd sy'n newid yn cynnig cysylltiad â'r gorffennol sy'n uniongyrchol ac yn hawdd ei ddeall sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o fod mewn lle neilltuol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth seiliedig ar dreftadaeth, ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth o gynhanes neilltuol yng Nghymru sy'n sail i ddiwylliant modern Cymru. Er bod yr asedau treftadaeth cynhanesyddol o fewn y Prif Safle yn llai amlwg, mae'r ymwybyddiaeth o dirwedd gynhanesyddol sy'n goroesi drwy nodweddion archeolegol a thrwy elfennau llai diriaethol fel enwau lleoedd yn golygu bod yr asedau treftadaeth hyn yn parhau'n bresenoldeb dirnadwy yn y dirwedd.

3.1.4 Yn yr un modd, mae tystiolaeth o weithgarwch ar ddechrau'r cyfnod canoloesol, sy'n dyddio o ddatblygiad y teyrnasoedd Brythonig a ddaeth i ffurfio Cymru yn y pen draw, i'w gweld yn Ynys Môn mewn eglwysi ac enwau lleoedd, fel Eglwys St Padrig yn Llanbadrig. Mae presenoldeb olion o'r cyfnod hwn o fewn y safle, yn enwedig y fynwent o ddechrau'r oesoedd canol ar Drwyn yr Wylfa yn ychwanegu'n sylweddol at y cysylltiad rhwng y lle hwn a'i orffennol.

4.1.5 Ymhlith yr asedau treftadaeth mwy diweddar sy'n gysylltiedig â'r dirwedd amaethyddol y mae Cloddiau a therfynau caeau eraill, nifer ohonynt yn wrychoedd pwysig o dan Reoliadau Gwrychoedd 1997, ynghyd â thai fferm gwledig, a'u waliau wedi'u rendro neu eu peintio'n wyn fel arfer gyda thoeau llechi, ac adeiladau cysylltiedig fel hen felinoedd. Mae'r rhain, ynghyd â'r dirwedd ffisegol neilltuol, yn creu cymeriad hanesyddol unigryw sy'n elfen allweddol yn yr ymdeimlad o fod mewn lle penodol. Manteisiwyd ar y cymeriad gwledig hwn gan Violet Vivian wrth greu'r ardd yn Cestyll ac roedd yn ysbrydoliaeth i'r Fonesig Sylvia Crowe wrth dirweddu yn y Wylfa.

4.1.6 Gellir cael mynediad yn rhwydd i'r dirwedd hanesyddol unigryw hon sy'n cynnwys y Prif Safle ar nifer o lwybrau a ffyrdd, yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, sy'n cynnwys llwybrau eraill o amgylch yr orsaf bŵer bresennol. Yn ogystal â'i gyfraniad pwysig at

[36] Adroddiad Sense of Place (CSYM 2018) (Atodiad 17A)

greu ymdeimlad cryf o le, mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn cyfrannu at dwristiaeth.

4.1.7 Mae Prif Safle Datblygu Wylfa Newydd yn ardal eang sy'n cwmpasu tirwedd archeolegol sy'n cynnwys olion gweithgarwch o'r cyfnod cynhanesyddol hyd at y gorffennol diweddar. Mae rhai elfennau o'r dirwedd hon yn arwyddocaol iawn gan eu bod yn elfennau sylweddol o batrymau cyfnewidiol o gyfaneddu a defnyddio tir sydd mewn cyflwr da. Oherwydd graddfa'r gwaith adeiladu a gwaith cysylltiedig, byddai asedau treftadaeth, yn cynnwys olion archeolegol dan wyneb y tir, adeiladau hanesyddol, gwrychoedd pwysig a thirweddau a ddyluniwyd, yn cael eu colli a byddai ymyrraeth ffisegol â nhw. Byddai'r datblygiadau cysylltiedig ar raddfa lai, ond mae'n bosibl, er hynny, y byddant yn ymyrryd ag asedau treftadaeth neu'n eu dileu. Byddai colli neu ymyrryd yn effaith niweidiol a fyddai'n barhaol ac yn amhosibl ei gwrthdroi, er ei bod yn bosibl y gellid lliniaru effeithiau drwy ymchwil a chofnodi archeolegol.

4.1.8 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar y tirweddau dyluniedig hanesyddol yn Cestyll (Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Gradd II) a'r Wylfa (a ddyluniwyd gan y Fonesig Sylvia Crowe ar gyfer yr Orsaf Bŵer Wylfa wreiddiol). O dan y cynigion presennol, byddai cyfran fawr o Ardd Cestyll a'i Lleoliad Hanfodol yn cael ei cholli a byddai hyn yn amharu ar y berthynas rhwng tirweddu'r Fonesig Sylvia Crowe a ffurf naturiol ac adeiledig yr ardal. Gellid osgoi colli rhannau o Ardd Cestyll ac, er y byddai'r effeithiau eraill ar y ddwy dirwedd ddyluniedig yn niweidiol, gellid lliniaru'r rhain i raddau lle gellir cytuno ar gynigion priodol ar gyfer adfer a rheoli parhaus.

4.1.9 Mae'r asedau treftadaeth archeolegol sydd wedi goroesi yn yr ardal o gwmpas yr orsaf Wylfa Newydd arfaethedig mewn cyflwr da at ei gilydd oherwydd graddau cymharol gyfyng y datblygu modern a'r defnydd o dir amaethyddol ar gyfer pori'n bennaf. Mae'n debygol bod y cyfaneddu yn y gorffennol wedi clystyru am bwyntiau penodol yn y dirwedd, a bod gwahanol leoliadau wedi'u dewis ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd, a gellir disgwyl i olion archeolegol sy'n agos i'r wyneb fod mewn cyflwr da ac yn agos i wyneb presennol y tir. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u profi'n gywir drwy ymchwil archeolegol ar y safleoedd hyn. Adeiladau amaethyddol yw'r asedau treftadaeth adeiledig gan mwyaf, er bod Gardd Cestyll a thirwedd ddiwydiannol yr orsaf bŵer Wylfa bresennol yn cyfrannu'n sylweddol i'r amgylchedd hanesyddol o fewn y Prif Safle Datblygu ac yn ei gyffiniau.

4.1.10 Byddai adeiladu Wylfa Newydd hefyd yn gallu amharu ar bwysigrwydd asedau treftadaeth drwy gyflwyno datblygu newydd yn lleoliadau, neu yn amgylchoedd canfyddiadol, yr asedau treftadaeth. Gallai hyn ddigwydd drwy newid, yn cynnwys newid mewn lefelau sŵn, presenoldeb gweladwy datblygiadau newydd, neu ddileu elfennau mewn golygfa neu dirwedd o'u hamgylch sy'n cyfrannu at arwyddocâd asedau treftadaeth. Gallai'r newidiadau hyn ddigwydd yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig. Mewn rhai achosion, byddai modd gwrthdroi'r newid; mewn achosion eraill byddai'n parhau. Gallai newidiadau fod yn llesol neu'n niweidiol a, lle y maent yn niweidiol, gellid eu lliniaru drwy fesurau fel camau lliniaru adeiladu arfer gorau, dylunio sy'n ymateb i gymeriad hanesyddol neu ddarparu sgrinio gweledol a chlywadwy.

## 4.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

4.2.1 Yn yr Adran hon, amlinellir yr effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth am yr effeithiau hyn wedi'i nodi yn Natganiad Amgylcheddol yr

ymgeisydd, dyddiedig Mehefin 2018. Lle mae tystiolaeth arall am yr effeithiau yn berthnasol, cyfeirir at hyn yn y testun.

**Effeithiau uniongyrchol ar olion archeolegol**

4.2.2 Mae ymchwil archeolegol, a oedd yn cynnwys asesu wrth ddesg, archwilio geoffisegol a gwerthuso ymwthiol, wedi dangos bod olion archeolegol helaeth yn bresennol o fewn y Prif Safle Datblygu, yn dyddio rhwng y cyfnod cynhanesyddol diweddar a'r cyfnod modern. Mae'r safleoedd mwyaf arwyddocaol o blith y rhain wedi'u canfod o fewn y Prif Safle Datblygu ar Drwyn yr Wylfa a Safle 05 De, lle arsylwyd olion o bwysigrwydd cenedlaethol. Rhagwelir y bydd olion eraill o fewn y Prif Safle Datblygu yn rhai o arwyddocâd lleol neu ranbarthol.

4.2.3 Mae Horizon wedi cynnal arolygon helaeth wrth ddesg ac yn y maes a ddylai roi dealltwriaeth glir o raddau'r olion a'u harwyddocâd o ran treftadaeth o fewn y Prif Safle Datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd yn llwyr adlewyrchu graddau neu ganfyddiadau'r arolygon hyn ac mae ei ddull o werthuso olion archeolegol yn amheus. Mae'r prif bryderon yn cynnwys:

a) Nid yw'r dull o gyflwyno canlyniadau'r gwaith maes archeolegol yn y Datganiad Amgylcheddol yn adlewyrchu'r holl waith maes sydd wedi'i gyflawni hyd yma.

b) Nid yw'r Datganiad Amgylcheddol yn ymdrin yn effeithiol â chanlyniadau'r gwaith archeolegol ond yn canolbwyntio yn hytrach ar asesu effeithiau ar Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol unigol sydd yn aml yn cynnwys elfennau o asedau treftadaeth mwy helaeth ac arwyddocaol.

c) Nid yw'r Datganiad Amgylcheddol wedi mabwysiadu cynllun pennu gwerth sy'n cydweddu'n glir â'r ddealltwriaeth o arwyddocâd treftadaeth sydd wedi'i chyflwyno yn NPS EN-1[37] (para. 5.8.2) neu Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011)[38].

4.2.4 Mae goblygiadau'r pryderon cyffredinol hyn, lle maent yn berthnasol i'r Adroddiad Effaith Leol hwn, wedi'u disgrifio'n fanylach isod. Yn y drafodaeth hon, cyfeirir at asedau treftadaeth penodol wrth eu rhif yn rhestr y Datganiad Amgylcheddol a hefyd wrth eu cofnod amgylchedd hanesyddol neu rif cyfeirio dynodiad os yw'r rhain yn bodoli.

4.2.5 Byddai'r datblygiad arfaethedig, sydd wedi'i ddisgrifio yn y cais am GCD, i bob pwrpas yn caniatáu symud unrhyw olion archeolegol a'r cyfan ohonynt o fewn ffin y Prif Safle Datblygu, heblaw mewn ardaloedd fel SoDdGA Tre'r Gof lle mae gwaith peirianyddol ymwthiol wedi'i wahardd yn benodol.

4.2.6 Byddai symud yr olion archeolegol o arwyddocâd cenedlaethol cydnabyddedig (neu 'high importance' ym methodoleg asesu'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd) yn yr anheddiad Brythonaidd-Rufeinig yn Tyddyn Gele (Ased 547: nid yw'n glir yn y Datganiad Amgylcheddol a yw hyn yn cynnwys Asedau 566, 567, 568 a 569) a'r fynwent ganoloesol gynnar yn Porth Wylfa (Ased 580; dim cyfeirnod cofnod amgylchedd hanesyddol) yn peri niwed sylweddol i arwyddocâd olion archeolegol sydd o arwyddocâd cyfatebol i heneb gofrestredig drwy golli diddordeb archeolegol a hanesyddol. Mae'r Anheddiad Rhufeinig yn Porth-yr-Ogof (Ased 573), y safle

---

[37] Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1) (Link)
[38] Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011) (Link)

prosesu fflint i'r Gorllewin o Borth Wylfa (Ased 579) a'r Fynwent Clostir a Chist yn Pennant (Ased 205) hefyd wedi'u hasesu'n rhai 'high importance' yn y Datganiad Amgylcheddol; dylid cadarnhau a yw'r asesiad hwn yn golygu bod yr asedau hyn hefyd yn cael eu hystyried yn rhai o arwyddocâd cyfatebol i henebion cofrestredig. Yn y cyd-destun hwn, am nad yw canlyniadau'r gwaith archeolegol a gyflawnwyd hyd yma wedi cael eu hintegreiddio, mae'n ymddangos yn bosibl bod yr asesiad o werth nodweddion sy'n agos i Ased 579, ac a all fod yn gysylltiedig ag ef, sydd wedi'u hasesu fesul un yn rhai o bwysigrwydd dibwys i ganolig, yn wallus. Dylid egluro a yw'r nodweddion hyn yn rhan o dirwedd archeolegol ehangach a phwysicach. Am mai ychydig o sylw a roddwyd yn y Datganiad Amgylcheddol i'r dull seiliedig ar arwyddocâd a amlinellwyd yn NPS EN-1 a'r Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011), mae'r cyfraniad gan ddiddordeb hanesyddol yr asedau treftadaeth hyn at eu harwyddocâd wedi'i anwybyddu'n llwyr. Byddai dileu'r safleoedd hyn yn cael ei ystyried yn effaith Negyddol, hyd yn oed lle gellid sicrhau camau lliniaru priodol drwy gofnodi.

4.2.7 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi safle cwymp awyren Bristol Beaufighter (Ased 185, NMR 240139) y byddai'r gwaith adeiladu yn ymyrryd ag ef. Gellid dynodi'r olion hyn yn safle a reolir o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986. Er y byddai'n bosibl lliniaru'r effeithiau o golli diddordeb archeolegol a hanesyddol, byddai angen ymgynghori ymhellach â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod modd cyflawni unrhyw rwymedigaethau statudol, yn enwedig lle na adferwyd gweddillion y rhai a laddwyd ar adeg y cwymp. Polisi presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn yw gwrthod trwydded o dan Ddeddf Diogelu Olion Milwrol lle na ellir dangos nad yw gweddillion dynol yn bresennol. Ar yr amod bod modd cyflawni rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Olion Milwrol, er boddhad y Weinyddiaeth Amddiffyn, a bod camau lliniaru priodol wedi'u cymryd, byddai hyn yn cael ei ystyried yn effaith Niwtral.

4.2.8 Mewn achosion eraill, byddai symud y cyfan o olion archeolegol sydd o werth lleol neu ranbarthol o ran eu diddordeb archeolegol a hanesyddol, yn niffyg camau lliniaru, yn arwain at golli arwyddocâd treftadaeth sy'n deillio o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol. Gellid lliniaru effeithiau'r golled hon, i ryw raddau, drwy gynllun ymchwil archeolegol a gytunir (gweler 4.4.1 – 4.4.8 0 isod) a fyddai'n sicrhau bod modd ymchwilio i'r asedau treftadaeth hyn a'u cofnodi mewn ffordd briodol. Yn dilyn camau lliniaru priodol, bernir y bydd yr effeithiau hyn yn Niwtral.

### Effeithiau uniongyrchol ar dreftadaeth adeiledig

4.2.9 Byddai'r gwaith arfaethedig i glirio'r Prif Safle Datblygu yn arwain at golli tri adeilad hanesyddol sydd heb ddynodiad. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi asesu bod Nant Orman, Cemaes (Ased 138; HER 36611), a Tre'r Gof Uchaf, Cemaes (Ased 163; HER 36610) o werth canolig; mae Tyddyn Gele, Garej a Thai Allan (Ased 263) yn cael ei ystyried yn adeilad o werth isel.

4.2.10 Mae cynllun pennu gwerth y Datganiad Amgylcheddol yn awgrymu mai gwerth canolig sydd i adeiladau hanesyddol heb ddynodiad, sef yr un gwerth a roddir i adeiladau rhestredig. Mae hyn yn awgrymu y dylai colli'r adeiladau hyn gael ei drin fel niwed sylweddol i arwyddocâd ased treftadaeth a ddynodwyd yn unol ag NPS EN-1 para. 5.8.14 a 5.8.15. Fodd bynnag, gan nad yw'r gwerthoedd hyn wedi'u pennu gyda golwg ar y dull seiliedig ar arwyddocâd a ddisgrifiwyd yn NPS EN-1 a'r Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011), mae'n anodd iawn cadarnhau a ydynt yn gywir ac a yw'r maen prawf polisi a nodwyd yn NPS EN-1 yn briodol.

4.2.11 Credir bod Nant Orman yn dyddio o ddechrau'r cyfnod Fictoraidd ac fe'i cofnodwyd fel cartref i Ishmael Jones, llongwr ac adeiladwr llongau blaenllaw yng Nghemaes ar ganol y 19 ganrif (Cooke *et al.* 2009)[39]; cofnodwyd bod y gwaith coed y tu mewn i'r adeilad yn anarferol. Gellid ystyried bod ei ansawdd yn cyfiawnhau ei restru oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol, ond mae'n anodd iawn pennu ei werth yn hyn o beth gan nad yw'r cais yn darparu gwybodaeth fanwl.

4.2.12 Nodwyd bod Tre'r Gof Uchaf o arwyddocâd canolig, er bod y cofnod HER ar gyfer y safle hwn, sydd wedi'i grybwyll yn yr Adroddiad Llinell Sylfaen Treftadaeth Ddiwylliannol (Atodiad D.11-1; APP-203 ac APP-204) yn nodi bod y tŷ hanesyddol o'r enw hwn a ddangosir ar fapiau hanesyddol o'r 19 ganrif wedi cael ei ddymchwel yn y blynyddoedd diwethaf, ac nad yw'n ymddangos ar fapiau Arolwg Ordnans tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd – mae'n ymddangos bod y tŷ presennol yn dyddio o ddiwedd yr 20 ganrif. Nid yw'n ymddangos yn debygol bod y tŷ hwn yn un y gellid ei ystyried yn ased treftadaeth neu'n un o ansawdd sy'n teilyngu ei restru.

4.2.13 Credir bod y ffermdy yn Tyddyn Gele yn dyddio o 1780, er nad oes cyfeiriad at ffynhonnell ar gyfer y dyddiad hwn (Cook *et al.* 2009). Er bod newidiadau helaeth wedi'u gwneud i'r adeilad hwn a'i bod yn bosibl bod y gwerth isel a briodolwyd iddo'n gywir, os yw elfennau cynnar wedi goroesi ar ffurf gydlynol, mae'n bosibl y gallai fod o ansawdd sy'n cyfiawnhau ei restru oherwydd ei werth archeolegol, pensaernïol a hanesyddol. Gan na ddarparwyd gwybodaeth fanwl o arolwg, nid oes modd asesu'r gwerth a briodolwyd iddo yn y Datganiad Amgylcheddol ymhellach.

4.2.14 Nid yw'n ymddangos y byddai colli Tre'r Gof Uchaf yn arwain at effaith niweidiol. Byddai colli'r adeiladau sydd heb ddynodiad yn Tyddyn Gele a Nant Orman, heb gymryd camau lliniaru pellach, yn effeithiau Negyddol, a gallai hyn alw am ystyried defnyddio'r meini prawf polisi am niwed sylweddol yn NPS EN-1. Lle yr aseswyd nad yw'r adeiladau hyn o ansawdd sy'n cyfiawnhau eu rhestru, gellid lliniaru'r effeithiau o'u colli i ryw raddau a byddent yn cael eu hystyried yn effeithiau Niwtral.

### Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar dirweddau hanesyddol a dyluniedig

*Gardd Cestyll*

4.2.15 Mae Gardd Cestyll (HLT 2; GD 45) yn Barc Cofrestredig Gradd II ac yn Ardd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Mae'n cynnwys dwy Ardal Gofrestredig (Gardd y Dyffryn a'r Ardd Gegin, Bwthyn y Garddwr a Llain y Tŷ) sydd o fewn Lleoliad Hanfodol (sy'n cynnwys y dramwyfa wreiddiol at y tŷ). Hefyd mae dwy Olygfa Arwyddocaol allan tua Phorth y Pistyll, un o Ardd y Dyffryn ac un o Lain y Tŷ. Mae Gardd Cestyll wedi cael ei diogelu'n statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'r ardal statudol i gael ei chadarnhau gan Cadw a Llywodraeth Cymru maes o law ond deellir y bydd yn cynnwys y ddwy Ardal Gofrestredig, y rhan fwyaf o'r Lleoliad Hanfodol yn ogystal â Felin Gafnan, adeilad rhestredig Gradd II* ger Afon Cafnan ar gyrion Gardd y Dyffryn.

4.2.16 Byddai'r adeiladu ar y Prif Safle Datblygu, fel y mae wedi'i gynnig ar hyn o bryd, yn arwain at golli un o'r Ardaloedd Cofrestredig yng Ngardd Cestyll (yr Ardd Gegin, Bwthyn y Garddwr a Llain y Tŷ) ynghyd â rhan sylweddol o'i Lleoliad Hanfodol (yn cynnwys y dramwyfa wreiddiol at y Tŷ a wal derfyn cae cyfagos). Byddai effaith hefyd ar y ddwy Olygfa Arwyddocaol o Ardd y Dyffryn a Llain y Tŷ yn ystod y cyfnod

[39] Proposed Nuclear Power Station at Wylfa, Anglesey, North Wales (Cooke *et al.* 2009) [(Link)]

adeiladu, y cyfnod gweithredu ac wedyn. Dylid nodi bod Bwthyn y Garddwr eisoes wedi cael ei ddymchwel yn rhannol gan Horizon a ddechreuodd ei ddymchwel cyn cael ei atal gan GAPS.

4.2.17 Mae'r ased treftadaeth hwn yn sensitif iawn hefyd i effeithiau dirgryndod, llwch a newidiadau yn y llinell sylfaen sŵn. Byddai dirgryndod a llwch yn gallu effeithio ar hyfywedd coed aeddfed a phlanhigion eraill yn yr Ardd. Mae seiniau Afon Cafnan yn rhedeg drwy'r Ardd, a seiniau'r gwynt a'r tonnau'n torri ym Mhorth y Pistyll yn elfennau canfyddiadol allweddol yn yr Ardd a allai fod yn agored i effeithiau sŵn o weithgareddau adeiladu. Byddai lleoliad yr Ardd yn cael ei drawsnewid hefyd gan bresenoldeb clywadwy a gweladwy y gweithgareddau adeiladu, yn cynnwys:

a) colli rhan ogledd-ddwyreiniol lleoliad hanfodol presennol yr ardd yn barhaol ac yn anadferadwy;

b) tomenni pridd D ac E i'r de o'r ardd (gweler WN0902-HZDCO-LFM-DRG-00023; APP-015;

c) presenoldeb y Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r morglawdd cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar y golygfeydd presennol tua'r môr ar draws Porth y Pistyll, yn cynnwys y Golygfeydd Arwyddocaol o Ardd y Dyffryn a Llain y Tŷ (gweler y ddelwedd ffotogyfosod o Wylfan 15 yn Atodiad D10-8; APP-199);

d) y gwaith trin dŵr gwastraff dros dro sydd wedi'i gynnig yn y Lleoliad Hanfodol, yn union i'r gorllewin o'r Ardd Gegin (gweler WN0907-HZCON_LAP-DRG-00023 yn y Cais am Drwydded Forol), nad yw ei effeithiau wedi'u hasesu yn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol D);

e) presenoldeb trechaf llwyfan yr orsaf bŵer yn union i'r dwyrain o'r Ardd.

4.2.18 Byddai'r newidiadau hyn ar y cyd yn gwaethygu'r niwed a fyddai'n codi drwy golli elfennau o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol.

4.2.19 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnig (yn Atodiadau D11-6; APP-213 a D11-8; APP-215) y byddai mesurau lliniaru yn cael eu darparu drwy:

a) cofnodi Adeiladau Hanesyddol Lefel 2;

b) archwilio Tirweddau Hanesyddol Lefel 2;

c) arolwg ffotograffig o'r Ardd a Golygfeydd Arwyddocaol ar eu ffurf bresennol;

d) defnyddio "*deunyddiau priodol*" i adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r morgloddiau;

e) trawsleoli'r coed afalau Lady's Finger of Lancaster o Ardd Gegin Cestyll;

f) ymrwymiad i gytuno â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw a GAPS ar ddyfeisio mesurau tirweddu priodol i adfer a/neu wella lleoliad blaenorol yr Ardd Gegin;

g) monitro pH y pridd ac archwilio cyflwr planhigion yn ystod y gwaith cloddio mawr yn y cyfnod adeiladu;

h) ymrwymiad i gynnal trafodaethau â pherchnogion tir a phartïon cysylltiedig eraill i ystyried mesurau gwella priodol fel mwy o ddehongli (e.e. hysbysfyrddau dehongli ar y safle yng Ngardd y Dyffryn), gwella mynediad gan y cyhoedd i Ardd y Dyffryn, gwaith cynnal rheolaidd ac adfer Gardd y Dyffryn.

4.2.20 Mae CSYM yn pryderu bod y diffyg manylion yn yr holl gynigion hyn yn golygu nad oes modd asesu effeithiolrwydd y camau lliniaru hyn yn llawn. Byddai graddfa'r adeiledd hanesyddol a gollir hefyd yn golygu mai lliniaru rhannol, ar y gorau, fyddai unrhyw gamau i wneud iawn am unrhyw niwed. Byddai effeithiau niweidiol yn parhau hefyd drwy gyfnodau gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad arfaethedig, yn cynnwys newid parhaol yn y forlin ym Mhorth y Pistyll yn dilyn adeiladu'r morgloddiau a'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a phresenoldeb llwyfan yr Orsaf Bŵer, a fyddai'n bresenoldeb parhaol a threchol na chynigiwyd camau i liniaru ei effaith.

4.2.21 Mae CSYM yn credu y byddai'r newidiadau hyn yn arwain at effaith Negyddol a fyddai'n peri niwed sylweddol i arwyddocâd yr ased treftadaeth hwn yn ystod y cyfnod adeiladu o 10 mlynedd a fyddai'n parhau yn ystod cyfnod gweithredu'r datblygiad arfaethedig ac wedyn.

4.2.22 Rhaid i unrhyw niwed o'r fath fod yn eithriadol ac wedi'i gyfiawnhau'n glir ac yn argyhoeddiadol a'i fantoli yn erbyn y budd i'r cyhoedd o'r datblygiad (NPS EN-1, para 5.8.14). Fodd bynnag, mae CSYM o'r farn nad yw Horizon wedi darparu cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros y niwed sylweddol a achosir i Ardd Cestyll ac nad yw eto wedi dangos bod colli'r adeiledd hanesyddol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau buddion sylweddol y datblygiad i'r cyhoedd. Yn wir, mae CSYM yn credu y gellid gweithredu'n rhesymol i ddiwygio'r cynllun a chynnwys mesurau ychwanegol a fyddai'n osgoi colli adeiledd hanesyddol ac, felly, yn lleihau'r effeithiau ar Ardd Cestyll a ragfynegwyd.

4.2.23 Er enghraifft, ni roddwyd cyfiawnhad llawn dros golli'r Ardd Gegin, Bwthyn y Garddwr, Llain y Tŷ a rhannau o'r Lleoliad Hanfodol (ar gyfer man gosod i lawr a gwaith trin dŵr gwastraff) a gellid osgoi hyn. Mae'r cyfiawnhad presennol dros y man gosod i lawr hwn yn y Datganiad Cynllunio (para 6.4.208, Dogfen 8.1; APP-406) yn datgan: "*There are no alternative locations that could accommodate the construction laydown area that would result in the loss. It needs to be in this location to provide access to the western breakwater, with all other areas adjacent to Porth-y-pistyll bay required to support proposals such as the MOLF. Repositioning the laydown area further away from Cestyll Gardens would require other laydown areas within WNDA to be repositioned, which would be likely to encroach on the Tre'r Gof SSSI*". Ar safle cymaint â hwn, dylai fod yn bosibl newid man gosod i lawr ar ochr orllewinol y safle heb beri i fannau gosod i lawr ar ochr ddwyreiniol y safle ennill ar dir y SoDdGA. Felly, mae'n ymddangos bod hyn yn ymgais i gyfiawnhau lleoliad y man gosod i lawr yn ôl-weithredol ac nid yw'n gyfiawnhad dros yr angen iddo fod yn y lleoliad hwn. Ni roddwyd cyfiawnhad dros leoli'r gwaith trin dŵr gwastraff dros dro o fewn y Lleoliad Hanfodol na thros golli'r dramwyfa wreiddiol at y Tŷ a therfyn y cae cyfagos. Yr argraff a gafodd CSYM drwy gydol y broses ymgynghori yw bod y prosiect wedi'i gynllunio i osgoi effeithiau uniongyrchol ar Ardd y Dyffryn ond heb roi sylw i'r angen i osgoi effeithiau uniongyrchol ar unrhyw rannau eraill o Ardd Cestyll a'i Lleoliad Hanfodol, er gwaethaf ei statws Cofrestredig Gradd II a'r amddiffyniad statudol a roddir iddi'n awr.

4.2.24 Mae CSYM yn credu y bydd rhai o'r mesurau lliniaru a gynigiwyd yn galw am addasiadau bach i gynllun y Prosiect, o fewn y paramedrau a gynigiwyd. Er enghraifft, un o'r camau lliniaru yw'r ymrwymiad a ddatganwyd i adfer a/neu wella lleoliad blaenorol yr Ardd Gegin. Mae'r manylion presennol am adfer sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (LHMS, Dogfen 8.16; APP-424 a APP-425) yn awgrymu y byddai lleoliad yr Ardd Gegin wedi'i gladdu o dan lethr

goediog serth (gweler Ffigur 6-11c ar dudalen 96 o LHMS, Dogfen 8.16; APP-424 ac APP-425 sy'n dangos y llethr goediog serth ond nid lleoliad yr Ardd Gegin), fel na fyddai modd adfer neu wella'r Ardd Gegin. Fodd bynnag, byddai'r dull paramedrau yn caniatáu creu tirffurf mwy priodol yn y lleoliad hwn a fyddai'n rhoi'r gallu i adfer yr Ardd Gegin, Bwthyn y Garddwr, Llain y Tŷ a'r Lleoliad Hanfodol yn llwyr. Uchder mwyaf llwyfan yr Orsaf Bŵer ar ei bwynt agosaf i'r Ardd Gegin (Parth 1B) yw 22m uwchlaw'r Datwm Ordnans a'i uchder lleiaf yw 6m uwchlaw'r Datwm Ordnans (Tabl WN5, GCD drafft). Y lefelau o gwmpas yr Ardd Gegin yw tua 12m uwchlaw'r Datwm Ordnans, sy'n golygu y byddai uchder terfynol llwyfan yr Orsaf Bŵer ger yr Ardd Gegin yn gallu bod rhwng oddeutu 10m yn uwch a 6m yn is na lefelau presennol y tir o gwmpas yr Ardd Gegin. Mae'r LHMS wedi cymryd mai lefel y llwyfan gorffenedig fydd 18m uwchlaw'r Datwm Ordnans ac, felly, mae'n dangos arglawdd coediog serth dros yr Ardd Gegin, rhwng ymyl llwyfan yr Orsaf Bŵer a Gardd y Dyffryn (fel y mae Ffigur 6-11c ar dudalen 96 o LHMS, Dogfen 8.16 yn dangos). Fodd bynnag, pe byddai uchder terfynol llwyfan yr Orsaf Bŵer ar y lefelau tir presennol, neu ddim ond ychydig yn uwch neu'n is na'r rhain, o gwmpas yr Ardd Gegin, yna, hyd yn oed os gellir cyfiawnhau colli'r Ardd Gegin, Bwthyn y Garddwr, Llain y Tŷ a rhan o'r Lleoliad Hanfodol yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai modd ailosod yr elfennau hyn yng Ngardd Cestyll a'u hadfer i'w cyflwr gwreiddiol ar ôl i'r angen am y man gosod i lawr a'r gwaith trin dŵr gwastraff ddod i ben. Dylid adfer yr elfennau hyn drwy ddefnyddio'r deunyddiau presennol a gedwir ar y safle i'r diben hwn.

4.2.25 Gellid osgoi colli'r dramwyfa wreiddiol at y Tŷ a therfyn y cae cyfagos (ar hyd ymyl Tomen D) drwy dynnu blaen troed Tomen D yn ôl i osgoi ennill ar dir yr asedau hanesyddol hyn. Byddai modd cyflawni hyn drwy wneud y llethrau ar ochr orllewinol Tomen D ychydig yn fwy serth. Ni fyddai angen lleihau uchder (h.y. effeithiau sgrinio) Tomen D.

4.2.26 Yn ogystal â hyn, mae CSYM yn credu nad yw'r mesurau lliniaru a gynigiwyd yn ddigon i leihau'r effeithiau eraill ar Ardd Cestyll a fydd yn codi, er enghraifft, o ganlyniad i ddirgryndod, llwch, sŵn a goleuadau yn ystod y cyfnod adeiladu, unrhyw newidiadau yn ansawdd dŵr a phresenoldeb yr Orsaf Bŵer a'r Gwaith Morol drwy gydol y cyfnod gweithredu. Mae'n debygol y bydd yr effeithiau hyn yn fwy nag a ragwelwyd yn y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrolau D ac I) o ganlyniad i dynnu rhan helaeth o'r llain o goed aeddfed o fewn yr Ardd yn ddiweddar, gan y byddai'r rhain wedi lliniaru rhai o'r effeithiau hyn ar Ardd y Dyffryn yn rhannol.

4.2.27 Dylid disgrifio'r holl fesurau lliniaru hyn mewn Cynllun Rheoli Cadwraeth manwl ar gyfer Gardd Cestyll (4.1.14 isod) er mwyn sicrhau bod mesurau priodol ar gyfer adfer a gwella wedi'u pennu a'u sicrhau. Ar ôl cymryd y camau lliniaru y cytunir arnynt, byddai unrhyw niwed a geir yn llai ond byddai'r effaith yn parhau'n Negyddol.

4.2.28 Fel y nodwyd uchod, rydym yn deall bod Cadw wrthi'n adolygu ffin yr ardal ddynodedig i adlewyrchu newidiadau yn y system dynodi yn unol â darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a fyddai'n rhoi'r dynodiad hwn ar sail statudol. Er na chyhoeddwyd y canlyniadau i adolygiad Cadw, rydym yn deall na fyddai'n effeithio ar gasgliadau'r asesiad sydd wedi'i gyflwyno yn yr Adroddiad Effaith Leol hwn.

4.2.29 Bydd CSYM yn disgwyl i'r holl fesurau lliniaru a awgrymwyd gan Horizon a chan CSYM, Cadw, WHGT ac eraill gael eu sicrhau drwy'r GCD (gweler Adran 4.4.14 – 4.4.20 isod). Yn ogystal â hyn, mae CSYM o'r farn nad yw'r mesurau lliniaru a

gynigiwyd yn ddigon i gydbwyso'r colledion a'r effeithiau a nodwyd ac y dylid datblygu mesurau lliniaru ychwanegol a fyddai'n lleihau ac yn cydbwyso'r effeithiau ar Ardd Cestyll a ragwelir.

*Tirwedd Ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe*

4.2.30 Dyluniwyd y dirwedd o gwmpas yr Orsaf Bŵer Wylfa bresennol (HLT 3) gan y Fonesig Sylvia Crowe, un o benseiri tirwedd amlycaf yr 20 ganrif a arloesodd ar yr egwyddorion ar gyfer cymathu adeiladweithiau mawr â'r dirwedd. Mae arwyddocâd treftadaeth i'r Orsaf Bŵer a'r dirwedd a ddyluniwyd ar ei chyfer oherwydd eu diddordeb pensaernïol, diwylliannol a hanesyddol ac mae hyn wedi'i gydnabod yn *LANDMAP* sy'n pennu bod gwerth yr Orsaf Bŵer Wylfa bresennol (yn cynnwys ei thirwedd ddyluniedig) yn eithriadol ar sail ei hagweddau hanesyddol a diwylliannol. Maent yn enghreifftiau o'r modd y mae dulliau dylunio tirwedd cyfoes yn gallu creu ymdeimlad o gytgord rhwng strwythurau gwneuthuredig a'r dirwedd o'u cwmpas. Mae ei dyluniad yn cynnwys tomenni bach, gwneuthuredig tebyg i ddrymlin sy'n dynwared y dirwedd drymliniau naturiol o gwmpas y safle, ac maent wedi'u gorchuddio gan goetir trwchus. Mae'r rhain yn lleihau ymyrraeth weledol drwy sgrinio blerwch lefel isel a lleihau graddfa ymddangosiadol yr Orsaf Bŵer. Maent hefyd yn fframio golygfeydd o'r Orsaf Bŵer, gan adael i'r adweithydd ac adeiladau'r tyrbinau sefyll yn glir ar wahân, a chaniatáu cipolygon dethol o gyfadeilad ehangach yr Orsaf Bŵer, i ddathlu llwyddiannau'r oes niwclear.

4.2.31 Darparwyd asesiad o arwyddocâd y dirwedd a ddyluniwyd gan y Fonesig Sylvia Crowe yn y Datganiad Amgylcheddol (Atodiad D11-5; APP-212). Mae CSYM yn cytuno bod gwerth hanesyddol mawr iddi (gan ei bod wedi'i dylunio gan y Fonesig Sylvia Crowe, pensaer tirweddu blaenllaw ac arloesol) ac mae iddi werth mawr fel tystiolaeth (mae tystiolaeth ddogfennol gynhwysfawr o'i hathroniaeth dylunio a'i hamcanion ar gyfer y safle). Fodd bynnag, mae CSYM yn credu hefyd fod ei gwerth aesthetig yn uchel (yn hytrach na chanolig). Nid yw Horizon wedi darparu arolwg o'r dirwedd ddyluniedig hon. Er hynny, mae arolwg coed o'r tomenni coediog wedi'i gynnwys yng nghais National Grid am GCD ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru (Dogfen 5.30). Ceir awgrym wrth gymharu hyn â chynlluniau plannu Sylvia Crowe yn y 1960au fod ei gweledigaeth wreiddiol wedi'i gwireddu a bod ei thirwedd ddyluniedig wedi aros yn gyfan gan mwyaf. Er ei bod yn bosibl bod angen cymryd camau i reoli'r coetir, mae hefyd yn glir ei fod yn parhau i gyflawni ei ddibenion gwreiddiol – heb y tomenni a'r coetir, byddai aestheteg ac effaith yr Orsaf Bŵer Wylfa bresennol yn wahanol iawn.

4.2.32 Felly, er nad yw'r dirwedd ddyluniedig hon yn Barc a Gardd Gofrestredig o Ddiddordeb Arbennig neu Eithriadol yng Nghymru (yn wahanol i'r dirwedd a ddyluniwyd gan Sylvia Crowe o gwmpas Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri), mae CSYM yn credu bod arwyddocâd y dirwedd a ddyluniwyd gan y Fonesig Sylvia Crowe yn uchel yn hytrach na chanolig (fel y cafodd ei hasesu gan Horizon yn y Datganiad Amgylcheddol, Atodiad D11-5; APP-212). O ganlyniad i hyn, mae hefyd yn ymddangos y byddai'r effeithiau ar HLT 3 yn fwy na'r hyn a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol (Atodiad D11-6; APP-213 a Phennod D11; APP-130). Er mai'r unig elfennau o'r dirwedd ddyluniedig a gollir yn uniongyrchol o ganlyniad i ddatblygu gorsaf bŵer Wylfa Newydd fyddai'r waliau cerrig a'r plannu arall i'r de o'r tomenni, byddai newid ffurf a phatrwm gorsafoedd pŵer yr Wylfa yn effeithio'n barhaol ac yn sylfaenol ar y berthynas rhwng tirwedd ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe, yr Orsaf Bŵer Wylfa bresennol a'r dirwedd o'u cwmpas, gan

effeithio ar elfennau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol, a chreu effaith Negyddol. Byddai'r effaith hon ar ei mwyaf yn ystod y cyfnod adeiladu pan fyddai'r gweithgarwch adeiladu yn yr ardal ym mlaen y golygfeydd tua adeiladau'r orsaf bŵer bresennol a'r dirwedd ddyluniedig yn amlwg iawn, er y byddai presenoldeb parhaol gorsaf bŵer Wylfa Newydd yn golygu y byddai effeithiau Negyddol yn parhau drwy gydol y cyfnod gweithredu. Byddai'r golled o ran y brigiadau creigiog neilltuol yn y bae sy'n cyfrannu at ei gymeriad a'i ymddangosiad naturiol yn parhau ar ôl y cyfnod datgomisiynu ac, am nad oes manylion am y dull o drin y morgloddiau ar ôl y cyfnod datgomisiynu, mae'n ymddangos yn debygol y bydd yr effeithiau hyn yn parhau, er y byddant yn llai, ar ôl y cyfnod gweithredu.

4.2.33 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnig camau i liniaru'r effeithiau ar yr ased treftadaeth hwn drwy gofnodi ac mae ymrwymiad yn yr LHMS i gynnal a gwella 17 ha o goetir i'r dwyrain o'r orsaf bŵer bresennol ar domenni coediog y Fonesig Sylvia Crowe (para 6.5.17, LHMS, Dogfen 8.16; APP-424 ac APP-425). Er hynny, nid yw'n glir sut y byddai cofnodi'n lliniaru'r effaith o golli diddordeb hanesyddol neu bensaernïol ac awgrymir disgrifio'r mesurau lliniaru hynny mewn Cynllun Rheoli Cadwraeth manwl (gweler 4.4.15 isod) i sicrhau bod mesurau adfer a gwella priodol yn cael eu pennu a'u cyflawni. Os bydd camau priodol yn cael eu cymryd i liniaru effeithiau ar y dirwedd, gallai'r effaith o orsaf bŵer Wylfa Newydd (ar ei phen ei hun) fod yn Niwtral.

4.2.34 Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol I) wedi ystyried yn drwyadl yr effeithiau o gais National Grid am GCD ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru sy'n cynnig torri ystod o goed drwy ganol y coetir ar y fwyaf o'r ddwy domen. Er bod National Grid wedi nodi llain gymharol gul lle byddai coed yn cael eu torri ac yn profi effeithiau ar ddwy ochr y llinell bŵer uwchben bresennol (sydd wedi'i dangos yn Nogfen 4.11 a Dogfen 5.7.1.17 o gais National Grid am GCD), bydd tynnu coed o ganol y coetir yn peri i goed cyfagos fod yn agored i amodau anghyfarwydd, fel mwy o effeithiau o wynt, gan arwain at golli rhagor o goed o ganlyniad i ergydion y gwynt. Oherwydd oed a chyflwr y coetir a natur wyntog Ynys Môn, mae'n ddigon posibl y bydd effeithiau ergydion gwynt yn fwy pellgyrhaeddol yn yr achos hwn ac y gallent arwain at golli llawer mwy o'r coetir presennol. Byddai hyn yn effeithio ar werthoedd y Dirwedd Ddyluniedig hon yng nghyswllt treftadaeth, tirwedd ac elfennau gweledol ac ecolegol a gallai danseilio gallu Horizon i ddibynnu ar y coetir hwn i liniaru a chydbwyso effeithiau Prosiect Wylfa Newydd a'i effeithiau cronnol ar y cyd â'r orsaf bŵer Wylfa bresennol.

4.2.35 Hyd yn oed os gwneir gwaith tirweddu priodol i liniaru effeithiau ar Dirwedd y Fonesig Sylvia Crowe drwy gynllun rheoli coetir sy'n darparu gwaith adferol a rheolaeth weithredol barhaus, bydd colled net o goed drwy ganol y coetir a byddai'r effaith gronnol o orsaf bŵer Wylfa Newydd a'r orsaf bŵer Wylfa bresennol ar arwyddocâd hanesyddol Tirwedd y Fonesig Sylvia Crowe yn Negyddol. Byddai effeithiau canlyniadol hefyd ar werth ecolegol y coetir ac ar y dirwedd ehangach ac amwynder gweledol sydd wedi'u trafod mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Effaith Leol hwn.

### *Tirweddau hanesyddol eraill*

4.2.36 Rhagwelir na fydd effeithiau niweidiol arwyddocaol pellach ar arwyddocâd tirweddau dynodedig neu hanesyddol. Rhagwelir y bydd effeithiau ar dirweddau hanesyddol a dynodedig eraill yn Niwtral.

## Effeithiau anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y tu allan i'r safle

4.2.37 Mae'n bosibl y bydd gwaith adeiladu ar y Prif Safle Datblygu a'r datblygu a geir o ganlyniad i'w weithredu yn creu newid amlwg a phellgyrhaeddol yn lleoliadau asedau treftadaeth cyfagos. Lle mae'r newid hwn yn effeithio ar y cyfraniad gan leoliad asedau treftadaeth at arwyddocâd, gall hyn arwain at effaith negyddol.

4.2.38 Y Felin Ŷd restredig Gradd II* yn Felin Gafnan (Ased 137, LB 24416) fyddai'n profi'r newid mwyaf. Mae hon yn ased treftadaeth sydd o'r arwyddocâd mwyaf (yn ôl y diffiniad yn NPS EN-1, 5.8.15) oherwydd diddordebau hanesyddol, archeolegol a phensaernïol. Wrth adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol, gallai'r adeiladwaith hwn fod yn agored i effeithiau dirgrynu o weithrediadau gosod pyst sy'n ddigon cryf i achosi difrod ffisegol i'r adeiladwaith. Oherwydd natur frau'r ased hwn a'r peiriannau y tu mewn iddo, byddai'r effaith hon ar ei phen ei hun yn gallu achosi niwed sylweddol i'w arwyddocâd, fel ei bod yn effaith Negyddol.

4.2.39 Hyd yn oed lle gellid osgoi difrod ffisegol o ganlyniad i ddirgryndod, byddai niwed i elfennau o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol oherwydd newid yn y lleoliad yn gallu achosi niwed sylweddol neu bron yn sylweddol. Ni ellir gwahanu newid yn lleoliad y Felin Ŷd oddi wrth yr effeithiau dichonol ar Ardd Cestyll; bydd y gwyliwr yn gweld y ddau ased hyn yn yr un cyd-destun, a chyrhaeddir y Felin drwy Ardd Cestyll. Mae'r lleoliad presennol wedi'i ddiffinio gan ei leoliad ar gyrion Gardd Cestyll lle mae Afon Cafnan yn llifo i Borth y Pistyll a byddai'n cael ei drawsnewid yn llwyr gan y gweithgareddau gweladwy a chlywadwy sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol ac elfennau eraill y prif safle. Yn yr un modd â Gardd Cestyll, mae'r ased hwn yn sensitif iawn i newidiadau yn y llinell sylfaen sŵn. Er na fyddai'r newid yn y dirwedd yn y cylch ehangach o gwmpas yr ased yn ystod y cyfnod adeiladu yn uniongyrchol weladwy o'r ased, byddai'n cael effaith ychwanegol ar ddealltwriaeth y gwyliwr o gyd-destun y safle, gan leihau ei ddiddordeb hanesyddol. Byddai'r newid hwn yn lleihau ychydig wedi i'r gweithgarwch adeiladu ddod i ben, er y byddai'r niwed sy'n codi o'r newid yn y lleoliad o ganlyniad i'r gallu i weld morgloddiau'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r newid yn ffurf Porth y Pistyll yn parhau drwy gydol cyfnod gweithredu'r datblygiad arfaethedig. Byddai'r effaith hon yn parhau'n Negyddol.

4.2.40 Adeiladau rhestredig eraill yn Felin Gafnan yw'r Tŷ Sychu Ŷd rhestredig Gradd II (Ased 141, LB 24417) a Thŷ'r Felin (Ased 144, LB 24418). Byddai lleoliad yr asedau treftadaeth hyn hefyd yn newid yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig, oherwydd y gallu i weld gweithgareddau adeiladu a'r datblygiad gorffenedig mewn golygfeydd tuag at ac oddi wrth yr asedau treftadaeth hyn a'r gallu i glywed sŵn ymwthiol o weithgareddau adeiladu. Byddai'r newid niweidiol hwn yn ddigon i beri niwed i arwyddocâd a byddai'n achosi effeithiau Negyddol.

4.2.41 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnig osgoi effeithiau dirgryndod ar Felin Ŷd Felin Gafnan drwy fabwysiadu rheolaethau amhenodol ar weithgareddau a all achosi difrod. Derbynnir egwyddor y camau lliniaru hyn ond bydd angen rhagor o fanylion i gael sicrwydd y byddai'r camau lliniaru hyn yn briodol ac effeithiol (4.5.21 isod) cyn dod i gasgliadau pendant ynghylch maint tebygol yr effeithiau.

4.2.42 Byddai angen rhagor o gamau i liniaru colled yn niddordebau pensaernïol a hanesyddol yr adeiladau rhestredig yn Felin Gafnan er bod CSYM yn credu ei bod yn annhebygol y byddai camau lliniaru o'r fath yn effeithiol oherwydd maint yr effaith debygol. Fodd bynnag, y gofyniad lleiaf gan CSYM yw y byddai unrhyw Gynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer Gardd Cestyll hefyd yn ystyried lleoliad yr asedau treftadaeth hyn.

4.2.43 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi y byddai eglwys restredig Gradd II St Padrig yn Llanbadrig (Ased 174, LB 5356) yn profi newid niweidiol o ganlyniad i'r gallu i weld a chlywed gweithgareddau adeiladu yn yr Wylfa. Er ei fod yn nodi y bydd sŵn yn cyfrannu'n helaeth at unrhyw effaith niweidiol, nid oes datganiad am y dull o ragfynegi'r lefelau sŵn nac am ba elfennau penodol yn y gwaith adeiladu a fyddai'n cynyddu sŵn. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd yr effaith hon yn peri niwed i arwyddocâd yr ased, fel ei bod yn effaith Negyddol.

4.2.44 Gan na ddarparwyd trafodaeth ystyrlon am effeithiau sŵn adeiladu neu am y ddealltwriaeth o newid yn lleoliadau asedau treftadaeth, nid oes modd dilysu casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol na fyddai effaith ar adeiladau rhestredig eraill yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig. Mae CSYM yn credu y byddai rhywfaint o niwed i arwyddocâd yr Hen Ffermdy yn Plas Cemlyn (Ased 215; LB 24415) yn ystod y cyfnod adeiladu o ganlyniad i newid gweladwy a chlywadwy yn y lleoliad oherwydd gweithgareddau adeiladu. Byddai'r effaith hon yn Negyddol.

## 4.3 Safbwynt Polisi

4.3.1 Mae'r cyfraniad ehangach hwn gan yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gydnabod mewn polisi. Mae'r Datganiad Polisi Cynllunio Cenedlaethol NPS EN-1 yn amlinellu'r cyfraniad cadarnhaol y gellir ei gael gan asedau treftadaeth i gymunedau cynaliadwy a bywiogrwydd economaidd, a'r pwysigrwydd o gynnal a gwella arwyddocâd asedau treftadaeth gan gynnwys y cyfraniad gan eu lleoliadau. Mae Polisi Cynllunio Cymru 2016 (PCC) yn amlinellu pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol i ddiwylliant a chymeriad Cymru, a'i gyfraniad at yr ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol, gan nodi ei bod yn hollbwysig bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi, ei ddiogelu, ei gynnal a'i wneud yn hygyrch er mwyn llesiant cyffredinol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLlC) yn nodi'r cyfraniad gan amgylchedd hanesyddol Ynys Môn i'w hunaniaeth a'i bywyd diwylliannol ac economaidd ac yn amlinellu polisïau i ddiogelu'r cyfraniad hwnnw.

### Effeithiau Uniongyrchol ar adeiladau hanesyddol na ddynodwyd

4.3.2 Mae EN-1 (5.8.5) yn datgan yn glir, lle mae olion archeolegol na ddynodwyd sydd o arwyddocâd cyfwerth ag asedau treftadaeth dynodedig, fod rhaid bodloni'r prawf polisi perthnasol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddangos '…that the substantial harm to or loss of significance is necessary in order to deliver substantial public benefits that outweigh that loss or harm'. Yn y cyd-destun hwn, mae'n peri pryder na chyflwynwyd tystiolaeth glir i ddangos y rheidrwydd i golli'r asedau treftadaeth hyn ac, yn groes i NPS EN-1 (5.8.19), fod y gallu i gofnodi'r asedau treftadaeth hyn wedi'i gyflwyno fel yr unig gyfiawnhad dros eu symud.

4.3.3 Yn achos asedau treftadaeth archeolegol llai eu harwyddocâd, mae NPS EN-1 yn nodi y dylai'r Awdurdod Archwilio ystyried natur ac arwyddocâd unrhyw asedau treftadaeth a allai fod yn agored i effeithiau (5.8.12) a'r dymunoldeb o gynnal a gwella arwyddocâd asedau treftadaeth (5.8.13).

4.3.4 Mae PCC (6.5.5) yn nodi bod cadwraeth asedau treftadaeth yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu cais cynllunio, ac y dylid rhagdybio o blaid cadw asedau treftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol yn eu lle, pa un a yw'r rhain wedi'u dynodi'n henebion cofrestredig neu beidio. Er y dylid mantoli niwed i asedau treftadaeth na ddynodwyd yn erbyn buddion y cynllun arfaethedig, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y

dylid caniatáu niwed i henebion cofrestredig (neu asedau treftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol na ddynodwyd).

4.3.5 Mae Polisi Strategol PS 9 yn y CDLlC yn nodi ym maen prawf 1 fod angen llywio'r datblygu ar gyfer yr orsaf bŵer gan roi sylw i'r holl Bolisïau perthnasol yn y Cynllun. Gyda golwg ar y llety ar ffurf campws i'r gweithwyr adeiladu a gynigiwyd ar gyfer y prif safle, mae maen prawf 5 yn ei gwneud yn ofynnol na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar yr amgylchedd. Mae maen prawf 8 yn nodi'r disgwyliad y bydd patrwm a dyluniad y cynlluniau'n osgoi, yn lleihau, yn lliniaru neu'n cydbwyso effeithiau gweledol, tirweddol ac ecolegol ar yr ardal leol a'r ardal ehangach, a hefyd ar agweddau diwylliannol a hanesyddol ar y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hwy.

4.3.6 Mae'r asedau a'r asesiad o effeithiau ar yr asedau a ddisgrifiwyd uchod yn peri bod angen ystyried gofynion nifer o Bolisïau eraill yn y Cynllun, yn cynnwys Polisi Strategol PS 20 sy'n nodi bod disgwyl y bydd datblygiadau yn cadw ac, os yw'n briodol, yn gwella gwahanol asedau hanesyddol, eu lleoliad a golygfeydd arwyddocaol. Mae'r asedau hanesyddol yn cynnwys ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol. Cyflwynir safbwynt polisi mwy manwl ym Mholisi AT 4, sy'n datgan na ddylid caniatáu ceisiadau a fyddai'n effeithio ar olion archeolegol o bwysigrwydd lleol oni bai fod yr angen am y datblygiad yn bwysicach na'r olion archeolegol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi disgwyliad ym Mholisi EA22 y bydd asesiad yn cael ei gynnal a'i ategu gan waith maes priodol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfynu ar y cais.

4.3.7 Mae NPS EN-1 yn nodi y dylai'r awdurdod archwilio '…require the developer to record and advance understanding of the significance of the heritage asset before it is lost' (5.8.20), er ei fod hefyd yn nodi (5.8.19) na ddylai'r gallu i gofnodi ased treftadaeth gael ei gyflwyno fel cyfiawnhad dros ei golli. Mae PCC yn nodi y gall awdurdodau cynllunio lleol bennu amodau i ddiogelu asedau treftadaeth neu fynnu bod olion archeolegol yn cael eu harchwilio, eu cofnodi a gwybodaeth amdanynt yn cael ei lledaenu os byddai datblygiad yn ymyrryd â nhw (6.5.7). Mae Polisi AT4 o'r CDLlC yn nodi 'Ble mae cynigion yn dderbyniol atodir amod i'r caniatâd yn datgan na ddylid ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad hyd nes y cytunir ar raglen o waith archeolegol.'

4.3.8 Nid oes polisi penodol yn PCC mewn perthynas ag adeiladau na ddynodwyd sydd heb eu pennu'n asedau treftadaeth lleol. Ni fydd polisi wedi'i seilio ar fesurau cyfreithiol penodol i ddiogelu adeiladau rhestredig yn gymwys yn yr achos hwn os na fydd yr adeiladau hyn yn cael eu rhestru'n ffurfiol.

4.3.9 Yn ogystal â'r meini prawf ym Mholisi PS 9 sydd wedi'u disgrifio uchod, mae maen prawf 7 ym Mholisi PS 20 yn ei gwneud yn ofynnol bod ceisiadau yn ystyried effeithiau ar adeiladau o werth pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol sydd heb eu dynodi neu eu diogelu gan ddeddfwriaeth. Mae safbwynt polisi mwy manwl mewn perthynas â maen prawf 7 wedi'i ddisgrifio ym Mholisi AT 3 o'r CDLlC, sy'n egluro 'Bydd angen i ddatblygiad ddiogelu a chwilio am gyfleoedd i wella adeiladau, strwythurau ac ardaloedd lle ceir asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol a fydd yn creu naws cymeriad lleol, hunaniaeth ac amrywiaeth lleol ar draws ardal y Cynllun …' Mae Polisi EA22 yn y Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi disgwyliad cyffredinol y bydd asedau treftadaeth Ynys Môn yn cael eu cadw a'u gwella.

**Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar dirweddau hanesyddol a dynodedig**

4.3.10 Mae NPS EN-1 (5.8.14-15) yn gosod gofyniad penodol mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygu sy'n achosi niwed sylweddol i asedau treftadaeth dynodedig, yn cynnwys Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig Gradd II, lle '…the substantial harm to or loss of significance is necessary in order to deliver substantial public benefits that outweigh that loss or harm'.

4.3.11 Yn ei Ddatganiad Cynllunio (Dogfen 8.1), mae'r Ymgeisydd yn dadlau bod y niwed hwn yn angenrheidiol ac yn anochel er mwyn gwireddu buddion y cynllun (Dogfen 8.1, 6.4.172), gan gyfeirio at Atodiad A i'r Datganiad Cynllunio (4.2.147 – 4.2.152), sy'n nodi'r rhesymau dros leoliad y Cyfleuster Dadlwytho Morol. Mae'r ddadl hon yn ymddangos yn rhesymol, ond nid oes sylfaen dystiolaeth glir yn y cais i'r broses penderfynu a arweiniodd at ddewis ffurf bresennol y Cyfleuster Dadlwytho Morol neu ei leoliad o fewn y safle. Gan fod natur a dwyster yr effaith ar Ardd Cestyll yn ganlyniad uniongyrchol i ddyluniad a lleoliad y Cyfleuster Dadlwytho Morol, mae'r diffyg hwn yn golygu nad oes cyfiawnhad cadarn yn unol ag NPS EN-1 5.8.15. Nid oes cyfeiriad at sail resymegol i ategu'r ddadl bod effeithiau niweidiol sylweddol eraill, yn enwedig yn Safle 05 y De, Trwyn yr Wylfa a Phorth yr Ogof yn bodloni'r prawf hwn.

4.3.12 Gyda golwg ar dirwedd y Fonesig Sylvia Crowe, mae NPS EN-1 yn nodi y dylid ystyried natur ac arwyddocâd unrhyw asedau treftadaeth a all fod yn agored i effeithiau (5.8.12) a'r dymunoldeb o gynnal a gwella arwyddocâd asedau treftadaeth (5.8.13).

4.3.13 Mae PCC yn nodi bod effaith cais am ddatblygu ar barc a gardd ddynodedig yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw benderfyniad cynllunio.

4.3.14 Oherwydd yr effeithiau a ddisgrifiwyd uchod ar Barc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Gradd II Cestyll a thirwedd y Fonesig Sylvia Crowe, mae gofynion Polisi PS 20 yn berthnasol iawn. Fel y nodwyd uchod, mae'r Polisi hwn yn nodi (wrth geisio diwallu'r anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach yn ardal y Cynllun) mai dim ond ceisiadau a fydd yn cadw ac, os yw'n briodol, yn gwella Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig a ganiateir. Oherwydd hyn, mae gofynion Polisi AT 1 hefyd yn berthnasol iawn, gan eu bod yn mynnu bod ceisiadau cynllunio yn cael eu ffurfio ar sail y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, er mwyn diogelu'r asedau hyn. Oherwydd arwyddocâd tirwedd y Fonesig Sylvia Crowe i dreftadaeth leol ar sail ei diddordebau pensaernïol a hanesyddol, mae gofynion Polisi AT3 yn y CDLlC yn berthnasol. Mae'r rhain yn nodi 'Bydd angen i ddatblygiad ddiogelu a chwilio am gyfleoedd i wella adeiladau, strwythurau ac ardaloedd lle ceir asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol a fydd yn creu naws cymeriad lleol, hunaniaeth ac amrywiaeth lleol ar draws ardal y Cynllun…' Mae'r gofynion Polisi hyn yn ychwanegol i'r meini prawf ym Mholisi PS 9 a ddisgrifiwyd uchod. Mae Polisi EA22 yn y Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi disgwyliad cyffredinol y bydd asedau treftadaeth Ynys Môn yn cael eu cadw a'u gwella.

**Effeithiau anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y tu allan i'r safle**

4.3.15 Mae Rheoliadau Seilwaith (Penderfyniadau) 2010 yn pennu gofyniad i'r penderfynwr ystyried y dymunoldeb o gadw adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig a'i lleoliad.

4.3.16 Mae NPS EN-1 (5.8.14) yn nodi'n glir y gellir cael niwed i arwyddocâd o ganlyniad i newid yn lleoliad yr ased treftadaeth.

4.3.17 Mae NPS EN-1 (5.8.14-15) yn gosod gofyniad penodol mai eithriadol fydd datblygu sy'n achosi niwed sylweddol i asedau treftadaeth dynodedig, yn cynnwys adeiladau rhestredig Gradd II, ac mai cwbl eithriadol fydd datblygu sy'n achosi niwed sylweddol i asedau treftadaeth dynodedig sydd â 'the highest significance' (yn cynnwys adeiladau rhestredig Gradd II*). Yn y naill achos a'r llall, ni ddylid caniatáu datblygu oni bai fod '…the substantial harm to or loss of significance is necessary in order to deliver substantial public benefits that outweigh that loss or harm'.

4.3.18 Nodir yn NPS EN-1 (5.8.15) y dylai'r niwed, lle mae'n llai na sylweddol, gael ei fantoli yn erbyn buddion y datblygiad a gynigiwyd. Mae NPS EN-1 (5.8.18) yn nodi ymhellach y dylai'r awdurdod archwilio edrych yn ffafriol ar geisiadau a fyddai'n cadw nodweddion yn lleoliad yr ased sy'n cyfrannu at ei arwyddocâd.

4.3.19 Mae PCC yn nodi y dylai effeithiau datblygu ar adeiladau rhestredig fod yn ystyriaethau perthnasol wrth gynllunio ac y dylai unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur ag effaith y cynigion, a'r effeithiau ar arwyddocâd yr asedau a'u gwerthoedd treftadaeth. Mae hefyd yn nodi y dylai datblygiadau roi sylw i'r dymunoldeb o gadw adeilad rhestredig a'i leoliad, ac mae'n nodi'r meini prawf statudol sy'n berthnasol.

4.3.20 Yn unol â pholisi cenedlaethol a deddfwriaeth (sydd wedi'u disgrifio yn Nhabl 25 o'r CDLlC), mae Polisi PS 20 y CDLlC yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried effeithiau ar y lleoliad ac ar olygfeydd tuag at ac oddi wrth adeiladau ac ardaloedd dynodedig, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, cyn rhoi caniatâd. Felly mae'r effeithiau ar adeiladau rhestredig y tu allan i'r safle a ddisgrifiwyd uchod yn golygu bod Polisi PS 20 yn berthnasol iawn. Mae Polisi AT3 yn y CDLlC yn nodi 'Bydd angen i ddatblygiad ddiogelu a chwilio am gyfleoedd i wella adeiladau, strwythurau ac ardaloedd lle ceir asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol a fydd yn creu naws cymeriad lleol, hunaniaeth ac amrywiaeth lleol ar draws ardal y Cynllun…' Mae Polisi EA22 yn y Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi disgwyliad cyffredinol y bydd asedau treftadaeth Ynys Môn yn cael eu cadw a'u gwella.

**Bylchau mewn Gwybodaeth**

4.3.21 Mae nifer o fylchau mewn gwybodaeth yn y ddogfen ymgeisio mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol. Mae rhai o'r bylchau hyn yn cael effaith sylweddol ar yr ymateb hwn i'r cais, gan ei wneud yn anodd cael dealltwriaeth wybodus o effeithiau dichonol y cynllun a gynigiwyd.

Effeithiau Uniongyrchol ar Olion Archeolegol

4.3.22 Dim ond rhai o'r canlyniadau o'r gwaith archeolegol a gyflawnwyd cyn cyflwyno'r cais am GCD sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Oherwydd hyn, mae'n anodd i CSYM gysoni nodweddion a nodwyd yn y gwaith gwerthuso y rhoddwyd adroddiadau amdanynt â'r rheini a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol. Nid yw'n glir chwaith i ba raddau y mae canlyniadau gwaith maes archeolegol wedi'u hystyried wrth werthuso asedau treftadaeth llai eu harwyddocâd. Mae hyn yn peri pryder neilltuol lle nad yw tystiolaeth ar gael am y safleoedd mwyaf arwyddocaol yn Safle 05 y De a Thrwyn yr Wylfa. Byddai angen cael y wybodaeth ychwanegol hon hefyd i ddatblygu unrhyw gynigion manwl ar gyfer lliniaru effeithiau.

4.3.23 Mae'r ffaith nad oes gwybodaeth ychwanegol am safle cwymp yr awyren Bristol Beaufighter yn peri pryder hefyd. Mae'n bosibl y gellid dynodi'r safle hwn yn ardal a reolir o dan Ddeddf Diogelu Olion Milwrol 1986. Am na chyflawnwyd arolwg desg neu arolwg maes i ddeall natur ac amgylchiadau'r cwymp, a yw corff yr awyren wedi

goroesi neu beidio a'r posibilrwydd bod olion dynol yn bresennol, nid yw arwyddocâd yr olion hyn yn glir.

4.3.24 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn priodoli gwerthoedd i nodweddion unigol heb ystyried yn glir y cyfraniad gan nodweddion cysylltiedig ac mae hyn wedi arwain at danddatgan gwerth yr olion archeolegol. Oherwydd y diffyg sylw i'r fethodoleg seiliedig ar arwyddocâd sydd wedi'i hamlinellu yn Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011) ac NPS EN-1, ni ystyriwyd yr elfennau o ddiddordeb hanesyddol yn yr olion archeolegol hyn, o ran eu harwyddocâd neu wrth benderfynu ar strategaethau lliniaru priodol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gamau wedi'u cynnig i liniaru'r effaith o golli diddordeb hanesyddol yr asedau hyn. Mae argymhellion ar gyfer camau lliniaru o'r fath wedi'u dangos yn 4.4.1-4.4.8 isod.

Effeithiau uniongyrchol ar adeiladau hanesyddol na ddynodwyd

4.3.25 Nid yw'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn rhoi sylw i'r dull seiliedig ar arwyddocâd ar gyfer pennu gwerth asedau treftadaeth a deall newid sydd wedi'i amlinellu yn Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011) ac yn NPS EN-1 (5.8.2).

4.3.26 Gan na chynhaliwyd arolwg o'r adeiladau yn Nant Orman a Tyddyn Gele, mae'n anodd iawn cael dealltwriaeth wybodus o arwyddocâd yr asedau treftadaeth hyn.

Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar dirweddau hanesyddol

4.3.27 Ceir cynigion ar gyfer lliniaru effeithiau ar lefel y dirwedd ar gyfer Gardd Cestyll mewn dau atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (Atodiadau D11-6; APP-213 a D11-8; APP-215). Dim ond trosolwg byr iawn a geir yn y rhain ar y gwaith adfer arfaethedig ac nid yw hyn yn ddigon i roi sicrwydd y bydd y cynigion ar gyfer lliniaru yn ddigon i liniaru'r niwed a ragwelir. Yr unig fesurau lliniaru sydd wedi'u cynnig mewn perthynas â niwed i dirwedd y Fonesig Sylvia Crowe yw cofnodi (Atodiad D11-6; APP-213), ac nid yw'n ymddangos yn debygol y bydd hyn yn fesur lliniaru effeithiol.

4.3.28 Mae'r asesiad o arwyddocâd Gardd Cestyll (Atodiad D11-4; APP-211) yn briodol at ei gilydd, ond mae'n rhoi gormod o bwys ar gyflwr dirywiedig presennol yr ardd gegin a safle'r tŷ, ac nid yw'n rhoi sylw digonol i'r cyfraniad gan yr elfennau hyn yn yr ardd at arwyddocâd yr ased. Nid yw'r ystyriaeth i'r effeithiau ar Ardd Cestyll a fydd yn codi o newidiadau yn ei lleoliad (heblaw colli mannau sydd wedi'u dynodi gan Cadw yn rhan o Leoliad Hanfodol yr ardd) yn adlewyrchu'n glir y canllawiau sydd yn Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru[40] (Cadw 2017).

4.3.29 Mewn perthynas â Gardd Cestyll, dylid cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol ganlynol i'r Awdurdod Archwilio:

a) Cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol sy'n dangos beth, os rhywbeth, y mae angen ei golli er mwyn cyflawni'r prosiect, gan gyfeirio at astudiaethau priodol a gynhaliwyd i benderfynu lleoliad, graddfa a dull adeiladu'r Orsaf Bŵer, y Gwaith Morol a'r mannau gosod i lawr.

b) Esboniad am beth yn union a gollir, natur yr effaith ar Ardd Cestyll a'i Lleoliad Hanfodol o ganlyniad i'r dyluniad terfynol a'r camau lliniaru ac adfer sydd wedi'u cynnig ar gyfer yr Ardd a'i chyffiniau (e.e. cynlluniau a thrawsluniau wedi'u hanodi ar

[40] Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru (Cadw 2017) https://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%2026918%20CY.pdf

raddfa addas sy'n dangos yn glir y gwahanol elfennau yn yr Ardd cyn ac ar ôl y cyfnod adeiladu) a'r rhannau perthnasol o strwythurau'r Orsaf Bŵer, lefelau, mannau gosod i lawr, tomenni, argloddiau, etc. yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Dylid dangos ac egluro'n drwyadl y goblygiadau yn y dull o drin paramedrau Gardd Cestyll, yn cynnwys amrywio uchder a lleoliad llwyfan yr Orsaf Bŵer ac elfennau cysylltiedig y prosiect.

c) Esboniad o'r effeithiau unigol ac ar y cyd (sŵn, llwch, dirgryndod, goleuadau, effaith weledol, etc) ar Ardd Cestyll a'r Adeilad Rhestredig Gradd II* (Melin Ŷd) sy'n gysylltiedig â hi, a'r mesurau sydd wedi'u cynnig i liniaru'r rhain hyd y gellir.

4.3.30 Gyda golwg ar Dirwedd Ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe, dylid cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol ganlynol i'r Awdurdod Archwilio:

a) Arolwg Coed sy'n cofnodi lleoliadau. rhywogaethau, uchder, diamedr, brigdwf, oed bras, cyflwr ac argymhellion am ddulliau rheoli ar gyfer yr holl goed a llwyni yn y coetiroedd ar y tomenni ac o'u cwmpas.

b) Atgynyrchiadau clir o gynlluniau tirwedd ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe (mae Lluniau 4 a 9 - 15 yn Atodiad D11-5 (APP-212) i'r Datganiad Amgylcheddol yn wan ac aneglur fel nad yw ei gweledigaeth ar gyfer y dirwedd wedi'i dangos yn glir).

**Effeithiau anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y tu allan i'r safle**

4.3.31 Nid yw'r fethodoleg ar gyfer asesu arwyddocâd yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn rhoi sylw i'r dull seiliedig ar arwyddocâd o bennu gwerth asedau treftadaeth a deall newid sydd yn Egwyddorion Cadwraeth (Cadw 2011) ac yn NPS EN-1 (5.8.2).

4.3.32 Rhoddir sylw priodol i'r effeithiau dichonol o ddirgryndod ar y Felin Ŷd Gradd II* yng nghyd-destun ansawdd, ond nid oes cyfeiriad at ffynhonnell y wybodaeth dechnegol sy'n sail i'r casgliad hwn.

4.3.33 Nid yw'r asesiad o faint y newid a geir yn y Felin Ŷd Gradd II* sydd wedi'i egluro yn y Datganiad Amgylcheddol, yn gyson â'r asesiadau a geir yn Atodiad D11.06 (APP-213).

4.3.34 Gyda golwg ar eglwys Sant Padrig, Llanbadrig, nid oes cyfeiriad at y dull o ragfynegi'r newid mewn sŵn yn y derbynnydd, ar sail ansoddol neu feintiol. Oherwydd hyn, anodd iawn yw rhoi pwys ar gasgliadau'r asesiad. I'r gwrthwyneb, mae hepgor trafodaeth am effeithiau sŵn yn yr achos hwn yn ei gwneud yn anodd rhoi pwys ar yr asesiad na fyddai effeithiau ychwanegol yn codi mewn asedau treftadaeth eraill y tu allan i'r safle, fel y rheini yng Nghemlyn a Chemaes.

4.3.35 Mae cyfeiriad yn y Datganiad Amgylcheddol (D11; APP-130) yn Adrannau 11.7.12 ac 11.7.13 at y disgwyliad y bydd niwed sylweddol yn digwydd yng Ngardd Cestyll. Nid oes datganiad ynghylch a oes disgwyliad y bydd niwed sy'n llai na niwed sylweddol mewn asedau treftadaeth dynodedig eraill.

## 4.4 Gofynion y GCD a rhwymedigaethau A106

### Effeithiau uniongyrchol ar olion archeolegol

Gofynion

4.4.1 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi'r egwyddor y cytunir â Cadw, Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd (GAPS) a CSYM ar Gynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer gwaith maes i bennu mesurau lliniaru archeolegol. Bydd yn ofynnol i'r Cynllun hwn gael ei gyflwyno cyn penderfynu ar y GCD er mwyn rhoi sicrwydd y bydd y gwaith archeolegol yn lliniaru effeithiau i'r graddau a ragwelir ac a honnir.

4.4.2 Byddai'r cynllun gwaith hwn yn cynnwys pob agwedd ar y gwaith maes archeolegol a gyflawnir i liniaru effeithiau disgwyliedig y cynllun, yn cynnwys mannau yn y cynllun a gynigiwyd lle na ragwelir effeithiau niweidiol arwyddocaol a byddai'n cael ei sicrhau drwy'r Cod Ymarfer Adeiladu neu drwy ofyniad yn y GCD.

4.4.3 Dylid amlinellu nodau ymchwil penodol yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig, gan groesgyfeirio at agendâu ymchwil seiliedig ar themâu a chyfnodau ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol, fel y bo'n briodol.

4.4.4 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol y bydd unrhyw Gynllun Ymchwilio Ysgrifenedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

a) Cloddio confensiynol mewn mannau y gellir dangos eu bod o arwyddocâd archeolegol;

b) Stripio, mapio a samplu mannau o arwyddocâd archeolegol lle mae natur a graddau'r olion archeolegol yn llai diffiniedig;

c) Torri ffosydd archwilio ychwanegol yn ôl yr angen i gael gwell diffiniad o fannau sydd o ddiddordeb archeolegol dichonol;

d) Gwneud cofnodion manwl o adeiladau hanesyddol rhestredig a rhai sydd heb eu dynodi (gweler 4.4.24 isod);

e) Cynnal arolwg manwl o'r dirwedd a llystyfiant yng Ngardd Cestyll;

f) Cynnal ymchwiliad manwl drwy waith desg a gwaith maes i safle cwymp yr awyren Bristol Beaufighter;

g) Monitro archeolegol ar waith ymwthiol drwy dargedu.

4.4.5 Dylid nodi hefyd yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig y dulliau o sicrhau adroddiadau ffurfiol am ganlyniadau'r gwaith maes archeolegol, yn cynnwys adroddiadau (archifol) na chyhoeddir, adroddiadau ffurfiol a gyhoeddir mewn cyfnodolyn/cyfnodolion archeolegol priodol a adolygir gan gymheiriaid neu ar ffurf monograff(au) ac adroddiadau poblogaidd.

4.4.6 Oherwydd graddau, arwyddocâd ac amrywiaeth yr olion archeolegol y disgwylir eu cael ar y safle, a'r posibilrwydd o gynnwys mwy nag un sefydliad contractio archeolegol mewn elfennau penodol o'r gwaith lliniaru, gall fod yn briodol darparu cyfres o adroddiadau a chyhoeddiadau a fydd yn trafod agweddau neu themâu penodol mewn perthynas â'r olion a welir. Felly dylid nodi cwmpasau penodol yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer adrodd ar waith archeolegol yn unol â'r nodau ymchwil a ddatgenir ar gyfer y gwaith.

4.4.7 Dylid nodi protocolau gweithredu penodol yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer camau gweithredu sy'n unol â darpariaethau'r GCD a nodwyd uchod.

4.4.8 Ym marn CSYM, dylid cytuno ar y cynllun ymchwilio archeolegol cyn penderfynu ar y GCD er mwyn sicrhau bod modd craffu'n briodol ar gynnwys y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig a'i gadarnhau.

**Rhwymedigaethau**

4.4.9 Gellir lliniaru'n rhannol yr effeithiau o golli elfennau o ddiddordeb hanesyddol o ganlyniad i symud yr holl olion archeolegol arwyddocaol drwy gytuno ar gynllun priodol i ddehongli ac ymgysylltu a'i roi ar waith. Mae Horizon wedi cydnabod bod diddordeb sylweddol ymysg y cyhoedd mewn ymchwil archeolegol yn yr ardal, ac mae'r asedau treftadaeth archeolegol yr effeithir arnynt yn ymwneud â chyfnodau ffurfiannol yn hanes a hunaniaeth Cymru. Dylid ystyried unrhyw gynllun ymgysylltu ar lefel y prosiect er mwyn caniatáu integreiddio â mesurau lliniaru a chydbwyso eraill sydd eu hangen mewn perthynas ag effeithiau eraill, yn enwedig effeithiau ar y Gymraeg a'i Diwylliant, ar Dirwedd ac ar Faterion Economaidd-gymdeithasol a Thwristiaeth.

4.4.10 Lle mae'r cynllun ymgysylltu hwn yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, argymhellir bod y cynllun yn cynnwys tair elfen:

a) Cynllun ymgysylltu cymunedol, yn cynnwys ymgysylltu poblogaidd â chymunedau lleol drwy ddiweddariadau rheolaidd ar y cyfryngau a'r rhyngrwyd yn ogystal â gweithgareddau fel sgyrsiau a diwrnodau agored;

b) Mentrau addysgol penodol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm ysgol i Gymru, yn cynnwys pynciau STEM yn ogystal â Hanes;

c) Cynigion ar gyfer dehongli ac arddangos deunydd ar y safle, mewn lleoliadau yr ymwelir â nhw (e.e. y rhwydwaith llwybrau cerdded hir) ac mewn amgueddfeydd/ canolfannau ymwelwyr sy'n defnyddio arddangosiadau o ddeunydd a thechnolegau digidol i ddarparu gwaddol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r gorffennol ac yn cyfoethogi profiad ymwelwyr.

4.4.11 Cyn y gellir cytuno ar effeithiolrwydd unrhyw strategaeth ymgysylltu, bydd angen cael gwybodaeth ychwanegol i bennu uchelgais a manylebau'r gwaith ymgysylltu er mwyn dangos bod y strategaeth hon yn gyson ag arwyddocâd a natur unrhyw olion archeolegol, a bod modd ei chyflawni'n effeithiol mewn ffordd a fydd yn cyflawni'r nodau a ddatgenir, yn cynnwys:

a) datganiad clir o nodau ac amcanion y strategaeth ymgysylltu arfaethedig;

b) datganiadau o'r methodolegau ymgysylltu penodol;

c) datganiadau o ganlyniadau ansoddol a meintiol disgwyliedig y strategaeth ymgysylltu.

4.4.12 Dylid sicrhau bod y strategaeth ymgysylltu yn cael ei chyflawni drwy ei chynnwys mewn dogfen ardystiedig neu gynllun i'w gymeradwyo yn unol â gofyniad. Byddai cyllid ar gyfer y strategaeth ymgysylltu yn cael ei sicrhau drwy rwymedigaeth ariannol.

**Effeithiau uniongyrchol ar adeiladau hanesyddol na ddynodwyd**

Gofynion

4.4.13 Lle mae adeiladau hanesyddol i gael eu cofnodi, dylid pennu'r safonau a'r fethodoleg yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig cyffredinol (0 uchod). Dylai hyn gynnwys

cynigion ar gyfer cofnodi manwl o adeiladau na ddynodwyd yn Tyddyn Gele a Nant Orman cyn eu colli.

**Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar dirweddau hanesyddol**

Gofynion

4.4.14 Bydd angen cymeradwyo Cynllun Rheoli Cadwraeth manwl a fydd yn amlinellu'r nodau ac amcanion cyffredinol, y dulliau a'r mesurau ymarferol er mwyn sicrhau bod modd i elfennau o Ardd Cestyll yr ymyrrir yn uniongyrchol â nhw yn ystod y cyfnod adeiladu gael eu hadfer mewn modd sensitif a phriodol ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu .

4.4.15 Yn ogystal â hyn, dylid datblygu a chymeradwyo Cynllun Rheoli Cadwraeth ar wahân a fydd yn darparu cynigion manwl ar gyfer rheolaeth barhaus ar dirwedd y Fonesig Sylvia Crowe yn y Wylfa ac yn sicrhau mai nod y cynigion ar gyfer tirweddu yw ymateb i'r cynllun tirweddu presennol. Rhaid seilio'r cynlluniau rheoli cadwraeth hyn ar ddealltwriaeth drylwyr a geir o'r tirweddau dyluniedig perthnasol drwy ymchwilio a chofnodi archeolegol ar lefel briodol.

4.4.16 Dylid pennu'r safonau a methodoleg ar gyfer ymchwilio drwy waith maes yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig cyffredinol er mwyn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Rheoli Cadwraeth ac fel mesur i liniaru'r effeithiau o golledion uniongyrchol (gweler 4.4.8 uchod).

4.4.17 Lle nad yw'n ymarferol cytuno ar Gynllun Rheoli Cadwraeth sengl lle mae ased neu grŵp o asedau treftadaeth (e.e. Cestyll a'r adeiladau rhestredig yn Felin Gafnan) ym meddiant nifer o berchnogion, gellir cyflwyno set o Gynlluniau Rheoli Cadwraeth unigol o dan adain Strategaeth Lliniaru Treftadaeth Ddiwylliannol gyfunol. Bydd y goblygiadau o unrhyw anghysondeb ac unrhyw gyfyngu ar y gallu i sicrhau mesurau lliniaru o ganlyniad i ddatblygu set y Gynlluniau Rheoli Cadwraeth yn cael eu hystyried yn ofalus.

4.4.18 Yn ogystal â hyn, dylid darparu gofynion yn y GCD sydd:

a) Yn atal colli unrhyw ran o Arwynebedd Cofrestredig Gardd Cestyll na'i Lleoliad Hanfodol (neu ei Harwynebedd Statudol os cadarnheir hyn) oni bai fod sicrwydd rhesymol y bydd rhannau perthnasol o'r datblygiad yn mynd yn eu blaen.

b) Yn ei gwneud yn ofynnol bod dyluniad yn cael ei gyflwyno i CSYM i'w gytuno ganddo (drwy ymgynghori â CNC, Cadw a WHGT) ar gyfer ailfodelu'r morglawdd gorllewinol ar ddiwedd y cyfnod adeiladu, i roi gwedd/proffil mwy naturiol iddo fel ei fod yn debycach o ran ei olwg i ynys greigiog dan lystyfiant (yn hytrach na strwythur gwneuthuredig) drwy gydol y cyfnodau gweithredu a datgomisiynu. Mae hyn yn ofynnol er mwyn lleihau effaith hirdymor y morglawdd ar y Golygfeydd Arwyddocaol a golygfeydd eraill o Ardd Cestyll.

c) Yn galw am adfer yr Ardd Gegin, Bwthyn y Garddwr, Llain y Tŷ a'r Lleoliad Hanfodol (ac unrhyw rannau eraill o arwynebeddau Cofrestredig a/neu Statudol Gardd Cestyll yr effeithiwyd arnynt) gan ddefnyddio'r deunyddiau presennol a gedwir i'r diben hwn, cyn gynted â phosibl yn ystod y cyfnod adeiladu, a'r gwaith adfer i'w gyflawni yn unol â'r *Cynllun Rheoli Cadwraeth* a gytunir.

d) Yn pennu ac yn gweithredu mesurau i ddiogelu a/neu liniaru effeithiau niweidiol dichonol ar Ardd Cestyll, e.e. o lwch, dirgryndod, newidiadau yn ansawdd dŵr, llygredd golau, ymwthiad gweledol, etc.

e) Yn galw am gyflawni'r holl gamau lliniaru eraill a bennwyd ar gyfer Gardd Cestyll yn yr Adroddiad Effaith Leol hwn.

f) Yn galw am gynnal Arolwg Coed sy'n cofnodi lleoliadau, rhywogaethau, uchder, diamedr, brigdwf, oed bras, cyflwr ac argymhellion rheoli ar gyfer yr holl goed a llwyni yn y coetiroedd ar y tomenni ac o'u cwmpas (os nad yw wedi'i ddarparu eisoes yn ystod y broses Archwilio, gweler Adran 4.4.18 f) uchod).

g) Yn galw am gyflwyno Cynllun Rheoli Coetiroedd ar gyfer Tirwedd Ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe i CSYM i'w gytuno ganddo sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, gwaith i adfer coed, rhywfaint o dorri ac ailblannu, ailsefydlu ymyl coetir a rhaglen waith, yn cynnwys rheoli parhaus drwy gydol Prosiect Wylfa Newydd.

Rhwymedigaethau

4.4.19 Dylid sicrhau digon o arian i gwrdd â chost unrhyw waith adfer yng Ngardd Cestyll ac yn nhirwedd y Fonesig Sylvia Crowe. Dylid sicrhau'r swm hwn drwy gytundeb Adran 106 neu fecanwaith tebyg a dylid darparu ar gyfer costau'r gwaith tirweddu cychwynnol yn ogystal â chyfnod o ôl-ofal a rheoli wedi hynny er mwyn sicrhau bod y cynigion ar gyfer adfer yn darparu dyluniad tirweddu aeddfed.

4.4.20 Gall hefyd fod yn briodol sicrhau cyllid ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Cadwraeth a'r gwaith gwella a gynigiwyd yn y rhannau o Ardd Cestyll nad ydynt o dan berchnogaeth Horizon drwy rwymedigaethau o dan Adran 106.

**Effeithiau anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y tu allan i'r safle**

Gofynion

4.4.21 Dylid cytuno ar yr arferion gorau i leihau nifer y symudiadau traffig ychwanegol, sŵn adeiladu, llwch a goferiad golau o weithgareddau adeiladu drwy gymeradwyo'r Cod Ymarfer Adeiladu. Gallai hyn gynnwys mesurau fel cyfyngiadau ar oriau gweithio neu'r mathau o beiriannau a ddefnyddir mewn mannau neu ar adegau penodol.

4.4.22 Dylid cytuno ar fesurau i sicrhau bod adeiladau a thomenni a ffyrdd dros dro a strwythurau tebyg yn cael eu tynnu ar ôl cwblhau gweithgareddau adeiladu, a sicrhau bod y mesurau hyn wedi'u cyflawni.

4.4.23 Rhaid i fesurau i atal difrod ffisegol i'r Felin Ŷd Gradd II* yn Felin Gafnan gael eu cymeradwyo cyn dechrau gwaith adeiladu. Dylid gosod gofyniad cyn cychwyn ar gyfer hyn. Rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer lliniaru effeithiau fod yn gysylltiedig â safleoedd penodol ac wedi'u seilio ar gyfrifiadau priodol yn ôl y peiriannau penodol y bwriedir eu defnyddio ac ar ddealltwriaeth fanwl o gyflwr y tir ar gyfer y gwaith, yr adeiladu ac o'r ardal o gwmpas, i'r graddau sydd ei angen i gael dealltwriaeth drylwyr. Lle cynigir camau lliniaru ar ffurf monitro a fydd yn arwain at roi'r gorau i weithio dros dro os bydd paramedrau penodol wedi'u torri (e.e. dirgryndod neu adeiladweithiau'n symud), rhaid cytuno ar y paramedrau hyn cyn rhoi caniatâd er mwyn gallu cadarnhau bod y camau lliniaru yn effeithiol.

4.4.24 Bydd angen cofnodi'r felin ŷd restredig Gradd II* yn Felin Gafnan yn fanwl fel mesur rhagofal ac i gyfrannu at waith adfer sensitif os na fydd y mesurau lliniaru i osgoi difrod o ddirgryndod yn effeithiol.

4.4.25 Dylai fod yn ofynnol bod y cynigion ar gyfer tirweddu'r datblygiad ar ôl ei gwblhau yn ymateb i athroniaeth ddylunio'r orsaf bŵer Wylfa bresennol, yn enwedig o ran yr ymateb i'r defnydd o'r dirwedd drymliniau leol a phlannu i sgrinio blerwch ar lefel isel a lleihau ymwthiad gweledol gan elfennau newydd y datblygiad arfaethedig i leoliadau asedau treftadaeth. Yn yr un modd, dylid cytuno hefyd ar orffeniadau wynebau ar elfennau newydd yn y seilwaith.

4.4.26 Dylai'r cynigion dylunio tirwedd ar gyfer adfer Gardd Cestyll a thirwedd y Fonesig Sylvia Crowe gael eu seilio ar y Cynlluniau Rheoli Cadwraeth a gytunir.

## 4.5.0 Crynodeb o'r Bennod

4.5.1 Yn y Bennod hon o'r Adroddiad Effaith Leol, eglurwyd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ddeall fydd yr effeithiau o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd ar amgylchedd hanesyddol Ynys Môn. Mae'n amlinellu effeithiau tebygol y cynllun a gynigiwyd, polisi cynllunio perthnasol, yn nodi bylchau yn y data a all ddylanwadu'n sylweddol ar yr asesiad o effeithiau ac mae'n nodi cynigion ar gyfer gofynion a rhwymedigaethau y byddai angen eu gosod os bydd y cynllun yn cael ei ganiatáu.

4.5.2 Mae'n bosibl y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau Negyddol a fyddai'n arwain at niwed sylweddol i arwyddocâd asedau treftadaeth dynodedig (neu asedau treftadaeth na ddynodwyd sydd o arwyddocâd cyfatebol) yn:

a) Parc a Gardd Gofrestredig Gradd II Cestyll;

b) Tirwedd Ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe;

c) Y Felin Ŷd gofrestredig Gradd II* yn Felin Gafnan;

d) olion archeolegol o arwyddocâd cenedlaethol, yn cynnwys y rheini ym Mhorth Wylfa, Porth yr Ogof, Pennant a Tyddyn Gele;

e) Adeiladau hanesyddol na ddynodwyd yn Nhyddyn Gele a Nant Orman.

4.5.3 Mae NPS EN-1 yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygu sy'n achosi niwed sylweddol i arwyddocâd yr asedau treftadaeth hyn fod yn 'eithriadol' neu'n 'gwbl eithriadol' a bod cyfiawnhad clir drosto am na ellir ei osgoi er mwyn sicrhau'r buddion sylweddol i'r cyhoedd o'r datblygiad ehangach. Mae angen i'r ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad clir dros y niwed i Ardd Cestyll, y Felin Ŷd yn Felin Gafnan a safleoedd archeolegol yn Safle 05 y De a Thrwyn yr Wylfa, gan gyfeirio at astudiaethau manwl o opsiynau a dewisiadau gwahanol i'r datblygiad arfaethedig er mwyn i'r effeithiau hyn gael eu hystyried yn dderbyniol. Mewn perthynas â Gardd Cestyll, dylai'r ymgeisydd ddarparu eglurhad hefyd o ran beth yn union a gollir, sut bydd y dyluniad terfynol yn effeithio ar Ardd Cestyll a'i Lleoliad Hanfodol a'r camau lliniaru ac adfer a gynigir yn yr Ardd a'i chyffiniau. Dylai'r ymgeisydd hefyd ddarparu Arolwg Coed o'r coetiroedd yn Nhirwedd Ddyluniedig y Fonesig Sylvia Crowe ac atgynyrchiadau clir o Luniau 4 a 9 - 15 yn Atodiad D11-5 (APP-212) i'r Datganiad Amgylcheddol.

4.5.4 Ar gyfer Felin Gafnan, dylai’r ymgeisydd ddarparu disgrifiad cliriach a mwy cynhwysfawr o’r mesurau lliniaru arfaethedig i atal difrod posibl i strwythur yr adeilad. Gall hyn arwain at ystyried bod unrhyw niwed yn llai na niwed sylweddol.

4.5.5 Dylai’r ymgeisydd ddarparu eglurhad o arwyddocâd adeiladau na ddynodwyd yn Nant Orman a Tyddyn Gele, gan wneud defnydd o arolwg safle o’r adeiladau hyn, er mwyn pennu a yw’r strwythurau hyn o arwyddocâd cyfatebol i adeiladau rhestredig Gradd II. Dylai’r ymgeisydd ddarparu eglurhad hefyd o arwyddocâd dau safle pellach, sef yr Anheddiad Rhufeinig ym Mhorth yr Ogof ac i’r Gorllewin o Borth Wylfa, gan wneud defnydd o arolwg maes sydd wedi’i gynnal eisoes, er mwyn pennu a yw’r rhain yn gyfwerth â henebion cofrestredig.

4.5.6 Byddai’r datblygiad arfaethedig yn arwain at effeithiau Negyddol a fyddai’n creu niwed sy’n llai na niwed sylweddol i nifer o asedau treftadaeth dynodedig neu asedau treftadaeth o arwyddocâd cyfatebol, sef:

a) Adeiladau rhestredig Gradd II yn Felin Gafnan, sef y Tŷ Sychu Ŷd a Thŷ’r Felin;

b) Eglwys restredig Gradd II Sant Padrig yn Llanbadrig;

c) Mewn egwyddor, gellid lliniaru effeithiau eraill y cynllun arfaethedig fel eu bod yn Niwtral, er bod angen cytuno eto ar fanylion camau lliniaru o’r fath. Mae nifer o wahanol fesurau lliniaru wedi’u henwi uchod, yn cynnwys Cynlluniau Rheoli Cadwraeth, a ddylai gael eu sicrhau drwy osod gofynion yn y GCD a rhwymedigaethau Adran 106.

## 5.0 Ecoleg y Tir

### 5.1 Cyd-destun

5.1.1 Mae'r Bennod hon o'r Adroddiad Effaith Leol yn ymdrin ag effeithiau datblygu Prif Safle'r Orsaf Bŵer ar dderbynyddion ecoleg y tir ar y safle ac yn ei gyffiniau. Mae wedi'i seilio ar y dogfennau a ddarparwyd gan Horizon yn ei gais, yn cynnwys:

a) y Datganiad Amgylcheddol a'r atodiadau cysylltiedig, yn cynnwys yr Adroddiadau Crynodeb Technegol ar ecoleg;
b) y dogfennau cysylltiedig hynny sy'n cynnwys elfennau lliniaru y mae'r asesiad o ecoleg yn dibynnu arnynt, yn cynnwys y Cynllun Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd[41], y Datganiad Dylunio a Mynediad[42], y Cod Ymarfer Adeiladu[43], a Strategaeth Rheoli'r Gweithlu[44].

5.1.2 Mae hefyd yn gwneud defnydd o wybodaeth a ddarparwyd mewn cyfarfod â Horizon ar 17 Hydref 2018, er y dylid nodi bod rhai ceisiadau am ddata ac ymholiadau a godwyd yn y cyfarfod hwnnw heb gael eu datrys eto. Mae'r Adroddiad Effaith Leol yn canolbwyntio ar y derbynyddion neu agweddau hynny nad ydynt yn amodol ar gydsyniad, caniatâd neu drwyddedu gan CNC, felly nid yw'n ystyried effeithiau ar safleoedd a warchodir gan statud (SoDdGAau, ACAau, etc.) neu ofynion trwyddedu ar gyfer rhywogaethau a warchodir.

5.1.3 Mae safle'r datblygiad yn cynnwys glaswelltiroedd amaethyddol yn bennaf, a'r rheini o werth cyfyngedig i fioamrywiaeth, ac mae'r terfynau caeau yn gloddiau gan mwyaf neu (yn llai aml) yn wrychoedd. Mae nifer o gynefinoedd yn gyson â'r diffiniad o 'gynefinoedd pwysig iawn' sydd wedi'u rhestru yn unol ag Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, neu wedi'u rhestru yn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn. Mae'r mannau lle mae cynefinoedd o 'werth mwy' yn gyfyngedig gan mwyaf ac, at ei gilydd, nid yw'r safle yn unigryw nac yn nodedig iawn (o ran bioamrywiaeth) yng nghyd-destun yr ardal a'r sir: mae'r cynefinoedd a geir yma yn gyffredin ac yn bodoli ledled Ynys Môn.

5.1.4 Er hynny, mae'r datblygu arfaethedig ar Brif Safle Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn ddatblygiad sylweddol a fydd yn galw am glirio'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN) (409 hectar) a dadleoli ffawna o ganlyniad; bydd y cyfnod adeiladu hyd at y gwaith adfer terfynol yn para o leiaf naw mlynedd, a bydd rhai elfennau o'r gwaith adeiladu a'r gwaith o adsefydlu cynefinoedd yn parhau am gyfnod hir ar ôl hynny. Er nad yw nifer mawr o'r cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau yn ymddangos yn nodedig y tu allan i'r cyd-destun lleol, mae graddfa a hyd y cynllun arfaethedig ar eu pen eu hunain yn peri risgiau i integredd y derbynyddion bioamrywiaeth lleol na fyddent yn bodoli yn achos cynlluniau llai eu maint a'u hyd. Bydd y datblygiad cyfan yn effeithio'n uniongyrchol ar oddeutu 0.5% o arwynebedd tir Ynys Môn, felly gall

[41] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-424 / APP-425
[42] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-407 / APP-408
[43] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-414 / APP-415
[44] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-413

achosi effeithiau arwyddocaol (cadarnhaol a negyddol) i werth bioamrywiaeth arfordir gogledd Ynys Môn am ddegawdau, ac mae'r Adroddiad Effaith Leol yn ystyried y cynllun yn y cyd-destun hwnnw.

## 5.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

### 5.2.1 Y Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol[45] yn datgan "*Only receptors of a low, medium or high value that would potentially be affected by construction activities associated with the Power Station, other onsite development, Marine Works and the Site Campus within the WNDA are taken through to the impact assessment…with receptors of negligible value being scoped out of further consideration*". Y derbynyddion y nodwyd eu bod o werth bach, canolig neu fawr yw:

a) SoDdGA Tre'r Gof
b) SoDdGA Cae Gwyn
c) SoDdGA Bae Cemlyn
d) ACA Bae Cemlyn/Cemlyn Bay
e) SoDdGA Llyn Llygeirian
f) AGA Glannau Ynys Gybi/Holy Island Coast
g) ACA Glannau Ynys Gybi/Holy Island Coast
h) ACA Corsydd Môn/Anglesey Fens
i) Ramsar Corsydd Môn a Llŷn/Anglesey and Llŷn Fens
j) ACA Llyn Dinam
k) AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli/Aberdaron Coast Bardsey Island
l) AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal/Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa and the St. Tudwal Islands
m) AGA Craig yr Aderyn (Bird's Rock)
n) Coetiroedd hynafol
o) Ffyngau
p) Pysgod dŵr croyw
q) Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa - Trwyn Penrhyn
r) Safle Bywyd Gwyllt Trwyn Pencarreg
s) Safle Bywyd Gwyllt Afon Wygyr
t) Safle Bywyd Gwyllt Cors Cromlech
u) Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Trwyn y Buarth – Porth Wen
v) Safle Bywyd Gwyllt Cors Cae Owen
w) Safle Bywyd Gwyllt Rhostir Mynydd Mechell
x) Safle Bywyd Gwyllt Tir Gwlyb Teilia Neuadd
y) Safle Bywyd Gwyllt Cors Mynachdy
z) Cennau
aa) Madfallod dŵr cribog
bb) Y frân goesgoch
cc) Ystlumod
dd) Dyfrgwn
ee) Llygod y dŵr
ff) Y wiwer goch

[45] Penodau B9 a D9 o'r Datganiad Amgylcheddol

gg) Macroinfertebratau (pyllau unigol lle cafwyd rhywogaethau o ddiddordeb cadwraeth)
hh) Cynefinoedd y tir
ii) Infertebratau'r tir
jj) Y llyffant dafadennog
kk) Y wiber a'r fadfall
ll) Adar nythu
mm) Adar sy'n gaeafu ac yn ymfudo
nn) Mamaliaid nodedig (yr ysgyfarnog, y draenog a'r ffwlbart)
oo) Cynefinoedd dŵr croyw

5.2.2 Dylid nodi nad oes asesiad penodol o bob un o'r rhain yn yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol – er enghraifft, nid oes ymdriniaeth fanwl â nifer o'r Safleoedd Bywyd Gwyllt, am nad oes llwybrau effeithiol ar eu cyfer mae'n debyg (er nad yw'r sail resymegol i hyn wedi'i disgrifio'n glir ym Mhennod D9). Fodd bynnag, ar sail adolygiad CSYM, nid yw hyn yn ddiffyg a allai fod yn arwyddocaol gan nad yw'n debygol y bydd y cynllun yn effeithio ar y safleoedd hyn.

5.2.3 Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol yw cyfres o 'Adroddiadau Crynodeb Technegol', un ar gyfer pob derbynnydd neu grŵp o dderbynyddion tebyg gan mwyaf, a'r rhain yn crynhoi nifer o adroddiadau arolwg sy'n ymwneud â phob derbynnydd gan amlaf.

5.2.4 Nid yw'r sylfaen dystiolaeth yn fanwl yn y cyswllt hwn. Mae'r Adolygiad gan CSYM yn awgrymu ei bod yn darparu llinell sylfaen ddibynadwy briodol gan mwyaf ar gyfer asesu'r effeithiau ar y rhan fwyaf o dderbynyddion, er bod rhai mannau lle nad yw'r Adroddiadau Crynodeb Technegol yn glir, neu lle nad yw gwyriadau oddi wrth y canllawiau sefydledig ar gyfer archwilio wedi'u hegluro neu eu cyfiawnhau. Nodwyd y rhain yn yr adran 'Bylchau mewn Data' isod. Ni chyflwynwyd yr adroddiadau archwilio gwreiddiol gyda'r cais, felly ni ellir gwirio'r gwyriadau neu gyfyngiadau ar archwilio. Ceir meysydd eraill lle mae ansicrwydd, er nad yw'r rhain yn debygol o ddylanwadu ar gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol.

5.2.5 Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Horizon ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol yn gyson â'r canllawiau cyfredol[46].

5.2.6 Mae CSYM wedi adolygu'r holl ddogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol i'r asesiad o fioamrywiaeth, yn cynnwys Pennod D9 a'r ffigurau ac atodiadau cysylltiedig; yr Adroddiadau Crynodeb Technegol; gwybodaeth am ddylunio sydd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad – Cyfrol 2; y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd – Cyfrolau 1 a 2; y wybodaeth am y cyfnod adeiladu yn Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd; a dogfennau eraill, yn cynnwys Cynllun Rheoli'r Gweithlu.

5.2.7 Mae Horizon wedi nodi dwy effaith gadarnhaol yn y Datganiad Amgylcheddol:

[46] CIEEM (2016) G*uidelines for Ecological Impact Assessment in the UK and Ireland: Terrestrial, Freshwater and Coastal*. 2nd edition. Chartered Institute of Ecology and Environmental Management, Winchester (Link)

a) ar fadfallod dŵr cribog ("*the implementation of the Landscape and Habitat Management Strategy…would lead to the creation of suitable habitats for GCN that would result in a long-term positive effect*");

b) mewn perthynas â'r Safleoedd Cydbwyso Ecolegol a gynigiwyd i wrthbwyso'r difrod disgwyliedig i SoDdGA Tre'r Gof ("*The assessment concludes that there would be the potential for large-scale improvements in the quality and extent of rich-fen and mire habitat, although it is recognised that there is a degree of uncertainty in relation to the extent and quality of habitat created. As such, a moderate rather than major positive effect has been concluded for this habitat*")

5.2.8 Mewn perthynas â madfallod dŵr cribog, fe all y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd ddarparu effeithiau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw Horizon wedi ymrwymo i gynnal neu gynyddu nifer y pyllau ar draws y safle (er bod CSYM yn deall bod hyn yn cael ei adolygu). Felly, bydd unrhyw welliannau i gynefinoedd y tir o gwmpas y pwll presennol lle y ceir madfallod dŵr cribog yn cael effaith gadarnhaol gyfyngedig iawn, yn enwedig am ei bod yn annhebygol mai argaeledd cynefinoedd y tir fydd y ffactor sy'n cyfyngu ar ehangiad neu ddosbarthiad poblogaethau o fadfallod dŵr cribog yn lleol. Nid yw'n glir, felly, sut bydd madfallod dŵr cribog yn cael budd o'r gwelliannau i dir sydd wedi'u datgan yn y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd os mai ychydig o gynefinoedd dŵr a grëir i gyd-fynd â hyn. Bydd y gostyngiad sylweddol yn nifer y pyllau ar draws y safle yn dileu'r posibilrwydd o gytrefu ystyrlon gan y rhywogaeth hon ar y safle hwn yn y dyfodol i raddau helaeth, felly gellid dadlau mai ychydig a wnaiff y cynigion i wella cydnerthedd poblogaethau o fadfallod dŵr cribog neu eu statws cadwraeth yn lleol. Felly mae CSYM o'r farn y bydd yr effeithiau ar fadfallod dŵr cribog yn 'niwtral'.

5.2.9 Gyda golwg ar y Safleoedd Cydbwyso Ecolegol, gan fod y rhain yn ymwneud â'r effeithiau ar SoDdGA Tre'r Gof mae CSYM wedi dibynnu ar asesiad CNC. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod yr effaith 'gadarnhaol gymedrol' a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol yn optimistaidd gan fod cryn ansicrwydd yn aml ynglŷn â chreu cynefinoedd gwlyptir hyfyw. Byddai effaith gadarnhaol arwyddocaol yn galw am gamau lliniaru sy'n gwrthbwyso colli'r SoDdGA presennol yn lwyr, ac wedyn yn darparu gwelliannau ychwanegol sylweddol uwchlaw'r llinell sylfaen.

5.2.10 Mae CSYM yn credu mai'r prif fecanwaith i sicrhau effaith gadarnhaol ar dderbynyddion bioamrywiaeth yw'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (SRhTCh). Er nad yw manylion y SRhTCh wedi'u cadarnhau eto, mae'n bosibl y bydd yr egwyddorion dylunio a'r ymrwymiadau sydd yn y drafft yn arwain dros y tymor hir at effaith gadarnhaol net ar rai derbynyddion bioamrywiaeth ac yn darparu gwelliannau i fioamrywiaeth yn fwy cyffredinol uwchlaw'r llinell sylfaen. Fodd bynnag, bydd y camau i gyflawni a monitro'r SRhTCh yn hanfodol i hyn, ac mae CSYM yn credu bod angen gwneud ymrwymiadau mwy mesuradwy i sicrhau bod modd gwirio casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol drwy fonitro'r SRhTCh yn y dyfodol.

5.2.11 Mae'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol gan Horizon yn nodi y bydd yr effeithiau ar y derbynyddion canlynol yn 'ddibwys' neu'n ddim:

a) SoDdGA Llyn Llygeirian
b) Safle Bywyd Gwyllt Trwyn Pencarreg
c) Madfallod dŵr cribog (er gwaethaf yr 'effeithiau cadarnhaol' a nodwyd uchod)
d) Y llyffant dafadennog
e) Y wiber a'r fadfall
f) Dyfrgwn
g) Llygod y dŵr
h) Cynefinoedd dŵr croyw

5.2.12 Mae CSYM wedi adolygu'r asesiadau hyn ac yn derbyn y casgliadau mewn perthynas â SoDdGA Llyn Llygeirian; Dyfrgwn; Llygod y dŵr; a Chynefinoedd dŵr croyw, felly mae'n ystyried bod y rhain yn effeithiau niwtral i ddibenion yr adroddiad hwn. Mae gan CSYM rai amheuon ynghylch yr asesiad o'r effeithiau ar fadfallod dŵr cribog ac, i lai o raddau, y rhai ar lyffantod (mae'r asesiad eu bod yn 'ddibwys' yn gywir os yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gynnal y poblogaethau presennol yn unig, yn hytrach na'r ffaith bod y cynllun yn atal y posibilrwydd o gytrefu ystyrlon ar y safle yn y dyfodol o ganlyniad i waredu'r pyllau), er bod CSYM yn deall bod y safbwynt o ran adfer pyllau yn cael ei adolygu.

5.2.13 Fodd bynnag, nid yw CSYM wedi'i argyhoeddi bod yr achos dros ddatgan y bydd yr effeithiau yn 'ddibwys' wedi cael ei ddadlau'n effeithiol ar gyfer Safle Bywyd Gwyllt Trwyn Pencarreg; nac ar gyfer y Wiber a'r Fadfall.

5.2.14 Mewn perthynas â **Safle Bywyd Gwyllt Trwyn Pencarreg**, mae Para. 9.5.101 o'r Datganiad Amgylcheddol yn datgan "…*chapter D5 (Application Reference Number: 6.4.5) scopes out significant effects on the wildlife site resulting from dust deposition, increased rates of nitrogen and acid deposition and elevated levels of NOx. The effects of changes in air quality Wylfa Newydd Power Station Chapter D9 Terrestrial and freshwater ecology on Trwyn Pencarreg Wildlife Site are therefore not considered further in this assessment*".

5.2.15 Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod Pennod D5 yn hepgor effeithiau arwyddocaol o gwmpas yr asesiad ("*scope out significant effects*") gan fod y newidiadau mewn NOx a fodelwyd yn uwch na'r lefel gritigol ar gyfer y safle hwn (gweler tabl D5-16). Yn wir, mae Para. 5.5.81 yn datgan "*Where the predicted increase is above the criteria set out in chapter B5…further consideration is given to the significance of direct and in-combination effects due to predicted changes in air pollutant concentrations and deposition in chapter D9…for the following receptors… Trwyn Pencarreg Wildlife Site based on the magnitude of predicted changes to long-term and short-term NOx concentrations in the year 2 peak*". Nid yw'r asesiad hwn wedi'i gwblhau yn D9. Mae CSYM yn cydnabod bod y newid mewn hydoddiant dyfrllyd yn debygol o fod yn 'arwyddocaol' mewn perthynas â throthwyon ansawdd aer yn hytrach nag mewn perthynas â newidiadau canlyniadol i dderbynyddion ecolegol, ond mae angen gwneud yr asesiad hwn, neu egluro'r croesgyfeirio. Er bod y mater hwn wedi'i godi gyda Horizon yn y cyfarfod ar 17 Hydref, ni chafwyd eglurhad ychwanegol eto felly rhaid i CSYM farnu y bydd yr effeithiau ar y derbynnydd hwn yn 'negyddol'.

5.2.16 Mewn perthynas â **Gwiberod a Madfallod**, mae CSYM yn codi rhai cwestiynau am yr arolygon a gynhaliwyd (gweler Bylchau mewn Data isod) er ei bod yn debygol bod y Datganiad Amgylcheddol yn rhoi barn resymol am arwynebedd y cynefinoedd sydd o werth mawr i'r rhywogaethau hyn ar y safle. Er hynny, mae gan CSYM amheuon ynghylch y casgliad gan Horizon y bydd effeithiau 'dibwys' ar y derbynyddion hyn, neu o leiaf ynghylch y broses ar gyfer dod i'r casgliad hwn. Dadl ganolog Horizon yw:

a) bod gwerth y poblogaethau o ymlusgiaid yn isel (mae hyn yn rhesymol yn ôl pob tebyg, er gwaethaf yr ansicrwydd ynglŷn â'r arolwg a diffyg adolygiad ehangach o lenyddiaeth neu ddata (gweler Bylchau mewn Data isod)); ac felly

b) y bydd yr effeithiau o golli'r holl gynefinoedd (optimaidd ac is-optimaidd) sydd ar gael o fewn y safle datblygu; dadleoli neu drawsleoli ymlusgiaid i fannau y tu allan i'r safle rai cannoedd o fetrau i ffwrdd drwy gydol y cyfnod adeiladu (degawd o leiaf, ynghyd ag amser i'r cynefinoedd aeddfedu ar ôl eu hadfer – felly mwy na 15 mlynedd yn ôl pob tebyg); a'r darnio cysylltiedig ar gynefinoedd a phoblogaethau ar lefel yr ardal yn cael eu lliniaru'n llwyr yn y tymor byr i ganolig drwy ddarparu a gwella'r 'ardaloedd derbynyddion' bach, a thrwy'r SRhTCh yn y tymor hir.

5.2.17 Fodd bynnag, yn aml iawn bydd dosbarthiad ymlusgiaid yn anghyson oherwydd eu dewisiadau o ran cynefinoedd a gall y mannau mwy fod yn bwysig iawn ar gyfer cynnal poblogaethau neu fetaboblogaethau dros ardal ehangach. Mae Adran 4 o'r Adroddiad Crynodeb Technegol ar Ymlusgiaid yn gywir wrth nodi "*Small populations are much more vulnerable to stochastic extinction events making the reptile community within the survey area very fragile*" er nad yw hyn yn cael ei drafod yn y bennod yn y Datganiad Amgylcheddol er gwaethaf y posibilrwydd mawr y bydd hyn yn digwydd. Bydd y gallu i wireddu buddion dichonol y SRhTCh ac ailgytrefu'r safle yn llwyddiannus o fewn cyfnod rhesymol yn dibynnu ar sicrhau bod poblogaethau o ymlusgiaid yn aros ac yn parhau'n hyfyw yn yr ardal leol drwy gydol y cyfnod adeiladu.

5.2.18 Mae'r mesurau lliniaru a gynigiwyd yn weddol safonol, ac yn cael eu cydnabod yn rhai effeithiol ar gyfer nifer mawr o gynlluniau. Mae'n hollbwysig nodi, fodd bynnag, fod y datblygiad hwn yn ymgymeriad mwy o lawer (o ran arwynebedd a chyfnodau) na bron pob datblygiad arall yn y DU, ac mae'n glir y bydd yr ymyrraeth sy'n gysylltiedig ag ef yn gallu tanseilio nifer o agweddau sy'n allweddol i sicrhau integredd poblogaethau o ymlusgiaid (yn cynnwys presenoldeb cynefinoedd optimaidd a'r gallu i fynd iddynt, bod yn agored i risgiau sy'n achosi marwolaeth, gwasgaru rhwng darnau o gynefin, darnio poblogaethau, etc.). Mae CSYM yn pryderu nad yw'r ansicrwydd sydd ynglŷn â chymhwyso'r cynigion ar gyfer lliniaru ar raddfa fwy yn cael ei ystyried (e.e. ymdrechion priodol i ddal ymlusgiaid, parhad poblogaethau, addasrwydd ac aeddfedrwydd yr ardaloedd derbynyddion, etc). Mae'n bosibl na fydd modd datrys nifer o'r elfennau ansicr hyn cyn gweithredu felly byddai CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun sylweddol i fonitro poblogaethau gael ei weithredu drwy gydol y cyfnod adeiladu a chyfnod y SRhTCh fel y gellir rhoi prawf ar yr elfennau ansicr hyn a phennu ymyriadau priodol os bydd eu hangen.

5.2.19 Mae'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol gan Horizon yn nodi 'effeithiau niweidiol' (rhai bach, cymedrol neu fawr) ar y derbynyddion canlynol:

a) SoDdGA Tre'r Gof
b) SoDdGA/ACA Bae Cemlyn
c) SoDdGA Cae Gwyn
d) Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa – Trwyn Penrhyn
e) Coetir hynafol
f) Cynefinoedd y tir
g) Ffyngau
h) Cennau
i) Infertebratau'r tir
j) Y frân goesgoch
k) Adar nythu
l) Adar sy'n gaeafu ac yn ymfudo
m) Ystlumod
n) Y wiwer goch
o) Mamaliaid nodedig
p) Macroinfertebratau
q) Pysgod dŵr croyw

5.2.20 Mae CSYM wedi adolygu'r asesiadau hyn ac mae'n cytuno gan mwyaf â'r casgliadau. Dylid nodi, er hynny, ei bod yn ymddangos mai dim ond lle y pennwyd dwy neu ragor o effeithiau niweidiol y defnyddiwyd asesiadau o effeithiau ar y cyd, ar sail y dybiaeth yn ôl pob tebyg nad yw effeithiau 'dibwys' yn gallu gweithredu'n gronnol i arwain at effeithiau 'arwyddocaol'. Er enghraifft, mae'r effaith o golli cynefinoedd ar boblogaethau'r wiwer goch yn cael ei hystyried yn 'ddibwys', a'r effaith o aflonyddu yn cael ei hystyried yn 'niweidiol fach', felly ni aseswyd effaith gyfunol yr agweddau hyn ar barhad tebygol y gwiwerod coch ar y safle. Mae'n amlwg bod hyn yn dibynnu ar gymryd bod pob elfen 'ar ei phen ei hun' yn dangos yr effeithiau'n gywir, ac mae rhai meysydd lle byddai eglurhad ychwanegol yn fuddiol, yn bennaf mewn perthynas â'r wiwer goch, y frân goesgoch, Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa – Trwyn Penrhyn ac ystlumod. Yn fyr:

5.2.21 **Y frân goesgoch**: Mae Para 9.5.214 o'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi "*The removal of most habitats would be temporary in the short- and medium term as the provisions of the Landscape and Habitat Management Strategy ...include the reinstatement, creation and enhancement of habitats that would be suitable for chough*". Mae'n anodd gweld sut y byddai colli'r 'rhan fwyaf o gynefinoedd' dros gyfnod o 10 - 15 mlynedd yn golygu newid canolig oni bai ei fod yn cael ei ystyried dros y tymor hir yn unig gan gymryd y bydd yr ailgytrefu'n digwydd yn gyflym. Bydd yr ymrwymiadau yn y SRhTCh yn dod â rhai buddion i'r frân goesgoch, er bod buddion yn cael eu hawlio ar gyfer nifer o grwpiau rhywogaethau sydd â gwahanol anghenion. Er enghraifft, mae Para. 9.5.215 yn nodi y bydd y SRhTCh yn creu "*habitats of higher value for foraging chough than the habitats currently present within the WNDA …*[including]....*100ha of coarse-sward species-rich grassland*" er bod 100 ha o'r borfa fras (is-optimaidd i'r frân goesgoch), y rhan fwyaf ohoni'n eithaf pell o'r safleoedd nythu, yn gyfyngedig o ran ei werth.

5.2.22 Mewn perthynas â'r cyfnod adeiladu, mae CSYM yn credu ei bod yn bosibl bod yr asesiad o newid 'canolig' o ganlyniad i golli cynefinoedd (ac felly arwyddocâd 'niweidiol cymedrol' cyn cymhwyso camau lliniaru ychwanegol) yn bychanu maint y newid, am fod brain coesgoch yn gwneud mwy o ddefnydd ar gyfartaledd o'r ardal y mae campws y safle yn effeithio arni'n uniongyrchol (roedd >63% o'r amser chwilota am fwyd yn digwydd yng nghae 146 yn yr arolygon yn 2017). Rydym yn deall bod data ychwanegol gan Horizon mewn perthynas â'r defnydd o'r mannau hyn gan frain coesgoch o 2018, a dylai'r rhain gael eu hasesu.

5.2.23 Yn ogystal â hyn, mae CSYM o'r farn na roddwyd ystyriaeth briodol i'r aflonyddu ar frain coesgoch o ganlyniad i bwysau ymwelwyr mewn cysylltiad â champws y safle – yn enwedig o ran yr effeithiau cronnol ar y cyd â cholli cynefinoedd. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi (mewn perthynas â Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa – Trwyn Penrhyn) "*The potential for workers accommodated in the Site Campus to cause habitat degradation would be controlled through the provisions of the Workforce Management Strategy (Application Reference Number: 8.5)…*[which] *prevents direct access to the Arfordir Mynydd y Wylfa - Trwyn Penrhyn Wildlife Site from the Site Campus*". Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymrwymiadau o gwbl mewn perthynas â hyn yn y Strategaeth Rheoli'r Gweithlu a gyflwynwyd gyda'r cais, dim ond y gofyniad eithaf gwan: "*All personnel must be aware of nearby sensitive ecological receptors (such as Wylfa Head, Tre'r Gof and Cemlyn SSSIs, Cemlyn Lagoon, and nature reserves)…and ensure no damage or interference of any kind is caused to these areas…"*). Felly nid oes unrhyw fodd i CSYM wirio'r datganiadau mewn perthynas ag atal 'mynediad uniongyrchol', ac nid oes unrhyw asesiad chwaith yn y Datganiad Amgylcheddol o beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol. Rydym yn deall bod Strategaeth Rheoli'r Gweithlu yn cael ei diweddaru, neu wedi'i diweddaru, ond dim ond ar sail y wybodaeth a ddarparwyd y gall CSYM wneud ei asesiad a, beth bynnag, mae angen i'r mecanweithiau ar gyfer rheoli'r gweithlu gael eu pennu'n glir a'u hasesu (e.e. faint o atalfa fydd diffyg mynediad uniongyrchol? Beth yw'r darpariaethau ar gyfer wardeinio etc? Beth yw nifer llinell sylfaen yr ymwelwyr â Thrwyn yr Wylfa? Sut y caiff effeithiau eu monitro?). Mae'r agwedd hon yn gysylltiedig â'r darpariaethau sydd eu hangen i warchod Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa – Trwyn Penrhyn (gweler isod). Felly mae ar CSYM angen rhagor o wybodaeth i'w ddarbwyllo bod y rhagfynegiad o effaith weddilliol ('niweidiol fach') gan Horizon yn ddibynadwy.

5.2.24 **Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa – Trwyn Penrhyn**
Mae CSYM yn nodi y byddai'n eithriadol pe na byddai cais am ddatblygiad preswyl newydd ar y raddfa hon yn cynnwys ystyriaeth benodol a chynhwysfawr i'r effeithiau dichonol o bwysau gan ymwelwyr ar safleoedd dynodedig cyfagos (yn ogystal â'r holl safleoedd eraill yn y cyffiniau) – ac nad yw'r ddibyniaeth ar natur dros dro y llety gweithwyr yn ffactor lliniaru pendant oherwydd y difrod a all godi mewn cyfnodau cymharol fyr os na fydd mesurau i lywio ymddygiad yn cael eu cyflwyno. Yn yr un modd â'r frân goesgoch, nid yw'r mesurau lliniaru a gynigir (na'u heffeithiolrwydd disgwyliedig) yn glir. Felly byddai CSYM yn hoffi gweld y mesurau lliniaru y dibynnir arnynt yn y Datganiad Amgylcheddol yn cael

eu disgrifio'n glir yn Strategaeth Rheoli'r Gweithlu, a thystiolaeth bod modd eu sicrhau, yn ogystal â nodi mesurau penodol i reoli pwysau gan ymwelwyr a lliniaru ei effeithiau. Felly mae angen rhagor o wybodaeth ar CSYM i'w ddarbwyllo bod yr asesiad o effaith weddilliol ('niweidiol fach') a ragwelwyd gan Horizon yn ddibynadwy.

5.2.25 **Y wiwer goch**: Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad y bydd yr effaith negyddol o ganlyniad i golli cynefinoedd ar wiwerod coch o 'arwyddocâd dibwys', ar sail colli 3 ha o gynefin sy'n addas i'r wiwer goch a chadw 10.5 ha yn gysylltiedig â chadw Tomen y Fonesig Sylvia Crowe, wedi'i wrthbwyso drwy adfer 22 ha o gynefin o dan y SRhTCh. Mae hyn yn tanbrisio'r arwyddocâd dichonol o golli cynefinoedd cysylltiol yn y tymor byr ac ynysu Tomen y Fonesig Sylvia Crowe am 10+ o flynyddoedd; yn yr Adroddiad Crynodeb Technegol ar y Wiwer Goch nodir "*Rodriguez and Andren's (1999) study predicted that squirrels utilise fragments if they are larger than 10 ha in size and are within 600 m of a source population*" – mae tystiolaeth arall hefyd yn awgrymu nad yw 10 ha o goetir wedi'i ynysu yn ddigon i gynnal poblogaeth annibynnol hyfyw (hyd yn oed ar ôl darparu'r porthi atodol arfaethedig). Mae hyn yn debygol o fod yn wir hefyd wrth ystyried yr effeithiau cronnol ar y cyd ag effeithiau aflonyddu (a fydd yn 'niweidiol bach' yn ôl yr asesiad cychwynnol).

5.2.26 Yn ogystal â hyn, mae'n glir y bydd Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru National Grid (NGET) yn torri coed drwy ganol coetir Tomen y Fonesig Sylvia Crowe (gweler NGET Set Ffigurau 4.11, Cyf. DCO_A/TR/PS/01 – Trees and Hedges Potentially Affected Plans[47]). Er bod y llain a nodwyd gan NGET lle byddai coed yn cael eu torri ac yn profi effeithiau yn gymharol gul (fel y gwelir yng Nghynllun 5.7.1.17), mae tynnu coed o ganol coetir yn arwain fel arfer at agor coed cyfagos i effaith ergydion gwynt, a gall hyn fod yn fater arwyddocaol oherwydd y lleoliad a natur agored Ynys Môn. Mae hefyd yn debygol y bydd cyfnodau adeiladu'r ddau brosiect yn digwydd yr un pryd. Nid oes unrhyw ystyriaeth sylweddol yn yr asesiad o'r effeithiau cronnol i effeithiau cynllun NGET, yn enwedig os caiff y coetir ei ddarnio. Gall hyn fod yn ddiffyg sylweddol o gofio'r rhan allweddol y mae coetir Tomen y Fonesig Sylvia Crowe yn ei chwarae yn y mesurau lliniaru ac felly yn yr asesiad o'r effeithiau ar y wiwer goch yn y Datganiad Amgylcheddol.

5.2.27 Nodir mesurau lliniaru ychwanegol (nythod gwiwerod artiffisial, porthi atodol), a chan nad oes unrhyw effeithiau gweddilliol wedi'u nodi yn yr asesiadau o effeithiau 'ar eu pen eu hunain' ac effeithiau 'cronnol', cymerir bod y mesurau hyn yn cael eu hystyried yn effeithiol. Nid yw CSYM yn derbyn y casgliad hwn: oherwydd yr effeithiau cronnol o ynysu'r boblogaeth, arwynebedd bach y coetir, aflonyddu a darnio cynefinoedd a fydd yn digwydd dros 10+ o flynyddoedd, yn ogystal â'r effeithiau o gynllun NGET yn yr un cyfnod, dylid cymryd y bydd y boblogaeth sy'n defnyddio'r safle yn cael ei cholli drwy gydol y cyfnod gweithio o leiaf, ac am gyfnod hwy yn ôl pob tebyg, ac y bydd y safle wedi'i ynysu rhag ailgytrefu i raddau helaeth yn y tymor hir. Mae colli poblogaeth 'isel' yn arwyddocaol mewn cyd-destun lleol ond yn llai felly o bosibl o ystyried maint y boblogaeth yn Ynys Môn. Er gwybodaeth, mae RSST wedi amcangyfrif mai

[47] Gwefan PINS Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru (Link)

oddeutu 700 yw poblogaeth y gwiwerod coch yn Ynys Môn, sef y boblogaeth fwyaf yng Nghymru, er ei bod yn parhau'n eithaf rhanedig, felly mae'r cysylltedd rhwng poblogaethau a chynefinoedd llai yn bwysig o ran sicrhau cydnerthedd y boblogaeth. Ar y sail hon, gellid dadlau bod maint y newid yn 'ganolig' yn y tymor byr a chanolig, a bod gobaith y bydd SRhTCh briodol yn lliniaru hyn yn y tymor hir (wedi i'r coetir cysylltiol ymsefydlu ac aeddfedu). Fodd bynnag, mae angen cynllunio'r SRhTCh fel y bydd yn hwyluso ailgytrefu gan boblogaethau lleol hysbys a dylai gynnwys darpariaeth ar gyfer o leiaf un bloc o goetir o fwy na 10 ha yn ogystal â choetir Tomen y Fonesig Sylvia Crowe er mwyn sicrhau bod gwerth hirdymor y safle yn cael ei wella uwch y llinell sylfaen. Dylid rhoi mwy o eglurhad hefyd yn yr asesiad o'r effeithiau cronnol o gynllun NGET ar y cynefinoedd a gedwir; nid yw'n glir a yw'r niferoedd a nodir yn y Datganiad Amgylcheddol yn cymryd y colledion a ragwelir yng nghais NGET i ystyriaeth.

5.2.28 **Ystlumod**: Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi y bydd effaith 'niweidiol fach' ar ystlumod, ond mewn perthynas ag aflonyddu yn unig; mae'r asesiad yn rhag-weld y bydd yr effeithiau o golli cynefinoedd (yn cynnwys bron pob un o'r nodweddion lle gall ystlumod glwydo (coed ac adeiladau)) yn 'ddibwys' (ar ôl ystyried effaith y SRhTCh). Mae dau brif fater yn yr asesiad hwn yn peri pryder i CSYM:

a) mae'r asesiad yn tanbrisio'r arwyddocâd o golli'r rhan fwyaf o nodweddion cynefinoedd ar rai cannoedd o hectarau am o leiaf 10 mlynedd (ac am nifer o ddegawdau yn achos rhai nodweddion fel mannau clwydo mewn coed);
b) mae diffyg eglurder ynghylch y cynigion ar gyfer lliniaru, yn enwedig ar gyfer colli mannau clwydo, ac felly'r berthynas â'r asesiad o effeithiau.

5.2.29 Er enghraifft, mae Para. 9.5.299 yn datgan "*Good practice mitigation would also be required if trees supporting bat roost potential would be lost. This would comprise the provision of bat boxes to mitigate the loss of roosting features. All works affecting tree roosts would be subject to an EPSML, as outlined in appendix D9-20*." Nid oes sôn yn y mesurau lliniaru seiliedig ar arfer dda yn Adran 9.4 am ddarparu blychau ystlumod; ac nid yw'n glir a gynigir y mesur lliniaru hwn ar gyfer mannau clwydo hysbys (a fyddai'n ofynnol beth bynnag), "*trees* [with] *bat roost potential*", neu "*roosting features*"; na beth fydd maint y ddarpariaeth. Nid yw'r cyfeiriad a geir wedyn at yr EPSML ym mhara. 9.5.299 yn ei wneud yn fwy eglur – a yw'r mesurau lliniaru hyn ar gyfer colli 'mannau clwydo hysbys' neu am leihau nifer y nodweddion a allai fod ar gael i ystlumod sy'n clwydo ar draws y safle?

5.2.30 Nodir wedyn fod darparu blychau ystlumod yn fesur 'Lliniaru Ychwanegol' yn Nhabl D9-10, sy'n datgan "*To compensate for the loss of potential roost features due to building demolition and tree felling, 24 Schwegler bat boxes would be hung within an area of retained woodland to the east of the Power Station*".

5.2.31 Nid yw'n glir wedyn beth yw'r cysylltiad rhwng hyn a'r asesiad (h.y. a yw'r 'mesurau lliniaru ychwanegol' i gael eu hystyried wrth asesu effeithiau? Mae'r datganiad ym mhara. 9.5.304 "*It is predicted that…the effect on roosting bats would be negligible…Additional mitigation is described in section 6.9*." yn awgrymu fel arall); nid yw'n glir chwaith beth yn union y mae'r ddarpariaeth hon

yn ymwneud ag ef: mae'r disgrifiad o'r llinell sylfaen yn nodi bod 16 o fannau clwydo hysbys mewn adeiladau (ac adeiladau ychwanegol â nodweddion y gall ystlumod eu defnyddio, gellir cymryd) a "*57 trees and some areas of plantation woodland with features that have the potential to support roosting bats*". Felly ai'r bwriad wrth ddarparu 24 o flychau ystlumod yw lliniaru'r effaith o golli 16 o fannau clwydo hysbys, ynghyd ag o leiaf 57 o goed â nodweddion y gellid eu defnyddio?

5.2.32 Trafodwyd hyn yn y cyfarfod ar 17 Hydref, ac eglurwyd y strategaeth lliniaru, er nad yw CSYM wedi cael gwybodaeth ychwanegol na chadarnhad am yr union ddarpariaeth ar gyfer cydbwyso'r effeithiau o golli cynefinoedd clwydo a'r berthynas rhwng hynny a cholli cyfleoedd ar gyfer clwydo ar draws y safle. Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod y strategaeth lliniaru bresennol wedi'i seilio'n bennaf ar y gofynion trwyddedu ar gyfer colli mannau clwydo hysbys (gyda rhywfaint o ddarpariaeth dros ben), sydd yn rhwym o fod yn ystyriaeth fwy cyfyng nag addasrwydd cyffredinol y dirwedd ar gyfer ystlumod. Bydd y ddarpariaeth fwy o fannau clwydo, ar gyfartaledd, o gwmpas nifer bach o 'ysguboriau ystlumod' yn rhoi rhai buddion lleol i boblogaethau o ystlumod, os ceir cynnydd yn y nifer a fegir yn bennaf – ond ni ddylid tanbrisio'r arwyddocâd o golli'r holl nodweddion sy'n addas ar gyfer cyfleoedd clwydo dros rai cannoedd o hectarau am 30+ o flynyddoedd (gan gymryd y bydd angen amser i goed aeddfedu'n ddigonol), yn enwedig y pwysigrwydd o gael nodweddion o'r fath ar wahân i fannau clwydo ar gyfer magu i'w defnyddio gan wrywod a benywod nad ydynt yn magu. Yn gyffredinol, mae hyn yn cael ei ystyried yn effaith negyddol o hyd. Mae CSYM yn pryderu nad yw'r ymrwymiad presennol i ddarparu mannau clwydo yn gwrthbwyso'r effaith hirdymor o golli cyfleoedd clwydo ar draws y safle; bydd yn bwysig bod y ddarpariaeth o flychau ystlumod yn y tymor byr a'r tymor hir yn adlewyrchu'r golled hon.

## 5.3 Safbwynt Polisi

5.3.1 Mae'r polisïau sy'n berthnasol i fesurau lliniaru yn cynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hon yn rhoi awdurdodau cyhoeddus o dan ddyletswydd i *'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'* i'r graddau bod hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio *'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'*. Mae TAN5 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr *'avoid adverse effects on nature conservation, minimise unavoidable effects by mitigation measures and compensate for residual effects on nature conservation'*.

5.3.2 Ym marn CSYM, mae'r ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol hwn, wedi'i ategu gan y polisi lleol isod, yn cyfiawnhau ei gais am y mesurau lliniaru ychwanegol a nodwyd uchod.

5.3.3 Ceir y safbwynt polisi cyffredinol mewn perthynas â Phrosiect Wylfa Newydd ym Mholisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiad perthynol. Mae maen prawf 1 o Bolisi PS 9 yn ei gwneud yn ofynnol bod y broses o ddatblygu'r orsaf bŵer niwclear (a datblygiadau cysylltiedig) yn cael ei llywio drwy ystyried yr holl Bolisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ar sail yr asesiad o

effeithiau sydd wedi'i ddisgrifio uchod, mae'r meini prawf canlynol ym Mholisi PS 9 yn berthnasol hefyd:

5.3.4 Mae maen prawf 6 yn datgan y bydd CSYM yn gwneud y canlynol yn ofynnol wrth baratoi'r Adroddiad Effaith Leol: *'fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig roi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir'*.

5.3.5 Mae maen prawf 8 yn datgan bod angen wrth benderfynu cais cynllunio '*Gwarchod, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol'*.

5.3.6 Ymhlith y Polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd y mae Polisi PS 19, sy'n ceisio peidio ag ailadrodd polisi a deddfwriaeth genedlaethol ac yn rhagdybio yn erbyn datblygu sy'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd naturiol, cefn gwlad a'r forlin, oni bai fod yr angen am y datblygiad a'i fanteision yn y lleoliad hwnnw yn amlwg yn fwy na gwerth y safle neu ardal a'r warchodaeth i'r safle ac ardal dan sylw mewn polisi cenedlaethol. Mae'r asedau'n cynnwys y math o gynefinoedd a rhywogaethau y byddai'r cais yn effeithio arnynt. Mae'r polisïau canlynol ar reoli datblygu yn berthnasol iawn hefyd:

5.3.7 Mae Polisi AMG 3 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynigion am ddatblygu yn osgoi effaith niweidiol arwyddocaol ar nodweddion a phriodweddau sy'n unigryw yn y dirwedd leol mewn perthynas ag agweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol neu ddiwylliannol.

5.3.8 Mae Polisi AMG 5, wrth drafod Gwarchod Bioamrywiaeth Leol, yn datgan bod rhaid i gynigion am ddatblygu '*warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth ... trwy ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt ... coed, gwrychoedd'* etc.

5.3.9 Mae Polisi AMG 6 yn ymdrin â safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol, yn cynnwys safleoedd bywyd gwyllt, ac yn ei gwneud yn ofynnol i osgoi gwneud niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol oni bai fod angen o'r pwys mwyaf am y datblygiad ac ar yr amod bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu cymryd.

5.3.10 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd EA21 yn datgan *'lle na ellir atal effeithiau niweidiol, bydd angen rhoi mesurau priodol ar waith i'w lliniaru a/neu eu cydbwyso'*.

5.3.11 Mae CSYM hefyd o'r farn bod maen prawf 16 yn berthnasol iawn. Mae hwn yn datgan y gall amgylchiadau annisgwyl godi wrth i'r prosiect ddatblygu o ganlyniad i'r cyfnodau adeiladu a gweithredu a fydd yn galw am gyflawni gwaith ychwanegol gan Horizon i wrthbwyso unrhyw effeithiau ychwanegol. Mae'n hanfodol bod dull adolygu effeithiol ar waith.

## 5.4 Bylchau mewn Gwybodaeth

5.4.1 Mae CSYM wedi nodi nifer o fylchau a meysydd lle mae amwyster neu anghysondeb yn y wybodaeth ecolegol a ddarparwyd gan Horizon yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth a'r cynigion ar gyfer mesurau lliniaru. Oherwydd y bylchau ac elfennau amwys hyn, ni all CSYM gytuno â'r holl gasgliadau yn yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol na rhoi prawf digonol arnynt. Nodwyd y prif feysydd sy'n peri pryder yn yr adrannau sy'n dilyn. Mae CSYM yn credu y dylid datrys yr ansicrwydd hwn yn llwyr cyn rhoi caniatâd, neu y dylid cael dealltwriaeth lawn o'r goblygiadau i'r asesiad fel y gellir eu mantoli'n ddigonol yn erbyn yr angen am y datblygiad a diffinio camau lliniaru rhagofalus addas.

### Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (SRhTCh)

5.4.2 Mae'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol yn dibynnu ar y mesurau lliniaru yn y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (SRhTCh) i raddau helaeth wrth ddod i'w gasgliadau. Fodd bynnag, mae nifer o'r egwyddorion neu ymrwymiadau yn y SRhTCh yn rhai cyffredinol o hyd ac mae diffyg manylion, ac oherwydd hyn nid oes modd gwirio nifer o gasgliadau'r asesiad (e.e. mewn perthynas â chynefinoedd A.7, gweler isod). Mae nifer o anghysonderau rhwng y SRhTCh a'r ymrwymiadau i liniaru yn yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol (e.e. nifer yr ysguboriau ystlumod) fel na ellir rhoi prawf dibynadwy ar yr effeithiau sydd wedi'u datgan yn yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol.

### Cynefinoedd Adran 7

5.4.3 Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol, ymysg pethau eraill, fod yr awdurdod cyhoeddus yn rhoi sylw i'r rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau a gyhoeddwyd gan CNC yn unol ag Adran 7 o'r Ddeddf (cynefinoedd neu rywogaethau 'A.7' yma).

5.4.4 Mae crynodeb o'r casgliad y mae Horizon wedi dod iddo ynghylch effeithiau ar gynefinoedd ym Mhara. 9.5.136 o Gyfrol D y Datganiad Amgylcheddol – WNDA Development D9 sef eu bod: "…*medium in the medium-term. As the habitat permanently lost under the footprint of permanent infrastructure mainly comprises low quality grassland, and the provisions of the Habitat Management Strategy would mitigate habitat losses in the long-term through the creation of habitats of higher biodiversity value, the medium magnitude of change is not expected to affect the integrity of terrestrial habitats. As such, a minor adverse effect due to habitat loss, fragmentation or modification is predicted*". Er bod CSYM yn cytuno bod rhan helaeth o'r safle yn dir amaethyddol o werth isel o ran ecoleg, nid yw'r data llinell sylfaen am gynefinoedd wedi'u cyflwyno mewn modd sy'n ei gwneud yn rhwydd rhoi prawf ar yr asesiad hwn. Yn benodol, ni ddatganwyd pa arwynebeddau o bob cynefin A.7 a gaiff eu colli dros dro neu'n barhaol, na'r cyfnod y bydd unrhyw effeithiau'n cael eu gwrthbwyso gan y SRhTCh. Gofynnwyd am y wybodaeth hon mewn cyfarfod ar [DATE], ond ni ddaeth i law eto. Mae CSYM yn credu bod angen i'r ymgeisydd nodi'n glir y cynefinoedd A.7 sydd ar y safle; yr arwynebeddau a gollir dros dro neu'n barhaol; yr enillion net a ragwelir o ganlyniad i'r SRhTCh; a thros ba gyfnod y sicrheir yr enillion hyn. Dylid cynnwys croesgyfeiriadau at arolwg yr NVC hyd

y gellir er mwyn nodi'r cynefinoedd A.7 sy'n brin ac o werth uwch, ac ymrwymiadau i sefydlu cynefinoedd yn lle'r rhain. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i roi prawf ar yr asesiadau yn yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol yn awr ac wrth fonitro cyflawniad y SRhTCh yn y tymor hir.

**Ymlusgiaid**

5.4.5 Gan nad oes manylion am arolygon yn yr Adroddiad Crynodeb Technegol (e.e. yr arwynebedd a archwiliwyd; dwysedd y teils; etc.), ni ellir rhoi canlyniadau'r arolwg yn eu cyd-destun nac asesu'r cyfyngiadau sydd arnynt yn drwyadl. Mae'r Adroddiad Crynodeb Technegol ar ymlusgiaid yn datgan "[Survey] *limitations are unlikely to significantly alter the conclusions…primarily due the quantity of data available from four years of survey data, coupled with background data from Cofnod and incidental sightings*". Fodd bynnag, nid oes data o arolygon dros bedair blynedd, fel y dywedir, ond nifer o arolygon o nifer o leoliadau a gynhaliwyd dros gyfnod o bedair blynedd. Ni chafwyd data am leoliadau penodol dros bedair blynedd – ar gyfer y rhan fwyaf o'r lleoliadau mae'r data archwilio am un neu ddwy flynedd yn unig. Mae'n bosibl y byddai cyfyngiadau ar arolygon mewn blwyddyn benodol yn effeithio ar ganlyniadau ar gyfer lleoliadau a archwiliwyd yn y flwyddyn honno, ac na fyddai hyn wedi'i liniaru o reidrwydd drwy gael data ychwanegol o arolygon a gynhaliwyd wedyn. Gofynnwyd am y wybodaeth hon yn y cyfarfod ar 17 Hydref, ond ni ddaeth i law eto. Felly ni all CSYM fod yn gwbl hyderus yn y datganiad bod "[Survey] *limitations are unlikely to significantly alter the conclusions*…". Yn ogystal â hyn, yn Adran 4 o'r Adroddiad Crynodeb Technegol nodir "*A full review of the literature pertaining to the population of reptiles on Anglesey has not been carried out as it does not form part of the scope of this report*". Nid yw'n debygol y byddai arolwg llenyddiaeth yn ddadlennol iawn er y gellid dadlau y byddai'n briodol cynnal arolwg llenyddiaeth er mwyn gallu rhoi'r canlyniadau mewn cyd-destun lleol/rhanbarthol (os oes modd) – e.e. sut mae'r canlyniadau'n cymharu ag arwynebeddau hysbys o werth uchel yn Ynys Môn? Byddai grwpiau astudio ymlusgiaid lleol yn gallu darparu'r wybodaeth hon, ac rydym yn gwybod bod dosbarthiad anghyson o wiberod ar draws Ynys Môn.

**Ystlumod**

5.4.6 Mae nifer o wyriadau oddi wrth y canllawiau cydnabyddedig ar gynnal arolygon (rhai cyfredol a'r rheini a oedd yn gymwys ar adeg yr arolwg) nad oes eglurhad amdanynt ac a allai effeithio ar y disgrifiad o'r llinell sylfaen. Yn enwedig:

5.4.7 Roedd arolygon ar droed o weithgarwch wedi dechrau 40 munud ar ôl machlud haul, ond mae'r canllawiau ar arolygon ystlumod a gyhoeddwyd yn 2012 yn awgrymu mai mwyaf priodol yw dechrau arolygon 15 munud cyn machlud haul.

5.4.8 Roedd arolygon â synwyryddion sefydlog wedi rhedeg dros dair noson ar ôl ei gilydd, ond mae canllawiau 2012 yn awgrymu bod pum noson ar ôl ei gilydd yn briodol ar gyfer safle o 'werth canolig'.

5.4.9 Nid oes eglurhad yn yr Adroddiad Crynodeb Technegol i ddangos pam na fyddai'r gwyro hwn oddi wrth y canllawiau yn arwain at newid arwyddocaol

dichonol yn y data a gasglwyd. Y cyfiawnhad a gynigir dros ddechrau arolygon o weithgarwch 40 munud ar ôl machlud haul yw "*the aim was to record foraging and commuting activity only and not activity associated close to their roosts*", ac nid yw hyn yn gwbl argyhoeddiadol (gellir dadlau bod hyn yn rhagdybio bod holl leoliadau'r mannau clwydo yn hysbys ac, felly, nad yw gweithgarwch yn agos i'r rhain o ddiddordeb, ac mae'n cyfyngu ar y gallu i adnabod mannau a all fod yn bwysig yn y cyfnod yn union wedi i ystlumod godi allan, e.e. mannau cysgodol lle dechreuir chwilota am fwyd; cynefinoedd sy'n cysylltu safleoedd clwydo a mannau chwilota am fwyd). Er mwyn adnabod nodweddion a all fod yn bwysig i ystlumod yn union wedi iddynt adael y man clwydo, mae angen cynnal arolygon o adeg machlud haul. Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod ar 17 Hydref, rydym yn deall bod hyn yn ganlyniad i barhau â dulliau archwilio'r arolygon cynnar. Fodd bynnag, mae CSYM am weld ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau'r gwyriadau hyn.

5.4.10 Y prif fater arall sy'n codi yng nghyswllt yr asesiad o ystlumod yw diffyg eglurhad, yn hytrach na bwlch mewn data o reidrwydd, mewn cysylltiad â'r cynigion ar gyfer lliniaru, yn enwedig am golli mannau clwydo, ac felly'r berthynas â'r asesiad o effeithiau; mae hyn wedi'i drafod uchod.

**Gwiwerod Coch**

5.4.11 Fel y nodwyd, nid yw'r effeithiau cronnol o gynllun Wylfa Newydd ynghyd â chynigion NGET ar gynefinoedd a gedwir ar Domen y Fonesig Sylvia Crowe wedi'u disgrifio'n glir, ac nid yw'n glir a yw'r ffigurau am yr arwynebedd a gedwir yn y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer Wylfa (h.y. 10.5 ha. a gedwir i liniaru effeithiau ar wiwerod coch) yn cynnwys ystyriaeth i gynigion NGET.

**Adar Nythu**

5.4.12 Ni ddarparwyd dyddiadau nac amseroedd cynnal yr arolygon, ac mae hyn yn dylanwadu ar ganlyniadau'r arolygon o adar nythu . Yn ogystal â'r hyn, mewn perthynas â'r rhywogaethau a dargedwyd, nid yw'r crynodeb technegol yn nodi a oedd arolygon wedi'u haddasu i gynyddu'r tebygolrwydd o arsylwi'r rhywogaethau hyn. Er enghraifft, lluniwyd nifer o ganllawiau ar gyfer arolygon penodol i asesu presenoldeb/absenoldeb adar ysglyfaethus a rhywogaethau eraill sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1 h.y. nifer o'r adar sydd wedi'u diffinio'n 'rhywogaethau a dargedir' yn yr asesiad. Mae Hardey *et al.* (2009) yn darparu methodoleg a ddefnyddir yn gyffredin i asesu presenoldeb hebogiaid tramor sy'n nythu. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y dulliau a ddefnyddiwyd i asesu presenoldeb hebogiaid tramor sy'n nythu yn groes i'r rheini a ddisgrifiwyd yn Hardey *et al*, ac mae'n debygol bod hyn yn wir yn yr un modd am arolygon a gynhaliwyd i asesu gweddill y rhywogaethau a dargedir. Mae'n bosibl bod cyfiawnhad digonol am hyn, ond nid yw wedi'i ddarparu yn y crynodeb technegol.

5.4.13 Mae'r Crynodeb Technegol ar Adar Nythu yn defnyddio dull pennu gwerth Fuller i briodoli gwerth i'r crynodiadau o adar nythu a gofnodwyd ar y safle. Ar sail y ffaith bod 70 o adar nythu wedi'u cofnodi, mae'r crynodeb technegol yn priodoli gwerth pwysigrwydd 'rhanbarthol' i'r crynodiad o adar nythu ar y safle.

Fodd bynnag, mae Paragraff 9.3.73 o adran D9 o'r Datganiad Amgylcheddol yn datgan yn lle hynny, ar ôl dweud bod dull Fuller wedi'i ystyried yng nghyd-destun arwynebedd mawr yr ardal astudio, a chyfnod hir yr arolwg, fod hyn yn golygu y gellir priodoli gwerth isel i'r crynodiad o adar nythu.

5.4.14 Yn fyr, mae'r crynodeb technegol a'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi'n glir fod dull pennu gwerth wedi'i ddefnyddio i asesu gwerth y crynodiad o adar nythu. Mae'r dull pennu gwerth a ddefnyddiwyd yn priodoli gwerth rhwng pwysigrwydd rhanbarthol a phwysigrwydd cenedlaethol i'r crynodiad o adar nythu a gofnodwyd ar y safle. Wedyn, fodd bynnag, dywedir bod y dull pennu gwerth yn amhriodol i'w ddefnyddio ar safle mor fawr, ac ni ddilynir y gwerth y mae'n ei ddarparu. Ni roddir eglurhad na chyfiawnhad dros ddod i'r casgliad bod y crynodiad o adar nythu a gofnodwyd o werth isel. Mae hyn yn galw am eglurhad pellach.

## 5.5 Rhwymedigaethau a Gofynion y GCD

4.5.1 Ar yr amod y ceir cadarnhad am yr uchod, mae CSYM yn gofyn am ddiwygiadau i'r Is-God Ymarfer Adeiladu perthnasol, y SRhTCh, a/neu ofyniad am ddarparu datganiadau dull i ddiogelu derbynyddion ecolegol. Mae CSYM o'r farn y byddai'r mesurau lliniaru ychwanegol hyn yn sicrhau rhagofal priodol ac yn gyson ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n bosibl y bydd angen gorddarpariaeth o gamau lliniaru neu wella lle mae'r asesiad o effeithiau'n ansicr oherwydd bylchau mewn data.

## 5.6 Crynodeb

5.6.1 Mae Horizon wedi nodi y bydd effeithiau gweddilliol arwyddocaol ar y derbynyddion canlynol:

a) SoDdGA Tre'r Gof
b) Safle Bywyd Gwyllt Arfordir Mynydd y Wylfa – Trwyn Penrhyn
c) Coetir hynafol
d) Ffyngau
e) Y frân goesgoch

5.6.2 Mae CSYM yn cyd-fynd â'r asesiad hwn ac yn ystyried bod y rhain yn effeithiau negyddol i ddibenion yr adroddiad hwn. Er hynny, mae nifer o feysydd lle gellir dadlau bod effeithiau'r cyfnod adeiladu wedi'u tanbrisio o ganlyniad i ddibynnu ar y mesurau lliniaru a ddarperir yn y tymor hir gan y SRhTCh. Mewn gwirionedd, gwelir effeithiau'r cyfnod adeiladu ar rai cannoedd o hectarau a byddant yn parhau am ddegawd o leiaf; bydd yr effeithiau gweddilliol o hyn yn parhau'n hirach o lawer cyn gwireddu buddion y SRhTCh.

5.6.3 Yn ogystal â hyn, mae bylchau yn y wybodaeth neu'r data yn yr Adroddiadau Crynodeb Technegol sy'n golygu bod rhai effeithiau ar rai derbynyddion na ellir eu hadolygu'n ddibynadwy. Mae CSYM yn mynnu y bydd y bylchau hyn yn cael eu llenwi.

5.6.4 O ganlyniad i'r agweddau hyn (pryderon am yr asesu ar effeithiau tymor byr a chanolig ar gyfer rhai derbynyddion, a'r anhawster wrth wirio rhai o gasgliadau'r asesiadau), mae CSYM yn credu bod angen mesurau lliniaru neu wella ychwanegol i wrthbwyso'r elfennau ansicr yn yr asesiadau, ochr yn ochr â chynlluniau monitro manwl.

## 6.0 Dŵr Wyneb a Dŵr Daear

### 6.1 Cyd-destun

6.1.1 Mae amgylchedd naturiol Ynys Môn yn bwysig a gwerthfawr. Mae'r adroddiad Ymdeimlad o Le yn dweud bod topograffi Ynys Môn yn isel at ei gilydd gyda phatrwm tonnog am yn ail â brigiadau creigiog mwy caled. Mae'r tirffurf yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, yn gyson ag aliniad prif afonydd Ynys Môn rhwng y gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin. Mae'r cymeriad cyffredinol hwn yn celu daeareg gymhleth o dano sy'n cynnwys rhai o'r creigiau hynaf yng Nghymru a Phrydain. Mae Ynys Môn yn gartref hefyd i nifer mawr o safleoedd a warchodir, yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) Ewropeaidd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), nifer ohonynt yn dibynnu ar fewnbynnau o ddŵr daear a/neu ddŵr wyneb.

6.1.2 Mae'r ardal a all fod yn agored i effeithiau'r gwaith arfaethedig i ddatblygu Prif Safle Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cynnwys yr holl nodweddion dŵr a all fod â chysylltiad hydrolegol â'r safle a'r arwynebeddau tir sy'n draenio'r nodweddion hyn. Mae'r ardal astudio dŵr wyneb yn cwmpasu pum dalgylch dŵr wyneb bach ac mae'r ardal astudio dŵr daear o fewn cwmpas 3km o ganol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r ardaloedd astudio yn cynnwys lleoliadau sydd mewn perygl arwyddocaol o lifogydd yn ogystal â derbynyddion sensitif, yn cynnwys SoDdGAau sy'n dibynnu ar ddŵr yn Tre'r Gof, Cae Gwyn a Bae Cemlyn, Dyfroedd Ymdrochi dynodedig a chyflenwadau dŵr preifat.

6.1.3 Yn dilyn ymdrech rhwng nifer o randdeiliaid gan y Cyngor, CNC a Dŵr Cymru i weithredu mesurau i wella ansawdd dŵr yng Nghemaes, wedi iddo gael ei asesu'n 'wael' yn ystod tymhorau ymdrochi 2016 a 2017 oherwydd llygredd gwasgaredig o dir amaethyddol o fewn y dalgylch, cadarnhawyd bellach fod ansawdd y dŵr yn 'ddigonol' yn yr adroddiad diweddaraf yn 2018[48].

6.1.4 Roedd y broblem ansawdd dŵr ar y traeth wedi'i hystyried hefyd yn rhan o'r Prosiect Acclimatize gwerth £5.8 miliwn, astudiaeth o dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Dulyn a oedd yn edrych ar effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar draethau a oedd 'mewn perygl' yng Nghymru ac Iwerddon. Un agwedd ar yr astudiaeth oedd datblygu technoleg i fodelu ansawdd bacteriolegol tebygol dŵr wedi'i seilio ar fonitro paramedrau fel llif afon, llanw, tymheredd, lleithder cymharol a glawiad. Mae hyn wedi cyfrannu at sefydlu system fwy soffistigedig ar y traeth i gynghori'r cyhoedd sy'n ei ddefnyddio am addasrwydd y dŵr ar gyfer ymdrochi (gweler y dudalen Twitter @traethcemaes).

1. Bathing Waters Directive compliance by bathing water, 2018
(Link)

6.1.5 Mae'r Cyngor yn credu bod ansawdd y dŵr yng Nghemaes 'mewn perygl' o hyd ac y byddai unrhyw ddirywiad pellach yn ei ansawdd microbaidd o ganlyniad i'r datblygiad yn gallu amharu ar gydymffurfiaeth â safonau'r UE yn y dyfodol ac effeithio ar gymuned yr arfordir sy'n dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth. Mae'r traeth o fewn AHNE Ynys Môn ac mae rhan o'r traeth hefyd yn ardal Arfordir Treftadaeth Gogledd Môn.

## 6.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

6.2.1 Mae CSYM wedi asesu'r bennod berthnasol yn y Datganiad Amgylcheddol a'r atodiadau ategol, yn cynnwys yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd[49]. Nid yw CSYM wedi cynnal arolwg technegol manwl o'r adroddiad modelu dŵr daear ond mae wedi asesu'r canlyniadau a gofnodwyd yng nghyd-destun y bennod yn y Datganiad Amgylcheddol[50]. Mae CSYM wedi dod i'r casgliad, ar gyfer y rhan fwyaf o'r derbynyddion y nodwyd eu bod yn agored i effeithiau, fod mesurau lliniaru addas wedi'u pennu, ac mae'n cytuno ar faint dichonol y newid. Er hynny, mae CSYM y pryderu'n fawr ynghylch yr effeithiau dichonol o ganlyniad i'r perygl o lifogydd, y systemau draenio cynaliadwy (SuDS) arfaethedig a SoDdGA Tre'r Gof.

6.2.2 Yn y bennod ar ADWN yn y Datganiad Amgylcheddol gan Horizon (Tabl D8-9 – Summary of Residual Effects, 6.4.8 yng Nghyfrol D y Datganiad Amgylcheddol – WNDA Development D8 – Surface Water and Groundwater[51]), nodwyd na fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Mae CSYM yn cytuno â'r casgliad hwn.

6.2.3 Mae Horizon wedi nodi nifer mawr o effeithiau niweidiol bach ar ddŵr wyneb a dŵr daear a fyddai'n llai nag arwyddocaol. Mae 54 o'r effeithiau hynny a aseswyd wedi'u rhestru yn Atodiad I3-1 (Master residual effects[52]). Mae CSYM yn cytuno â'r asesiadau hyn heblaw'r rheini sy'n ymwneud â pherygl llifogydd ar Nant Cemaes a'r effeithiau o gynnydd yn y llwyth gwaddodion crog yn Afon Cafnan, Nant Cemaes a Thre'r Gof. Mae'r rhain wedi'u trafod ymhellach isod.

6.2.4 Yn y bennod am ADWN yn Natganiad Amgylcheddol Horizon (Tabl D8-9 – Summary of Residual Effects, 6.4.8 yn y Datganiad Amgylcheddol Cyfrol D – WNDA Development D8 Surface water and Groundwater[53]) nodir pum effaith niweidiol gymedrol ac un effaith niweidiol fawr:

**a) Newid yn y dalgylch naturiol drwy dirweddu i greu tomenni a rheoli draenio a allai newid y cyfraddau glawiad/dŵr ffo a'r llif gwaelodol o dŵr daear gan arwain at newidiadau yn argaeledd dŵr.**

i. Dalgylch Tre'r Gof a dŵr o fewn SoDdGA Tre'r Gof – Effaith niweidiol gymedrol yn ystod y cyfnod adeiladu, effaith niweidiol fawr yn ystod y cyfnod gweithredu.

[49] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-150 – APP-157 9 (Mae 8 rhan i'r FCA)
[50] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-127
[51] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[127]
[52] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[391]
[53] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[127]

ii. Dalgylch Afon Cafnan, dalgylch Cemaes a dalgylch Cemlyn - Effaith niweidiol gymedrol yn ystod y cyfnod gweithredu.

**b) Newidiadau ym mewnlif dŵr wyneb/dŵr daear bas wrth darddleoedd a sgydau dŵr sy'n effeithio ar argaeledd ac ansawdd dŵr oherwydd y system draenio a reolir.**

i. Dalgylch Tre'r Gof a dŵr o fewn SoDdGA Tre'r Gof – Effaith niweidiol gymedrol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Mae Atodiad I3-1 (Master residual effects[54]) yn ymhelaethu ar hyn i gynnwys:

**c) Byddai effeithiau o gynnydd yn y gwaddodion crog mewn dŵr ffo o dirweddu i greu tomenni cyn i lystyfiant ddod i'w lawn dwf yn gallu effeithio ar ansawdd dŵr.**

i. Dalgylch Tre'r Gof a dŵr o fewn SoDdGA Tre'r Gof – Effaith niweidiol gymedrol yn ystod y cyfnod adeiladu (aseswyd ei bod yn niwtral yn Nhabl D8-9).

ii. Dalgylch Cemaes – Effaith niweidiol gymedrol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu (aseswyd ei bod yn niwtral yn Nhabl D8-9).

6.2.5 Mae CSYM wedi asesu'r bennod berthnasol a'r atodiadau sy'n ei hategu, yn cynnwys yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd[55], ac wedi dod i'r casgliad bod mesurau lliniaru addas wedi'u pennu ar gyfer y rhan fwyaf o'r derbynyddion a nodwyd, ac mae'n derbyn yr asesiad o faint dichonol y newid.

6.2.6 Mae Horizon wedi ymrwymo i ymgymryd â gwaith manwl i ddatblygu systemau draenio cynaliadwy a ddarperir ar ôl rhoi'r GCD. Bydd y system yn cyfateb i'r amodau llinell sylfaen i'r graddau mwyaf posibl, drwy gytuno â'r rheoleiddiwr, yn rhan o ddyluniad terfynol y tirffurf. Fodd bynnag, y casgliad y mae CSYM yn dod iddo yn ei asesiad, o ganlyniad i ddiffyg manylion pellach am y cynlluniau draenio arfaethedig (yn y cyfnodau adeiladu a gweithredu), yw na all gytuno ag asesiad Horizon gan fod angen iddo gael ei fodloni bod y mesurau lliniaru a gynigiwyd yn debygol o fod yn ddigon i leihau effeithiau sy'n gysylltiedig â newidiadau yn ansawdd dŵr a chynnydd yn y gwaddodion crog mewn dŵr ffo a fydd yn niweidiol bach/cymedrol.

6.2.7 Mae CSYM hefyd yn dod i'r casgliad yn ei asesiad y ceir yr effaith arwyddocaol ychwanegol a ganlyn:

a) **Perygl Llifogydd** – ni all CSYM gadarnhau na fydd y datblygiad o fewn y prif safle yn arwain at fwy o berygl o lifogydd i dderbynyddion ar lannau Nant Cemaes (Brookside Garage ac unedau eiddo preswyl cyfagos) yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Mae Horizon wedi ymrwymo i gynnal asesiad mwy manwl ac mae'n credu y bydd hyn yn dileu'r perygl drwy ddylunio. Fodd bynnag, mae'r dogfennau a gyflwynwyd yn nodi bod yr holl fanylion hyn i gael eu darparu ar ôl rhoi'r GCD. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn mynegi'r farn wedyn, ar y sail y bydd y mesurau lliniaru hyn yn llwyddiannus, na fydd yr effaith ddichonol yn arwyddocaol. Oni bai fod Horizon yn darparu rhagor o fanylion, yn cynnwys mwy o fodelu a manylion am ddyluniad y mesurau lliniaru, ni all CSYM gael ei fodloni y bydd y perygl o lifogydd yn ddibwys ar ôl cymryd camau

[54] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[391]
[55] [55] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[150-157]

lliniaru.

## 6.3 Safbwynt Polisi

6.3.1 Mae maen prawf 1 o Bolisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau perthynol, sef y Polisi trosfwaol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn disgwyl y bydd y cynnig yn cael ei ffurfio ar sail unrhyw Bolisïau perthnasol yn y Cynllun ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol sy'n berthnasol. Mae maen prawf 8 o Bolisi PS 9 hefyd yn berthnasol i'r materion a godwyd mewn cysylltiad â Tre'r Gof, gan ei fod yn disgwyl y bydd patrwm a dyluniad y cynllun yn osgoi, yn lleihau, yn lliniaru neu'n cydbwyso nifer o wahanol effeithiau, yn cynnwys effeithiau ecolegol. Mae'r hyn sy'n dilyn yn rhestr o Bolisïau sy'n berthnasol i faterion a godwyd uchod, e.e. perygl o lifogydd, effaith ar gynefinoedd.

6.3.2 <u>Polisi Strategol PS 5 Datblygu Cynaliadwy</u>, meini prawf 6, 7 ac 8:

a) *6 - Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS 19;*
b) *7 - Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd [...]; a diogelu ansawdd y pridd;*
c) *8 - Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy; a dilyn amcanion Cynllun Rheolaeth Basn Afonydd Gorllewin Cymru.*

6.3.3 <u>Polisi Strategol PS 19: *Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r Amgylchedd Naturiol*</u>, lle mae meini prawf 2 a 3 yn datgan:

a) *2 - Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a ble'n berthnasol, eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;*
b) 3 - *Rhoi sylw priodol i arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig, er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau ac ymrwymiadau rhyngwladol neu genedlaethol yn cael eu cwrdd yn llawn yn unol â Pholisi Cenedlaethol;*

**Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd 2018:**

6.3.4 Darperir cyngor ynghylch sut i gymhwyso Polisïau perthnasol yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn. Mae rhestr isod o'r egwyddorion sylfaenol yn y CCA sy'n arbennig o berthnasol i'r materion a godwyd yn yr adran hon o'r Bennod hon o'r Adroddiad Effaith Leol:

6.3.5 <u>EA22 Gwarchod yr Amgylchedd Dŵr</u>

*Disgwylir i hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw ymgeisydd arall ddangos na fydd y gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer a datblygiadau cysylltiedig a pherthynol, ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â chynigion eraill, yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, cynefinoedd neu nodweddion*

*arfordirol, cynefinoedd glannau afon a rhywogaethau dŵr (gan gynnwys poblogaethau o bysgod mudol), na defnyddwyr masnachol a hamdden.*

*Lle nodir bod posibilrwydd o effeithiau niweidiol ac nad oes modd eu hosgoi, dylid rhoi mesurau ar waith i liniaru'r effeithiau hyn. Rhai mesurau posibl yw:*

*i. Rheoli dŵr wyneb ffo o safleoedd adeiladu a diogelu'r amgylchedd sy'n ei dderbyn, gan gynnwys llwybrau ar gyfer dŵr/ dŵr budr drwy gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy wrth ddylunio datblygiadau newydd;*

*[…]*

*iii. Gweithredu Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol;*

*[…]*

*v. Sicrhau bod cyflenwad dŵr a seilwaith dŵr gwastraff priodol ar gael i ateb y galw sy'n codi wrth adeiladu a gweithredu'r prif safle a datblygiadau cysylltiedig a pherthynol, yn unol ag EA15.*

6.3.6 EA28a Prif Safle Wylfa Newydd – Egwyddorion Datblygu Allweddol

*[…]*

*c. Osgoi effeithiau niweidiol ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu;*

*d. Sicrhau bod y datblygiad yn gallu gwrthsefyll y perygl o lifogydd, gan gynnwys hyrddiadau storm a tswnami;*

*e. Osgoi, lliniaru neu, pan fo hynny'n briodol, wneud iawn am effeithiau niweidiol ar y safleoedd canlynol (gan sicrhau nad oes colled net i fioamrywiaeth):*

*i. integredd safleoedd Natura 2000 (neu eu nodweddion nodedig) gan gynnwys ACA Bae Cemlyn, AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn, ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan ac AGA Ynys Seiriol (os byddai datblygiad ym mhrif safle Wylfa Newydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynigion eraill, yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safle Natura 2000, byddai rhaid cynnal Asesiad Priodol);*

*ii. cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan gynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof;*

*[…]*

*iv. cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig allweddol, gan gynnwys y rhai a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn.*

*h. Nodi [...], creu cynefinoedd, rheoli'r perygl o lifogydd [...] sy'n integreiddio'n briodol â'r ardal gyfagos. Mae'n bosibl y bydd gwaith a gwelliannau mewn tirweddau a seilwaith gwyrdd sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin prif safle'r orsaf bŵer*

*yn gallu lliniaru a gwneud iawn am effeithiau'r prosiect a sicrhau gwelliannau lle bo'n briodol;*

6.3.7 EA28b Llety Dros Dro Arddull Campws ar gyfer Gweithwyr Adeiladu ar Brif Safle Wylfa Newydd – Egwyddorion Datblygu Allweddol

*Yn ogystal â'r hyn a nodwyd ym mholisi EA28b:*

*xi. Osgoi effeithiau niweidiol ar argaeledd ac ansawdd adnoddau dŵr ar gyfer cymunedau presennol yng Ngogledd Môn a allai godi fel arall yn sgil rhoi llety i weithwyr adeiladu dros dro.*

*EA20 Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd*

*Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod mesurau priodol yn cael eu cynnwys i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd mewn cynlluniau, mewn perthynas â pharhau'n weithredol yn ystod llifogydd, mannau storio i gydbwyso effeithiau llifogydd, defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy, a bod cynlluniau ar gyfer rhybuddio rhag llifogydd a gadael.*

*Felly mae'r polisi yn ategu'r gofyniad i Horizon sicrhau bod y mesurau perygl o lifogydd yn 'gynhwysfawr'; a sicrhau bod pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol yn cael ei diogelu.*

6.3.8 Nid yw'r cais a gyflwynwyd yn rhoi digon o le i gredu y gellir diogelu SoDdGA Tre'r Gof drwy fesurau dylunio a pheirianyddol manwl yn unol â'r disgwyliad yn NPS EN6 Cyfrol II. Byddai'r posibilrwydd o golli'r SoDdGA yn groes i bolisi cenedlaethol (PCC) ac i bolisi lleol, yn enwedig Polisi PS 19 yn y CDLlC.

## 6.4 Bylchau mewn Gwybodaeth

6.4.1 **Perygl o Lifogydd –** Mae'r Datganiad Amgylcheddol, Pennod D8[56] yn cadarnhau y bydd y datblygiad, drwy newid ac ehangu dalgylchoedd yn ADWN, yn arwain at fwy o berygl o lifogydd i dderbynyddion ar lannau Nant Cemaes (Brookside Garage ac unedau eiddo cyfagos) yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

6.4.2 Mae'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd[57] yn cadarnhau: '*Currently the drainage design is at an outline stage and further design work is required to refine the drainage scheme to remove the impact on fluvial and pluvial flood risks identified by the modelling*'. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau wedyn y bydd asesiad mwy manwl, yn cynnwys modelu hydroleg a manylion am fesurau lliniaru drwy ddylunio, yn fodd i leihau'r effeithiau ar dderbynyddion a nodwyd fel eu bod yn ddibwys. Mae CSYM yn pryderu na ellir cadarnhau bod mesurau lliniaru yn ddichonol ac yn effeithiol o ran lliniaru'r cynnydd yn y perygl o lifogydd, yn y cyfnodau adeiladu a gweithredu, heb gynnwys manylion dylunio'r mesurau lliniaru yn y GCD.

[56] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[127]
[57] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[150]. Page 79.

6.4.3 Dylai Horizon ddarparu rhagor o fanylion i ddangos bod modd rheoli'r cynnydd yn y perygl o lifogydd a bod y cynigion yn gyson ag NPS-EN1 a TAN15 yn ogystal â Pholisi PS 5 yn y CDLlC.

6.4.4 **Dŵr Wyneb a Dŵr Daear –** Mae'r Datganiad Amgylcheddol, ym Mhennod D8[58] yn cadarnhau ei bod yn bosibl, ar ôl cymryd mesurau lliniaru (corfforedig, arferion da ac ychwanegol), y bydd newidiadau yn ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear a llwythi gwaddodion crog yn parhau i achosi risg i dderbynyddion, yn cynnwys Afon Cafnan, Nant Cemaes a Bae Cemaes a Nant Cemlyn, yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

6.4.5 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau y bydd Horizon yn datblygu dull peirianyddol goddefol yn y system draenio, ac y bydd y system yn cyfateb mor agos â phosibl i'r amodau llinell sylfaen ac y bydd yn ei datblygu mewn cytundeb â'r rheoleiddiwr yn rhan o ddyluniad terfynol y tirffurf. Mae angen cydnabod na fydd effaith niweidiol ar dderbynyddion ecolegol sensitif (llifau isel) a derbynyddion perygl llifogydd (llifau uchel). Mae pryder penodol mewn perthynas â thyrfedd a pherygl drwy waddodi i ansawdd Dŵr Ymdrochi ym Mae Cemaes.

6.4.6 Dylai Horizon ddarparu rhagor o fanylion am ddyluniad y mesurau lliniaru er mwyn dangos bod modd lliniaru effeithiau'n llwyddiannus, ac i gadarnhau y bydd y system draenio (system draenio cynaliadwy) yn cyfateb i'r amodau llinell sylfaen presennol i'r graddau mwyaf posibl.

6.4.7 Rydym yn ymwybodol bod HNP yn gwneud rhagor o waith modelu ac asesu drwy ymgynghori â Dŵr Cymru ac y bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r broses archwilio. Bydd CSYM yn gofyn am gadarnhad gan CNC ei fod yn fodlon ar gasgliadau'r asesiadau hyn, yn cynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig.

6.4.8 **SoDdGA Tre'r Gof –** Nid yw'r cais am GCD yn diystyru'r posibilrwydd o effaith niweidiol arwyddocaol ar SoDdGA Tre'r Gof ac mae'n cynnwys tri safle lle cynigir gwaith i greu a gwella cynefinoedd i wrthbwyso effeithiau disgwyliedig y datblygiad ar SoDdGA Tre'r Gof. Mae CSYM am gael sicrwydd y bydd y pecyn o fesurau cydbwyso yn gallu gwrthbwyso'r effeithiau disgwyliedig. Disgwylir y bydd yr ymchwiliadau a gafwyd gan HNP i asesu dichonoldeb y safleoedd cydbwyso yn rhoi'r gallu i ddatblygu modelau cysyniadol manwl o'r safleoedd a'u cyffiniau ac i gynnwys monitro lefel a llif dŵr daear a dŵr wyneb, monitro ansawdd dŵr a samplu swbstradau.

## 6.5 Rhwymedigaethau a Gofynion y GCD

6.5.1 Mae'r mesurau lliniaru yn y Datganiad Amgylcheddol yn gyffredinol ac ar lefel uchel. Nid yw'n cynnwys manylion perthnasol i roi'r gallu i arfarnu effeithiolrwydd y camau lliniaru . Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi y bydd y dull o weithredu'r cynlluniau monitro yn y cyfnod adeiladu yn cael ei fireinio yn ôl yr angen ar sail y monitro/gweithredu parhaus ar y cynllun.

[58] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-[127]

6.5.2 Gall fod yn dderbyniol darparu rhagor o wybodaeth ar ôl rhoi'r GCD ar gam y dylunio manwl ar gyfer cynllun draenio mewn amgylchiadau eraill. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, oherwydd yr effeithiau dichonol ar y SoDdGA a'r gefnogaeth i'r SoDdGA mewn polisi cenedlaethol a lleol, dylid cadarnhau'r dulliau lliniaru posibl cyn rhoi caniatâd, fel y gellir cadarnhau bod tir addas ar gael o fewn ardal y cais ar gyfer y camau lliniaru sydd eu hangen i reoli dŵr. Os bydd yr Awdurdod Archwilio yn dilyn llwybr gwahanol, bydd CSYM yn gofyn am gynnwys gofyniad fel y bydd manylion y gwaith dylunio ychwanegol yn cael eu cyflwyno i CSYM a'u cymeradwyo ganddo cyn dechrau datblygu'r prif safle (yn cynnwys campws y safle).

6.5.3 Yn ogystal â'r uchod, mae CSYM yn gofyn am fesurau cydbwyso ar gyfer y posibilrwydd o golli'r SoDdGA. Mae angen caffael y safleoedd a nodwyd gan Horizon ac ymgymryd ag unrhyw waith sydd ei angen i wella eu cyflwr mewn perthynas â SoDdGA Tre'r Gof gan ddilyn amserlen y bydd CSYM yn cytuno arni drwy ymgynghori â CNN.

## 6.6 Crynodeb o Effeithiau ar Ddŵr Wyneb a Dŵr Daear

6.6.1 Y mater allweddol yw sicrhau dull cynhwysfawr o osgoi neu liniaru'r effeithiau niweidiol ar SoDdGA Tre'r Gof. Yn ogystal â hyn, mae angen rhagor o fanylion am ddyluniad y cynllun draenio arfaethedig ac effeithiolrwydd y mesurau ar gyfer ansawdd dŵr er mwyn diogelu rhag mewnlif o waddodion i gyrsiau dŵr ac effeithiau ar lefel is ar SoDdGAau a dyfroedd ymdrochi.

## 7.0 Materion Presennol sy'n ymwneud â Thir Halogedig

## 7.1 Cyd-destun

7.1.1 Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ADWN) yn cydffinio â'r orsaf bŵer Magnox bresennol yn y gogledd. Gall yr orsaf bŵer flaenorol achosi halogi un ai drwy ddefnyddio deunyddiau halogedig (e.e. halogion mewn deunyddiau llenwi) neu o ganlyniad i'r prosesau a gyflawnwyd (e.e. toddyddion clorinedig). Mae'n bosibl y bydd adeiladu ar y safle newydd yn symud halogion presennol a gallai hyn beri i dderbynyddion[59] fod yn agored i effeithiau'r halogi.

7.1.2 Yn yr adroddiadau ar sail arolwg desg ar gyfer y datblygiad, nodwyd nifer o Ardaloedd Pryder Dichonol (APDau) y cafwyd ymchwiliadau iddynt ar safleoedd (tyllau turio a dadansoddi cemegol etc.). Cyflwynwyd manylion yr adroddiadau hyn yn Nhabl 2.1 yn y Datganiad Amgylcheddol 6.4.24 Cyfrol D – WNDA Development App D7-1 – Soils and Geology Baseline Conditions Report[60].

7.1.3 Mae'r APDau hyn wedi'u dangos yn Ffigur D7-6 o'r Datganiad Amgylcheddol (6.4.7 Cyfrol D – WNDA Development D7 – Soils and geology)[61].

7.1.4 Nid yw'r effeithiau dichonol o halogi radiolegol wedi'u hystyried yn yr adran hon.

## 7.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

7.2.1 Nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol fod yr adroddiadau am yr archwiliadau o safleoedd a gynhaliwyd (6.4.7 Cyfrol D – WNDA Development D7 – Soils and geology)[3] wedi dangos y canlynol:

a) crynodiadau isel o hydrocarbonau aromatig polysyclig (PAHs) a chrynodiadau isel o biffenylau polyclorinedig (PCBs) (hyd at 1.1 µg/kg).
b) Cofnodwyd metelau mewn priddoedd ond at ei gilydd roedd eu crynodiadau'n is na'r trothwyon yn y meini prawf asesu generig perthnasol[62]. Roedd y crynodiadau o rai trwytholchion mewn pridd a samplwyd yn uwch na'r trothwyon yn y safonau ansawdd dŵr[63] ar gyfer amoniwm, copr, cromiwm, plwm, manganîs a sinc.
c) Yn APD7 nodwyd siambr swmp a falf lle cofnodwyd crynodiad uchaf o 1,100 µg/l ar gyfer toddyddion clorinedig (tricloroethen, yn benodol) (y Safon Ansawdd

---

[59] Mae'r rheoli ar halogiad tir drwy reoliadau yng Nghymru ac yng ngweddill y DU wedi'i seilio ar risg.
Er mwyn ystyried bod halogi'n achosi risg, rhaid cael cysylltiad â halogydd sy'n cynnwys:
1) Ffynhonnell halogi
2) Derbynnydd y gellir ei niweidio (e.e. defnyddwyr y safle yn y dyfodol, preswylwyr cyfagos, dŵr daear)
3) Llwybr a all beri i dderbynnydd fod yn agored i'r halogydd

[60] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-143

[61] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-126

[62] Y meini prawf asesu generig yw crynodiadau asesu y credir eu bod yn dangos crynodiadau o halogion sydd ar drothwy lle nad oes risg annerbyniol i iechyd dynol o dano mewn senarios penodol ac fe'u defnyddir i sgrinio data o archwiliadau safle.

[63] Safonau ansawdd dŵr yn cynnwys safonau ansawdd amgylcheddol (gweler troednodyn 4) ar gyfer dŵr croyw a hallt a safonau dŵr yfed. Dylid nodi nad pwrpas y safonau hyn yw rheoleiddio halogiad mewn dŵr daear.

Amgylcheddol[64] ar gyfer tricloroethen yw 10µg/l). Hefyd nodwyd arwynebedd lleol o bridd wedi'i halogi gan hydrocarbonau yn APD7, lle'r oedd cyfanswm y crynodiad o hydrocarbon petrolewm yn 1,130 mg/kg a chrynodiadau isel o hydrocarbonau aromatig polysyclig.

d) Nodwyd asbestos yn APD10, APD12 ac APD17.

e) Nodwyd tir wedi'i wneud o ddeunydd gwastraff yn APD17, APD18 ac APD19.

7.2.2 Nid oes data ar gael o archwiliadau tir ar gyfer APD16 – gorsaf betrol Tregele.

7.2.3 Ychydig o dir a archwiliwyd y tu allan i'r APDau ac roedd y deunydd a gafwyd yn ddeunydd naturiol wedi'i ailweithio gan mwyaf. Mae dadansoddiad o drwytholchion mewn pridd wedi dangos crynodiadau o cromiwm, copr, plwm, manganîs, mercwri, nicel a sinc sy'n uwch na'r trothwyon yn y Safonau Ansawdd Dŵr.

7.2.4 Yn adolygiad CSYM o ddogfennau'r Datganiad Amgylcheddol y cyfeiriwyd atynt uchod, daethpwyd i'r casgliad bod yr asesiadau'n adlewyrchu lefel yr effaith a fyddai'n cael ei chreu ar bob cam yng nghylch bywyd y prif safle. Fodd bynnag, mae'r casgliad hwn yn amodol ar gymryd mesurau priodol i reoli effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu.

7.2.5 Yn yr atodlen sy'n rhestru effeithiau gweddilliol yn nogfennau Horizon (Tabl D7-11 Summary of Residual Effects, Pennod D7), y casgliad yw y ceir yr effeithiau arwyddocaol cadarnhaol mawr a ganlyn mewn perthynas ag adfer tir halogedig yn ystod y cyfnod adeiladu ar y canlynol:

a) Gweithwyr adeiladu (tymor byr)
b) Defnyddwyr tir cyfagos (tymor byr)
c) Defnyddwyr y safle yn y dyfodol (tymor byr)
d) Dyfroedd sensitif iawn a reolir, e.e. dalgylch Tre'r Gof (tymor hir).

7.2.6 Y casgliad yn yr atodlen yw y ceir yr effeithiau arwyddocaol cymedrol a ganlyn mewn perthynas ag adfer tir halogedig yn ystod y cyfnod adeiladu ar y canlynol:

a) Pridd isradd 3b (tymor hir)
b) Dyfroedd gweddol sensitif a reolir, e.e. dalgylch Afon Cafnan (tymor hir).

7.2.7 Credir bod yr asesiad o effeithiau cadarnhaol yn rhesymol at ei gilydd. Er hynny, nid yw'n ymddangos bod yr asesiadau o'r effeithiau ar weithwyr adeiladu a defnyddwyr tir cyfagos yn ystyried yr effeithiau dichonol ar weithwyr adeiladu sy'n ymwneud ag adfer tir cyfagos na defnyddwyr tir cyfagos yn ystod y gwaith adfer. Fodd bynnag, nodir y bydd cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar weithwyr adeiladu a defnyddwyr tir cyfagos fel na fydd yr effeithiau'n arwyddocaol.

7.2.8 Mae Horizon wedi nodi nifer o effeithiau llesol bach ar dderbynyddion halogi a fyddai'n llai nag arwyddocaol:

[64] Mae Safonau Ansawdd Amgylcheddol yn cael eu gosod o dan y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol (2008/105/EC) gyda'r amcan o sicrhau statws cemegol da i ddŵr wyneb. (Link)

a) Priddoedd gradd 5
b) Dyfroedd isel eu sensitifedd a reolir.

7.2.9 Mae Horizon wedi nodi nifer o effeithiau niweidiol bach ar dderbynyddion a fyddai'n llai nag arwyddocaol:

a) Ansawdd pridd (graddau / israddau ALC 2, 3a, 3b a 5) mewn perthynas â diraddio drwy gymysgu â thir wedi'i wneud
b) Ansawdd pridd (graddau / israddau ALC 2, 3a, 3b a 5) mewn perthynas â symud halogiadau annisgwyl a digwyddiadau llygru
c) Dyfroedd a reolir mewn perthynas â symud halogiadau annisgwyl
d) Gweithwyr adeiladu a defnyddwyr tir cyfagos mewn perthynas â digwyddiadau llygru.

7.2.10 Mae CSYM yn credu bod yr asesiad o effeithiau niwtral yn rhesymol.

7.2.11 Mae Horizon wedi nodi un effaith niweidiol arwyddocaol mewn perthynas â halogi tir sy'n gysylltiedig â gweithwyr adeiladu: y posibilrwydd y bydd gweithwyr adeiladu yn agored i effaith halogiadau annisgwyl. Mae CSYM yn credu y dylai fod yn bosibl lliniaru'r effaith hon drwy gynllunio a rheoli digonol.

## 7.3 Safbwynt Polisi

7.3.1 Mae maen prawf 1 o Bolisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau perthynol, sef y polisi trosfwaol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn disgwyl y bydd y cynnig yn cael ei ffurfio ar sail unrhyw Bolisïau perthnasol yn y Cynllun ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol sy'n berthnasol. Ar sail yr asesiad uchod o'r effeithiau, credir bod y Polisi Canlynol yn berthnasol iawn:

7.3.2 Mae Polisi Strategol PS5: Datblygu Cynaliadwy yn y CDLlC yn datgan y dylai'r holl gynigion datblygu:

*"Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd;" (maen prawf 7).*

7.3.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd o dan EA 21 (Gwarchod a gwella'r Amgylchedd Naturiol) yn nodi y gall mesurau lliniaru a chydbwyso gynnwys adfer tir halogedig lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol.

## 7.4 Bylchau mewn Gwybodaeth

7.4.1 Mae CSYM o'r farn bod bylchau yn yr asesiad sy'n rhan o'r cais am GCD, yn cynnwys:

a) Ni ystyriwyd yr effeithiau negyddol dichonol o gamau adfer.
b) Nid oes gwybodaeth ar gael am yr archwiliad o APD16 – gorsaf betrol Tregele.

7.4.2 App D7-2 – Asesiad Risg a Strategaeth Adfer Tir Halogedig

7.4.3 Mae adroddiadau ffeithiol am archwiliadau blaenorol o safleoedd i gael eu darparu yn Atodiad B i App D7-2; nid yw'r rhain wedi'u darparu eto gyda'r dogfennau a gyflwynwyd.

7.4.4 Mae nifer o fylchau yn yr adroddiad, yn cynnwys y canlynol:

a) Bylchau yn y model cysyniadol a oedd yn sail i'r asesiad risg:

i. Nid yw'r posibilrwydd o fewnlifiad halogion i blanhigion a bwyta'r llysiau a geir ohonynt gan dda byw yn cael ei ystyried yn llwybr dichonol.
ii. Nid oes ystyriaeth i dderbynyddion ecolegol pwysig.
iii. Nid yw mewnanadlu ffeibrau wedi'i nodi yn y llwybrau – mae'n ymddangos ei fod wedi'i ystyried fel llwch yn CSM.
iv. Siart lif 3 - APD 9 – dim cyfeiriad at ddyfnder dŵr daear a'r posibilrwydd o risgiau o anwedd NAPL a thoddyddion hydrocarbon/clorinedig a nodwyd mewn dŵr daear.

b) Bylchau yn yr asesiad risg, yn cynnwys:

i. Dim asesiad o risg i ecoleg / da byw ar gyfer defnydd amaethyddol yn y dyfodol.
ii. Gan mai dim ond Lefelau Sgrinio Categori 4 a Lefelau Addas i'w Defnyddio sydd wedi'u defnyddio, mae nifer mawr o sylweddau heb eu sgrinio ar sail meini prawf asesu iechyd dynol. Dylid ystyried defnyddio'r meini prawf asesu generig a gyhoeddwyd gan EIC i sgrinio VOCs a SVOCs. Nid oes cyfeiriad at sylweddau y cofnodwyd bod eu crynodiad yn uwch na'r lefelau darganfod ond ni chafwyd asesiad sgrinio ar sail meini prawf asesu generig i ddangos y risgiau dichonol i iechyd dynol o'r sylweddau hyn.
iii. Nid yw'n ymddangos bod asesiad wedi'i wneud o effeithiau adiol TPH.
iv. Nid yw'r dadansoddiad asbestos yn cyfeirio at y gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddiwyd i gael y setiau data / canlyniadau cyfunol. Mae'n debygol bod y dull o sgrinio a mesur wedi newid yn sylweddol dros amser a bod goblygiadau wedi codi o ran cywirdeb y dulliau sgrinio a mesur, a bod ansicrwydd ynghylch unrhyw sgrinio ar asbestos yn ystod ymchwiliadau blaenorol. Dylid cyfeirio hefyd at y dull mesur e.e. grafimetrig a / neu PCOM.
v. Ni ystyriwyd risgiau o anwedd dŵr daear.
vi. Mae'r asesiad o risg nwy daear yn dibynnu ar fesuriadau nwy daear, er bod cydnabyddiaeth y bydd newid sylweddol yng nghyflwr y tir o ganlyniad i'r gwaith adeiladu yn golygu na fydd canlyniadau monitro yn arwydd dibynadwy o natur y nwyon daear ar ôl y cyfnod datblygu.
vii. Mae angen cyfiawnhad pellach i ategu'r rhagdybiaeth hon: "*the vast majority of the ground conditions recorded across the site suggests that the ground gas generation potential would be low*". Dylai Horizon ystyried cyfeirio at ddull asesu risg TOC– CL:AIRE RB17 / BS8485 i gael tystiolaeth ychwanegol.
viii. Nodwyd risgiau mawr o asbestos i ddefnyddwyr presennol y safle. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn ystyried y canlyniadau a gafwyd sy'n dangos ACM wedi'i rwymo mewn sment yn agosach i'r wyneb a ffeibrau a gofnodwyd ar lefelau dyfnach. Nid yw'n ymddangos chwaith ei fod yn ystyried cyflwr wyneb y tir a fydd yn lliniaru'r effaith bosibl o ryddhau ffeibrau.

7.4.5 Nodir yn y strategaeth adfer fod angen mesurau a chynlluniau pellach i'w chyflawni, yn enwedig y rheini i ddelio â halogi annisgwyl, cyflawni'r gwaith adfer a gwirio.

7.4.6 Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd[65] a'r Is-god Ymarfer Adeiladu[66] hefyd yn ymdrin â rheoli halogiad tir ac yn datgan "*Horizon will assess and manage land contamination in accordance with guidance within the Model Procedures for the Management of Land Contamination*"[67]. Ychydig iawn o fanylion a ddarparwyd am y ffordd y bydd halogiad tir yn cael ei reoli.

7.4.7 Mae'r Codau Ymarfer Adeiladu yn galw am dynhau i gynnwys yr eitemau a nodwyd yn y strategaeth adfer, h.y.:

a) Methodoleg fanwl ar gyfer dylunio, paratoi, gwirio gweithredu, a monitro a chynnal y mesurau adfer. Bydd hyn yn cynnwys y sail resymegol dros samplu a dadansoddi pellach ar gyfer dylunio a gwirio.
b) Manylion y prosesau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli halogiad annisgwyl, yn cynnwys y sail resymegol dros samplu pellach, methodolegau penodol i reoli halogiad annisgwyl yn ddiogel a lleihau effeithiau amgylcheddol dichonol o halogi annisgwyl.

## 7.5 Rhwymedigaethau a Gofynion y GCD

7.5.1 Mae CSYM yn dymuno gweld cyflwyno diweddariadau o'r Cod a'r Is-god Ymarfer Adeiladu yn ystod yr archwiliad. Dylai'r dogfennau diwygiedig gynnwys y wybodaeth sydd wedi'i rhestru uchod. Os na ddarperir y wybodaeth hon, yna bydd CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i Ofyniad WN1 y GCD gael ei ailddrafftio fel y bydd yn ofynnol i Is-god Ymarfer Adeiladu manwl gael ei gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn dechrau datblygu'r prif safle. Dylai'r ddogfen hon ddarparu ar gyfer 'pwyntiau atal' y bydd angen iddynt gael eu derbyn gan CSYM cyn cymryd y camau nesaf, fel y rheini a fyddai'n cael eu darparu fel 'amodau' fel arfer gan awdurdod lleol o dan Reoliadau Ceisiadau Cynllunio Gwlad a Thref. Dylai'r pwyntiau atal gynnwys rhai ar gyfer darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani uchod o dan 'Bylchau mewn Gwybodaeth'.

## 7.6 Crynodeb

7.6.1 Mae'r tir y byddai Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu arno yn cynnwys tir a halogwyd gan weithgareddau yn y gorffennol. Mae Horizon wedi cynnal asesiad o'r effaith ar dderbynyddion a fyddai'n codi o ganlyniad i symud yr halogion hyn. Ym marn CSYM, mae cwmpas yr asesiad yn rhy gyfyng ac ni ystyriwyd yr effeithiau negyddol dichonol a allai godi o'r gweithgareddau adfer eu hunain. Yn ogystal â hyn, mae derbynyddion ychwanegol, fel derbynyddion

[65] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-414

[66] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-415

[67] Asiantaeth yr Amgylchedd (2004), Model Procedures for the Management of Land Contamination. Contaminated Land Report 11. (Link)

ecolegol a defnyddwyr y tir yn y dyfodol, wedi cael eu hanwybyddu. Mae adolygiad manwl o'r Strategaeth Asesu Risg ac Adfer Halogiad Tir wedi dangos nifer o fylchau ychwanegol yn y wybodaeth fel a nodwyd.

## 8.0 Priddoedd a Daeareg

### 8.1 Cyd-destun

8.1.1 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd ar dir cyfagos i gyn orsaf bŵer niwclear Magnox ar arfordir gogledd Ynys Môn. Ar hyn o bryd, defnyddir y rhan fwyaf o'r prif safle ar gyfer pori gan ddefaid a gwartheg ac mae'r priddoedd yn briddgleiog gan mwyaf, gyda phriddoedd mawnaidd mewn rhai mannau. Roedd y mannau cyfagos i'r gyn orsaf bŵer wedi'u defnyddio fel mannau gosod i lawr wrth ddatblygu cyn orsaf bŵer Magnox.

8.1.2 Dyfarnwyd statws Geoparc Rhyngwladol UNESCO i Ynys Môn yn gydnabyddiaeth bod Ynys Môn yn atyniad o'r radd flaenaf i ymwelwyr yng nghyd-destun ei hamrywiaeth ddaearegol a'i daeareg. Ceir rhai o'r nodweddion daearegol mwyaf amrywiol a thrawiadol yn y byd yn Ynys Môn, yn cynnwys safleoedd daearegol pwysig fel Ynys Lawd, Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Cemaes, Mynydd Parys, Niwbwrch a Llanddwyn. Mae'r creigiau hyn yn rhychwantu 4 gorgyfnod a 12 cyfnod daearegol ac maent yn sail yn aml i'r amrywiaeth ryfeddol o blanhigion ac anifeiliaid a geir hefyd yn Ynys Môn.

8.1.3 Mae treftadaeth ddaearegol Ynys Môn yn elfen bwysig yn yr arlwy cyfoethog i ymwelwyr yn Ynys Môn.

8.1.4 Mae nifer o safleoedd daearegol a geomorffaidd pwysig rhanbarthol (RIGS) ger yr orsaf bŵer.

8.1.5 Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau ar dderbynyddion pridd a daeareg yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r aflonyddu ar dir wrth baratoi a chlirio'r safle ac adeiladu arno. Bydd y gwaith adeiladu yn cynnwys stripio pridd, gwaith cloddio helaeth, cloddio'n ddwfn i osod sylfeini a gosod pwynt newydd ar gyfer gollwng dŵr wyneb ym Mae Cemaes.

### 8.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

8.2.1 Mae CSYM wedi cynnal adolygiad o'r dogfennau sydd yn y cais am GCD.

8.2.2 Mae hyn yn cynnwys 6.4.24 Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol D – WNDA Development App D7-1 – Soils and Geology Baseline Conditions Report[68] sy'n cynnwys manylion am:

a) Y mathau o bridd sy'n bresennol (East Keswick 1 a Brickfield 2 a rhai priddoedd mawnaidd)
b) Archwiliadau o ddosbarthiadau tir amaethyddol
c) Safleoedd daearegol pwysig

8.2.3 Mae adolygiad CSYM wedi dod i'r casgliad bod yr asesiadau yn adlewyrchu lefel yr effaith a fyddai'n cael ei chreu ar bob cam yng nghylch bywyd y prif safle ar yr amod bod rheolaeth briodol yn ystod y cyfnod adeiladu.

[68] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-143

8.2.4 Sylwer bod yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag adfer priddoedd halogedig wedi'u trafod yn y Bennod yn yr Adroddiad Effaith Leol ar Halogiad Tir Presennol ar y Prif Safle.

8.2.5 Mae rhestr Horizon o'r effeithiau gweddilliol (Tabl D7-11 – Summary of Residual Effects, Pennod D7)[69] yn dod i'r casgliad na fydd effeithiau arwyddocaol mawr neu gymedrol mewn perthynas â phriddoedd neu ddaeareg.

8.2.6 Mae Horizon wedi nodi nifer o effeithiau niweidiol bach ar dderbynyddion pridd a daeareg a fyddai'n llai nag arwyddocaol:

a) Effaith niweidiol ar ansawdd pridd (Graddau/Is-raddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2, 3a, 3b a 5) oherwydd tramwyo dros bridd gan gerbydau yn ystod gwaith i glirio'r safle.
b) Diraddio priddoedd o ansawdd Graddau/Is-raddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2, 3a, 3b a 5 oherwydd stripio, trafod a storio yn y cyfnod adeiladu.
c) Y posibilrwydd o ddiraddio ansawdd pridd (Graddau/Is-raddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2, 3a, 3b a 5) o ganlyniad i fwy o erydu ar bridd.
d) Lleihau hygyrchedd a gwerth RIGS Dolerit Porth Wnal fel adnodd addysgol oherwydd presenoldeb yr ollyngfa dŵr oeri.

8.2.7 Mae CSYM yn credu bod yr asesiad y bydd yr effeithiau yn niwtral yn rhesymol.

8.2.8 Mae Horizon wedi nodi un effaith niweidiol arwyddocaol mewn perthynas â daeareg yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu:

a) Difrod i RIGS Dolerit Porth Wnal o ganlyniad i gloddio'r ollyngfa dŵr oeri a'r argae coffr cysylltiedig sydd eu hangen ar gyfer adeiladu.

8.2.9 Mae cynigion ar gyfer mesurau lliniaru wedi'u pennu er ei fod wedi'i gadarnhau nad yw'r cynigion hyn yn lleihau'r effeithiau gweddilliol fel eu bod yn llai nag arwyddocaol. Mae'r cynigion ar gyfer lliniaru yn cynnwys darparu byrddau gwybodaeth a chynnal arolwg LiDAR o'r nodwedd. Caniateir mynediad i'r cyhoedd hefyd drwy drefnu ymlaen llaw. Mae amlinelliad o'r mesurau lliniaru yn yr Is-god Ymarfer Adeiladu ar gyfer y prif safle (Cyfrol 8.7)[70].

8.2.10 Mae CSYM yn cytuno â'r asesiad o effeithiau negyddol a'r cynigion ar gyfer lliniaru.

## 8.3 Safbwynt Polisi

8.3.1 Mae maen prawf 1 o Bolisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau perthynol, sef y Polisi trosfwaol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn disgwyl y bydd y cynnig yn cael ei ffurfio ar sail unrhyw Bolisïau perthnasol yn y Cynllun ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol sy'n berthnasol. Mae maen prawf 8 o Bolisi PS 9 hefyd yn berthnasol i'r materion a godwyd mewn cysylltiad â'r RIGS, gan ei fod yn disgwyl y bydd patrwm a dyluniad y cynllun yn osgoi, yn lleihau, yn lliniaru neu'n cydbwyso nifer o effeithiau gwahanol, sy'n cynnwys effeithiau ecolegol a

[69] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-126
[70] Cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad APP-415

hanesyddol. Mae rhestr isod o Bolisïau eraill sy'n berthnasol i faterion a godwyd uchod.

8.3.2 Mae Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy yn datgan y dylai'r holl gynigion ar gyfer datblygu:

"Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS 19" (maen prawf 6)

*"Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd;" (maen prawf 7).*

8.3.3 Polisi AMG 6: Gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol

*"Gwrthodir cynigion fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfeydd Natur Leol (GNLl), Safleoedd Bywyd Gwyllt (SBG)[1] neu safleoedd daearegol/geomorffaidd pwysig rhanbarthol (RIGS), oni bai fod modd profi fod yna angen gorbwysol cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd ar gyfer y datblygiad, ac nad oes yna safle arall addas a fyddai'n osgoi cael effaith andwyol ar safleoedd o werth cadwraeth natur leol a neu bwysigrwydd daearegol lleol.*

*Pan ganiateir datblygiad, bydd angen sicrhau fod yna fesurau lliniaru priodol mewn lle. Fe fydd yn bosib defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu gwerth bioamrywiaeth a daearegol y safle."*

Mae testun sy'n ategu'r polisi yn datgan *"Yn achos datblygiad a fyddai'n effeithio safle RIGS, os bennir fod y datblygiad yn bwysicach nag arwyddocâd y safle ac nad yw'n ymarferol cynnwys mesurau i leihau'r effaith ar y safle yna bydd yn rhaid i'r datblygwr wneud trefniadau addas ar gyfer cofnodi'r safle gan unigolyn profiadol yn y maes cyn cychwyn ar y gwaith ac wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Bydd modd cynnwys amodau neu rwymedigaeth cynllunio er mwyn sicrhau hyn."*

8.3.4 CCA Wylfa Newydd 2018:

Ceir cyngor ynghylch sut i gymhwyso Polisïau perthnasol yn y CCA hyn. Mae rhestr isod o egwyddorion arweiniol yn y CCA sy'n berthnasol iawn i'r materion a godwyd yn y Bennod hon o'r Adroddiad Effaith Leol:

8.3.5 EA 21 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol:

"Dylai hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw ymgeisydd arall geisio sicrhau bod amgylchedd naturiol unigryw Ynys Môn yn cael ei warchod a, lle bo hynny'n bosibl, ei wella. Yn benodol, mae'r Cyngor Sir yn mynnu y bydd hyrwyddwr y prosiect ac unrhyw ymgeisydd arall yn dangos na fydd y cynnig,

ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynigion eraill fel seilwaith trosglwyddo trydan, yn cael effeithiau niweidiol annerbyniol ar y canlynol*:"*

*"vi. Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol a statws Geoparc rhannau o Ynys Môn;"*

*"Lle na ellir atal effeithiau niweidiol, bydd angen rhoi mesurau priodol ar waith i'w lliniaru a/neu eu cydbwyso."*

*"Priddoedd a defnydd tir: Bydd angen strategaeth liniaru briodol er mwyn diogelu ansawdd y pridd yn ystod y cyfnod adeiladu."*

## 8.4 Bylchau mewn Gwybodaeth

8.4.1 Mae CSYM o'r farn bod bylchau yn yr asesiad sy'n rhan o'r cais am GCD, yn cynnwys:

a) Dangos lleoliad y mannau lle bydd yr uwchbridd a'r isbridd yn cael ei stripio a phentyrrau.

b) Mae gofynion y strategaeth rheoli pridd a'r cynllun rheoli pridd i gael eu cynnwys yn Cod ac Is-god Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd. Mae'r codau ymarfer adeiladu yn cyfeirio at 'reolaethau cyffredinol' ar gyfer rheoli priddoedd ac nid ydynt yn galw am gynhyrchu cynlluniau rheoli pridd. Mae angen cadarnhau yn y codau ymarfer adeiladu y bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yn rhan o'r broses o gymeradwyo'r Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd manwl a'r Is-godau Ymarfer Adeiladu:

i. Diffiniad o'r personél â chymwysterau a phrofiad addas a gyflogir i oruchwylio'r rheolaeth ar adnoddau pridd.
ii. Manylebau'r arolygon o adnoddau pridd a gynhelir cyn dechrau cloddio.
iii. Y gofyniad i gynhyrchu cynlluniau rheoli pridd a fydd yn cysylltu â chynllun rheoli deunyddiau a chynllun rheoli gwastraff y datblygiad.
iv. Cynnwys arfaethedig y cynlluniau rheoli pridd.
v. Yr egwyddorion a ddilynir wrth ddisgrifio'r terfynau ar leithedd pridd a fydd yn pennu pa bryd y rhoddir y gorau i weithio.
vi. Egwyddorion rheoli traffig a stripio a gosod pridd.
vii. Terfyn amser arfaethedig ar gyfer storio pridd sydd wedi'i stripio.

## 8.5 Rhwymedigaethau a Gofynion y GCD

8.5.1 Mae CSYM yn dymuno gweld diweddariadau o'r Cod a'r Is-god Ymarfer Adeiladu yn cael eu cyflwyno yn ystod yr archwiliad. Dylid cynnwys y wybodaeth a restrwyd uchod yn y ddogfen ddiwygiedig. Os na roddir y wybodaeth hon, bydd CSYM yn ei gwneud yn ofynnol bod gofyniad WN1 yn y GCD yn cael ei ailddrafftio fel y bydd Is-god Ymarfer Adeiladu manwl yn cael ei gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn dechrau datblygu'r prif safle. Dylai'r ddogfen hon ddarparu ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar ffurf cynlluniau rheoli pridd y bydd yn ofynnol i CSYM eu cymeradwyo cyn dechrau datblygu.